# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mawrth 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

---

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(09:00 - 09:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:15 - 09:45)

**2.1 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd**

(Tudalennau 1 - 3)

**2.2 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 2 Chwefror**

(Tudalennau 4 - 9)

**2.3 Llythyr gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus**

(Tudalennau 10 - 21)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(09:45)

Gweddill y cyfarfod.

## 4 Papurau preifat i'w nodi

(09:45 - 09:50)

**4.1 Llythyrau mewn perthynas ag atebolrwydd y Bwrdd Taliadau**

(Tudalennau 22 - 29)

**4.2 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd**

(Tudalennau 30 - 32)

## 5 Craffu ar y Comisiynwyr - Ystyried yr Ymatebion Ysgrifenedig a'r Camau Nesaf

(09:50 - 10:20) (Tudalennau 33 - 61)

## 6 Penodiadau Cyhoeddus

(10:20 - 10:40) (Tudalennau 62 - 92)

## (Egwyl)

(10:40 - 10:50)

## 7 Briff Archwilio Cymru: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(10:50 - 11:20) (Tudalennau 93 - 112)

## 8 Briff Archwilio Cymru: Cynhwysiant Digidol

(11:20 - 11:45) (Tudalennau 113 - 148)

## 9 Blaenraglen Waith

(11:45 - 12:30) (Tudalennau 149 - 169)

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

13 Mawrth 2023

Annwyl Archwilydd Cyffredinol

Diolch am eich adroddiad 'Darlun o Reoli Perygl Llifogydd'. Ysgrifennaf i ymateb i'r prif broblemau a nodwyd yn yr adroddiad, ac i roi diweddariad ichi ar y ffordd rydym yn rheoli perygl llifogydd yng Nghymru, ynghyd â'r cynnydd hyd yn hyn.

Yn gyntaf hoffwn i ddiolch ichi am eich adroddiad craff a chytbwys, sy'n cydnabod y cynnydd rydym wedi'i wneud ers 2016. Croesawaf hefyd yr heriau a nodwyd yn eich adroddiad, a'r eglurder y mae'n ei ddarparu mewn perthynas â'r prif broblemau sy'n effeithio ar y gwaith o reoli perygl llifogydd.

Fel y mae eich adroddiad yn cydnabod, mae mynd i'r afael â'r effeithiau cynyddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn hanfodol i bopeth rydym yn ei wneud. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddi er mwyn mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Bydd sicrhau bod ein gwaith yn ddigon i ymdrin â'r risgiau cynyddol o ganlyniad i hinsawdd sy'n newid yn parhau i beri heriau ar gyfer llywodraeth, y sector cyhoeddus ehangach a chontractwyr.

Mae eich adroddiad yn cydnabod y bydd cyllid llifogydd ac erydu arfordirol gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu 48.7% yn nhermau real rhwng 2021–22 a 2024–5, a bod llywodraethau lleol wedi derbyn y lefelau uchaf o gyllid erioed dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi cymaint o sicrwydd ag y bo modd ynghylch cynlluniau gwario a setliadau aml-flwyddyn. Fodd bynnag, gall pwysau cyllideb ehangach olygu bod gwneud ymrwymiadau o'r fath yn heriol.

Bydd dadansoddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o'r gofynion buddsoddi tymor hir yn rhoi rhagor o eglurder inni, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno'r achos dros gynlluniau gwario aml-flwyddyn. Mae CNC wedi rhannu eu hasesiad cychwynnol â



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

swyddogion Cangen Llifogydd Llywodraeth Cymru. Rydym bellach wrthi'n ystyried asesiad CNC, ac mae rhagor o drafodaethau wedi'u cynllunio ar gyfer mis Ebrill. Mae adroddiad Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru ar adnoddau wedi tynnu sylw at nifer o heriau o ran cyflawni, gan gynnwys capasiti yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a chyfyngiadau o ran gallu, sydd eisoes wedi dechrau effeithio ar ganlyniadau. Rydym wedi ymrwymo i weithredu ar ganfyddiadau'r adroddiadau hyn, a bydd fy swyddogion yn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Fel y bwrdd traws-sector ac arbenigol sy'n gyfrifol am gyflawni ein rhaglenni llifogydd cyfalaf, eu haelodau yw'r bobl orau i lywio penderfyniadau Gweinidogion ynghylch y ffordd ymlaen.

Nodaf eich sylwadau ynghylch y bylchau o ran arweinyddiaeth gyfunol ym maes FCERM. Gellir cysylltu'r bylchau hyn â'r problemau staffio a nodwyd yn eich adroddiad. Mae rheoli perygl llifogydd yn arbenigedd peirianneg sy'n gallu arwain at heriau recriwtio. Mae natur arbenigol y gwaith yn gallu golygu hefyd, mewn rhai achosion, nad yw'r ymdrech i gydgysylltu'r gwaith â phortffolios a rhaglenni buddsoddi eraill mor effeithiol ag y gallai fod. Mae'r Gangen Llifogydd eisoes wedi cychwyn trafodaethau ag CNC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â'r heriau hyn, gyda'r nod terfynol o gynyddu cymaint ag y bo modd y manteision trawsbynciol y gellir eu sicrhau drwy leihau'r perygl o lifogydd ar gyfer yr amgylchedd, y gymuned a'r economi.

Rydym yn annog ceisio cyllid partneriaeth drwy ein Strategaeth Genedlaethol a'n Canllawiau Achos Busnes FCERM, a gwelwyd rhai storïau o lwyddiant yn ddiweddar. Mae Cangen Llifogydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes amaeth i integreiddio rheoli llifogydd yn naturiol i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Y nod yw rhoi cymhellion i berchnogion tir i'w hannog i ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, er mwyn sicrhau amrediad o fanteision fel gwella'r ffordd mae perygl llifogydd yn cael ei reoli a gwella ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Rwy'n cydnabod bod bodloni'r gofynion mewn perthynas â seilwaith mwy drwy gyllid partneriaeth yn parhau i fod yn heriol i Awdurdodau Rheoli Risg. Bydd fy nghydweithwyr yn rhannu'r pryderon hyn â CLlLC a Phwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru.

O ran cyhoeddi data ar reoli perygl llifogydd, gwnaethom weithio'n agos gydag CNC i gynhyrchu Map Llifogydd Cymru, sy'n cynnwys Asesiad Perygl Llifogydd Cymru a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Roedd y map yn ymgymeriad sylweddol ond, fel yr adlewyrchir gan y mesurau amryfal yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, nid ydym yn ystyried bod y darn hwn wedi'i gwblhau. Yn ein barn ni mae Map Llifogydd Cymru yn darn o waith parhaus, ac rydym yn disgwyl iddo gael ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu risgiau wrth iddynt newid. Mae hyn yn golygu diweddaru'r map i adlewyrchu'r risg gynyddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, wrth hefyd adlewyrchu'r risg is i gymunedau o ganlyniad i'n buddsoddi parhaus. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag CNC i wneud hyn.

I'r diben hwnnw, rydym yn gweithio gydag CLlLC, CNC ac awdurdodau lleol i ddatblygu cronfa ddata asedau cenedlaethol, ac i ryddhau'r gronfa hon ar blatfform cyhoeddus. Ein huchelgais yw y bydd y gronfa ddata asedau'n dangos cyflwr yr holl asedau rheoli perygl llifogydd yng Nghymru sydd o dan reolaeth Awdurdodau Rheoli Risg, a phwy sy'n berchen arnynt, a'r manteision maent yn eu darparu wrth leihau'r perygl o lifogydd. Mae eich adroddiad yn cydnabod bod y gwaith hwn yn barhaus, a hoffwn i roi sicrwydd ichi fod y gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i CNC.

Rydym hefyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i atal risgiau y gellir eu hosgoi drwy sicrhau nad yw gwaith datblygu ac ailddatblygu'n cael ei gynnal mewn ardaloedd sydd o dan y

perygl o lifogydd.  Mae Gweinidogion Cymru am ddefnyddio'r system gynllunio er mwyn lleihau'r risg o lifogydd y mae pobl yn eu hwynebu yn eu cartrefi a lle maent yn gweithio – a'r risg i'n seilwaith allweddol. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ynghylch newidiadau i TAN 15 sydd, wrth geisio sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiadau niweidiol yn cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd lle mae'r risg ar ei huchaf, yn caniatáu adfywio ac ailddatblygu priodol Mae eich adroddiad hefyd yn codi pryderon ynghylch y diffyg data diweddar mewn perthynas â chaniatadau cynllunio mewn ardaloedd risg uchel. Gan edrych tua’r dyfodol, bydd angen inni ystyried a oes angen proses ddiwygiedig o ystyried bod y cyd-destun polisi yn newid, gan gynnwys y canllawiau cynllunio sydd yn yr arfaeth a’r diffiniadau newydd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Hoffwn i orffen drwy ailadrodd ein hymrwymiad i leihau'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i darged uchelgeisiol i ddarparu amddiffyniad gwell ar gyfer dros 45,000 o adeiladau, i reoli llifogydd gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch afon mawr, i ehangu cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd ac i wella'r ffordd rydym yn defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau).

Fel rhan o’r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd a Siân Gwenllïan AS wahodd yr Athro Elwen Evans CB i adolygu Adroddiadau Archwilio Llifogydd Adran 19 gan lywodraethau lleol, ac adroddiad CNC ei hun ar y llifogydd eithafol yn 2020 a 2021. Mae'r adroddiad yn mynd rhagddo, ac mae'n ceisio nodi meysydd i'w gwell, arferion da, llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd. Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru hefyd yn asesu sut y gallwn leihau llifogydd sy'n effeithio ar gartrefi, busnesau a seilwaith erbyn 2050. Disgwylir i adroddiad y Comisiwn Seilwaith fod wedi'i gwblhau yn 2024.

Gwnaeth y stormydd a'r llifogydd ein hatgoffa, mewn ffordd gostus, fod llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod effeithiau dinistriol y llifogydd yn 2020, a'r effeithiau ar gymunedau a busnesau wedi hynny, a gwnaeth Gweinidogion ymateb yn gyflym a darparu cryn gyllid i gefnogi'r broses adfer. Hyd yn hyn mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith llifogydd wedi helpu i leihau perygl ac effeithiau llifogydd yn sylweddol. Rydym yn amcangyfrif bod amddiffynfeydd CNC ar brif afonydd wedi lleihau'r perygl o lifogydd i tua 73,000 o adeiladau, a gwnaeth amddiffynfeydd ar hyd Afon Taf ddiogelu dros 880 o adeiladau rhag llifogydd yn ystod Storm Dennis.

Mae llawer o waith i'w wneud o hyd, mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i leihau'r risg i'n cymunedau a chyflawni yn erbyn y mesurau wedi'u hamlinellu yn ein Strategaeth Genedlaethol.

Yn unol â’r arferion gorau, rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gywir



**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

# Eitem 2.2

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Chwefror 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023**

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch e-bost, dyddiedig 6 Chwefror, yn amlinellu fy ymateb i'r camau dilynol a'r cwestiynau na wnaethom eu cyrraedd yn ystod y cyfarfod. Gweler isod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

***Crynodeb mewn perthynas â'r dull gweithredu o ran cyflogau yn Llywodraeth Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn gweithredu dwy system dâl, y naill ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) a'r llall ar gyfer staff islaw'r SCS. Mae rheolaeth gyffredinol dros dâl SCS yn cael ei gadw gan Swyddfa'r Cabinet ond mae'r cyfrifoldeb am dâl islaw'r SCS yn cael ei ddirprwyo i Lywodraeth Cymru.

Graddau **cydweithwyr SCS** yw Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol. Mae amrediadau cyflog eang ar gyfer pob gradd, a bennir gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r mwyafrif o gydweithwyr SCS yn Llywodraeth Cymru yn cael cyflogau tua phen isaf yr amrediadau cyflog hyn. Nodir yr amrediadau cyflog presennol yn **Atodiad A**.

Mae trefniadau ar wahân a phenodol ar waith ar gyfer tâl yr Ysgrifennydd Parhaol. Yn wahanol i adrannau Llywodraeth y DU nid oes tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad i gydweithwyr SCS yn Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn cynnig taliadau bonws yn ystod y flwyddyn neu ddiwedd y flwyddyn na chynllun cydnabyddiaeth gorfforaethol o unrhyw fath.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae **cydweithwyr islaw'r SCS** ar raddau Cymorth Tîm, Swyddog Gweithredol, Swyddog Gweithredol Uwch, Uwch-swyddog Gweithredol, Gradd 7 a Gradd 6. Mae tâl cynyddrannol ar waith ym mhob un o'r graddau hyn. Yn gyffredinol, mae'r staff yn dechrau ar waelod y band cyflog ac yn symud ymlaen o'r gyfradd isaf i'r gyfradd uchaf ar gyfer eu gradd mewn cynyddrannau blynyddol sy'n amodol ar berfformiad boddhaol. Bydd pob cydweithiwr yn cyrraedd y gyfradd dâl uchaf ar gyfer eu gradd o fewn dwy neu dair blynedd yn dibynnu ar y radd. Nodir y cyfraddau cyfredol (2022-23) ar gyfer pob gradd yn **Atodiad A.**

Mae tâl islaw SCS yn cael ei negodi (yn flynyddol fel arfer) gyda chydweithwyr o'n tri undeb llafur cydnabyddedig - FDA, PCS a Prospect. Mae dyfarniadau y cytunir arnynt drwy negodi tâl yn gymwys yn yr un modd i bob cydweithiwr ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru, ni waeth a yw'n aelod o undeb neu beidio. Mae gennym nifer bach o gydweithwyr sydd wedi cadw telerau ac amodau cyn gyflogwyr ar ôl trosglwyddo i'n sefydliad. Nid yw dyfarniadau tâl Llywodraeth Cymru yn gymwys iddynt oni bai eu bod yn dewis symud drosodd i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn negodi tâl ar gyfer SCS. Yn hytrach rydym yn gwneud dyfarniadau tâl o fewn y ffiniau a nodir yn flynyddol gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n golygu bod gan staff SCS yn aml ddyfarniad tâl gwahanol i gydweithwyr islaw'r SCS.

Mae ein Datganiad ar Bolisïau Tâl yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer system dâl Llywodraeth Cymru:

- Bydd y system dâl yn fforddiadwy ac yn cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr.
- Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau cyflog cyfartal i weithwyr a bydd camau’n cael eu cymryd i ymdrin â bylchau cyflog rhwng y rhywiau.
- Bydd trefniadau tâl yn agored, yn dryloyw ac yn syml. Ceir gwared ag unrhyw gymhlethdod diangen.
- Bydd datblygiad cyflog syml gyda graddfeydd tâl cynyddrannol yn galluogi gweithwyr i gyrraedd cyfradd tâl eu rôl yn gyflym.
- Bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol (fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw) yn sail i gyfraddau cyflog a byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

Mae'n bwysig bod **swyddi'n cael eu graddio'n briodol** i sicrhau tâl cyfartal ar gyfer gwaith gwerth cyfartal a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau. Mae holl swyddi a strwythurau Llywodraeth Cymru yn cael eu modelu yn erbyn set safonol o ddisgwyliadau fel y'u nodir gan y Gwasanaeth Sifil gyda methodoleg gadarn ar gyfer Gwerthuso Swyddi.

Mae gwaith Gwerthuso Swyddi ar gyfer holl swyddi Llywodraeth Cymru (hyd at a chan gynnwys SCS3/Cyfarwyddwr Cyffredinol) yn cael ei wneud yn ganolog gan yr Uned Cynllunio Sefydliadol, Adolygu Strwythurol a Gwerthuso Swyddi.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae'r Uned yn cynnwys tîm bach o Ymarferwyr Gwerthuso Swyddi sydd wedi'u hyfforddi a'u profi, gyda'r cyfrifoldeb am ddarparu sicrwydd a her briodol ar ddylunio strwythurau sefydliadol a gradd-gymysgedd. Gwneir gwaith Gwerthuso Swyddi yn ganolog i sicrhau pwysoliad cyson a theg yn achos swyddi gan ganolbwyntio ar egwyddorion gwerth am arian a 'tâl cyfartal am waith gwerth cyfartal'.

Yn SCS, arweinir y gwaith o greu a dylunio rolau gan Lywodraeth Cymru gydag ymgysylltu a chraffu gan Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Sifil fel y bo'n briodol. Rydym yn gweithredu proses Gwerthuso Swyddi ffurfiol (Gwerthuso Swyddi Uwch - JESP) sef y fethodoleg gyffredin a gymhwysir ar draws y gwasanaeth sifil – mae hyn yn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws ein SCS a'r Gwasanaeth Sifil ehangach.

Islaw SCS, rydym yn defnyddio proses ffurfiol ar gyfer Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi (JEGS). System/methodoleg ddadansoddol yw JEGS, sy'n seiliedig ar bwyntiau sy'n torri swyddi i lawr yn gydrannau/ffactorau adnabyddadwy ac yn eu mesur yn erbyn set o feini prawf cyffredin. Fe'i datblygwyd i gydnabod gwerth craidd rolau'r Gwasanaeth Sifil a disgwyliadau graddio islaw SCS.

***Rhai enghreifftiau o'r meini prawf a ddefnyddir wrth sefydlu cyrff allanol.***

Ar brydiau, mae'n briodol i Lywodraeth Cymru sefydlu corff hyd braich newydd i gyflawni swyddogaethau ar ei rhan, ond dim ond ar ôl i bob dewis arall arall gael ei archwilio'n drylwyr. Defnyddir y meini prawf canlynol wrth ystyried hyn:

- A yw hon yn swyddogaeth dechnegol y mae angen arbenigedd allanol i'w chyflawni?
- A yw hon yn swyddogaeth y mae angen iddi gael ei chyflawni, a chael ei gweld yn cael ei chyflawni, gyda didueddrwydd gwleidyddol llwyr?
- A yw hon yn swyddogaeth y mae angen ei chyflawni'n annibynnol ar y Gweinidogion i sefydlu ffeithiau a/neu ffigurau ag uniondeb?
- A gafwyd sêl bendith y Prif Swyddog Cyfrifyddu/y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidogion?
- A oes cyngor wedi cael ei ofyn oddi wrth y timau perthnasol yn Llywodraeth Cymru?

Os penderfynir sefydlu corff hyd braich newydd, ar ôl ystyried yr holl feini prawf perthnasol, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu trefniadau cadarn i reoli’r rhaglen, gan gynnwys datblygu Llythyr Cylch Gwaith a Dogfen Fframwaith, sy’n nodi'r hyn y mae'r corff yn ceisio’i gyflawni a sut bydd y berthynas rhwng y corff a Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r Tîm Partneriaeth perthnasol yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb ffurfiol am sefydlu'r corff newydd, gan weithio gyda’r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, a’r timau Cyllid Canolog, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Digidol ac Archwilio Mewnol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

***A fydd gan grwpiau'r ymreolaeth bellach i recriwtio'n allanol, ac a fydd yn dod yn haws i broffesiynau recriwtio'n allanol ar gyfer swyddi arbenigol?***

Mae hyn yn rhan greiddiol o'r gwaith i roi Fframwaith Dirprwyaethau ac Atebolrwydd y Gweithlu ar waith. Un o'm blaenoriaethau wrth ymgymryd â'r rôl hon oedd ail-bwyso a mesur ein hymagwedd at benderfyniadau'r gweithlu a rhoi'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb yn ôl i uwch arweinwyr. Bydd angen inni fynd ati mewn ffordd reoledig a graddol i sicrhau ein bod yn gwneud dewisiadau ar y cyd sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol ac sy'n fforddiadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Gall grwpiau wneud penderfyniadau am adlinio'r gweithlu a recriwtio allanol yn awr , gyda goruchwyliaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys Penaethiaid Proffesiwn sy'n denu'r rhai â'r arbenigedd proffesiynol gofynnol trwy allu recriwtio'n uniongyrchol i'r farchnad allanol - mae hyn wedi parhau ar gyfer swyddogaethau statudol megis CAFCASS, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru lle mae mynediad at weithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn hollbwysig.

Drwy gydol y pandemig, pan fu rheolaethau llymach ar waith, rydym wedi parhau i recriwtio'n allanol ar gyfer swyddi arbenigol - roedd hyn yn rhan hanfodol o'n strategaeth adnoddau ar gyfer ymateb i'r pandemig i ddod â'r arbenigedd penodol y mae ei angen i mewn. Gwnaed penderfyniadau ynghylch ble i flaenoriaethu recriwtio allanol ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Mae gan ein proffesiynau a'n meysydd arbenigol hyblygrwydd hefyd i fabwysiadu fframwaith recriwtio ac adnoddau sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn, lle bo'n fforddiadwy, i recriwtio'n allanol drwy'r llwybr mwyaf priodol – mae gan rai ymarferion recriwtio allanol blynyddol er enghraifft.

Mae ein tîm Adnoddau Dynol yn parhau i roi cyngor ac arweiniad ar sut i fynd ati o ran methodoleg asesu a chreu hysbysebion i ddenu pwll amrywiol o ymgeiswyr medrus yn well. Disgwylir hefyd i waith archwilio a gwelliannau sy'n ymwneud ag allgymorth, marchnata a brandio cyflogwyr gefnogi recriwtio llwyddiannus drwy nodi a denu ymgeiswyr â'r sgiliau cywir yn well. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu rhai proffesiynau wrth ddenu a chadw ymgeiswyr profiadol priodol. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda rheolwyr a phroffesiynau recriwtio i edrych ar y pecyn cyfan o ddenu ymgeiswyr yn ogystal â'r elfennau logistaidd i liniaru rhwystrau posibl a chyrraedd pyllau ehangach o ymgeiswyr.

***Gwella ein systemau Adnoddau Dynol***

Hoffwn achub y cyfle hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i aelodau'r pwyllgor ynghylch yr ***oedi cyn rhoi Systemau Adnoddau Dynol ar waith;*** codwyd hyn yn ystod y cyfarfod.

Y bwriad ar hyn o bryd yw lansio'r systemau Adnoddau Dynol newydd ar ddechrau'r haf. Mae gan brosiectau uwchraddio systemau AD gynlluniau manwl sy'n cael eu hadolygu'n

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

rheolaidd. Mae'r holl ddyddiadau cyflwyno a rannwyd ag Archwilio Cymru o'r blaen ac yn fwy diweddar â PAPAC, yn dal yn ddangosol eu natur ac yn cynnig amcangyfrif gorau yn seiliedig ar y manylion a ddelid bryd hynny. Wrth inni roi'r systemau newydd ar waith, rydym yn parhau i ddefnyddio ein systemau presennol ar gyfer parhad gwasanaeth. Mae sawl ffactor yn effeithio ar gynllunio cywir. Mae oedi wedi digwydd oherwydd adnoddau a darparu gwaith hanfodol yn ystod y pandemig, sydd wedi effeithio ar weithgareddau â blaenoriaeth ar draws Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd prosiectau uwchraddio ar y cyfle cyntaf pan oedd modd sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd priodol ar gael; ond mae gwaith yn dal yn destun blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae newidiadau i'r system hefyd yn gymhleth ac yn amlweddog sy'n gorfod cyd-fynd â newidiadau polisi sy'n dod i'r amlwg. Wrth i brosiectau uwchraddio gyflwyno technolegau newydd, sy'n galw am drosglwyddo gwybodaeth ac uwchsgilio helaeth a hirfaith, mae angen gweithredu mewn ffordd ddiogel.

Rwyf yn gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddigonol ar gyfer yr hyn y mae arnoch ei angen, ond mae croeso ichi roi gwybod imi os bydd arnoch angen unrhyw beth ychwanegol.

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

## Atodiad A

### Amrediadau Cyflog SCS

| Gradd | Isafbwynt | Uchafbwynt |
|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr (SCS 1) | £73,000 | £117,800 |
| Cyfarwyddwr (SCS 2) | £95,000 | £162,500 |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol (SCS 3) | £125,000 | £208,100 |

### Islaw Amrediadau Cyflog SCS

| Gradd | Pwyntiau graddfa |
|---|---|
| Cymorth Tîm pwynt 1 | £22,150 |
| Cymorth Tîm pwynt 2 | £23,880 |
| Cymorth Tîm pwynt 3 | £25,620 |
| EO pwynt 1 | £26,900 |
| EO pwynt 2 | £27,890 |
| EO pwynt 3 | £30,610 |
| HEO pwynt 1 | £32,460 |
| HEO pwynt 2 | £34,520 |
| HEO pwynt 3 | £36,590 |
| HEO pwynt 4 | £39,690 |
| SEO pwynt 1 | £41,700 |
| SEO pwynt 2 | £43,660 |
| SEO pwynt 3 | £45,970 |
| SEO pwynt 4 | £49,370 |
| Gradd 7 pwynt 1 | £53,440 |
| Gradd 7 pwynt 2 | £56,450 |
| Gradd 7 pwynt 3 | £59,480 |
| Gradd 7 pwynt 4 | £63,900 |
| Gradd 6 pwynt 1 | £67,100 |
| Gradd 6 pwynt 2 | £69,580 |
| Gradd 6 pwynt 3 | £71,800 |
| Gradd 6 pwynt 4 | £76,990 |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

The Commissioner for Public Appointments

**William Shawcross CVO**
**Commissioner for Public Appointments**
G/07, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ
*Telephone* 020 7271 6729 / 020 7271 0815
*E-Mail* publicappointments@csc.gov.uk

Mark Isherwood MS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Chair, Public Accounts and Public Administration Committee

24 February 2023

*By email: SeneddPAPA@senedd.wales*

Dear Chair,

Thank you for your invitation to speak to your Committee in December, as you begin your inquiry into public appointments in Wales. I was only sorry that I was not able to attend in person. I hope my evidence will be useful for your Committee as it embarks on scrutiny of this important area of public governance.

You asked me for details on the data OCPA publishes on the previous employment of appointees and reappointees over time. I have reproduced the data on this below from OCPA's Annual Reports:

Appointments and reappointments to those declaring a 'mostly private sector' employment background, Welsh Government appointments only, not including 'prefer not to say'[1]

| Year | Appointees | Appointees % | Reappointees | Reappointees % | combined |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021-22 | 6 | 11.8% | 1 | 10.0% | 11.5% |
| 2020-21 | 6 | 23.1% | 3 | 9.4% | 15.5% |
| 2019-20 | 10 | 18.9% | 3 | 33.3% | 21% |

The data above does show a decline in the proportion of appointees and reappointees declaring their previous employment background as mostly in the private sector over the last three years. However, the data also is based on a very small number of declarations, and so the proportions fluctuate significantly, as seen in the table above, even when the raw number of individuals is the


[1] Compiled from OCPA Annual reports 2021-22 (Table 74), 2020-21 (Table 74), 2019-20 (Table 71). Data is not held for earlier years.

same. OCPA will continue to report on this metric, and encourage the Welsh Government to support more appointees and reappointees to declare their previous employment status.

I have also now completed my investigation into a complaint made to the Welsh Government about two reappointments made in early 2021. I have also enclosed  that decision notice, which is published on my website, to this letter.

I would be happy to share any further information with you if your Committee has further questions as you continue your Inquiry.

Best wishes,



**William Shawcross**
**Commissioner for Public Appointments**

The Commissioner for Public Appointments

**February 2023**

**Investigation of the Welsh Government Ministerial reappointment process for Public Body X.**

**Executive summary**

1. This report sets out the findings of an investigation by the Commissioner for Public Appointments ('the Commissioner') into a complaint made regarding two reappointments made by the Welsh Government to the board of an Arm's Length Body (ALB). The basis of the Commissioner's investigative powers and methodology is set out in the Annex.

2. This complaint was brought to the Commissioner by the Chair of the board of Public Body X in February 2022 who is concerned about the Board reappointment decision making process. The investigation examined the ministerial decision making process for reappointments in relation to the government's Governance Code on Public Appointments (the Governance Code).[1]

3. The Commissioner respects the right of complainants to maintain their anonymity and therefore has not named the body nor the complainant in this notice. From hereon, this Decision Notice will refer to 'Public Body X' as the body to which this complaint relates.

4. The Office for the Commissioner for Public Appointments (OCPA) informed the complainant in writing on 23 February 2022 that parts of the complaint were deemed to be within scope of the Commissioner's remit. These were:

   a. the reappointments made were within the Governance Code's provisions for reappointment on the basis of merit and a performance appraisal;

   b. the declarable political activity of the reappointees had not been published by the Welsh Government; and

   c. the Welsh Government did not publish the reappointments.

5. The findings and conclusions of this investigation are based on the examination of official records, correspondence between Welsh Government officials and the complainant; and other relevant information held by both the complainant and the Welsh Government.

6. In summary, the Commissioner's investigation found:

   a. the opinions of the Chair of the board of Public Body X and ministers diverged on the merit of members under consideration for reappointment. At the time the reappointments were processed, the body did not have an established performance appraisal process; an interim process was put in

[1] Cabinet Office (2016) *Governance Code on Public Appointments*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

place which the Chair was invited to use to assess the members of the Board. This assessment and other material regarding the performance of Board members was provided to ministers who made the decision to reappoint on the basis of this evidence.

b. there was a lack of transparency by the Welsh Government in regard to these reappointments, which were made by ministers but were not publicly announced. The reason given by the Welsh Government for not publishing is that there were resource constraints. The Welsh Government stated that having decided not to use its limited resources to send reappointment letters, the administrative procedures that normally follow to comply with the transparency provisions in the Code were not discharged.

7. The Commissioner has partly upheld an aspect of the complaint as set out below:

   a. the Governance Code places the responsibility on ministers to determine merit and decide on who to appoint (Paragraph 5.5 and Principle A: Ministerial Responsibility). The Commissioner finds there is no breach in this respect and does not uphold the part of this complaint to which this relates;
   b. there was a failure to publish details of the significant political activity for one of the reappointees. The Commissioner finds this was a breach of paragraph 9.2 of the Code and upholds this part of the complaint; and
   c. there was a failure to publicly announce the two reappointments. The Commissioner finds this is a breach of the Principle of Openness and Paragraph 8.1 of the Code and upholds this part of the complaint.

8. The Commissioner sets out the following remedial measures:

   a. the Welsh Government to apologise to the complainant in writing for not addressing their concerns regarding the breaches as set out above in paragraphs 7 (b) and (c); and
   b. the Welsh Government to share the key lessons learned from this case across its ALBs, including the importance of robust performance appraisals for Board members and the requirement to ensure a robust ALB governance model.

**Findings and consideration**

*Appointment on merit*

9. Paragraph 5.4 of the Governance Code places the responsibility on ministers to consider each reappointment case ‘on its own merits’. There is ‘no automatic presumption of reappointment’ and ministers must consider ‘a number of factors including, but not restricted to, the diversity of the current board and its balance of skills and experience’.

10. The Governance Code sets out the basis of reappointment on merit at Paragraphs 3.1 and 3.5:

    (a) Para 3.1, bullet 1: 'Ministers must be consulted before a competition opens to agree the job description for the role, the length of tenure and remuneration. Advice to Ministers must include information on the make-up and diversity of the current board. Any requests to Ministers for reappointments must also include this information and must be submitted early into planning processes. Reappointments should only be made on merit.'

    (b) Para 3.5: 'Ministers may reappoint or extend the terms of public appointees or statutory office holders subject to:

    - any such reappointment or extension being made in accordance with the law relating to the particular public body or statutory office; and
    - no reappointment or extension being made without a satisfactory performance appraisal, evidence of which must be made available to the Commissioner on request.'

11. Principle A alongside Paragraph 5.5 of the Governance Code firmly establishes that ministers are responsible for the final decision on appointments and that they base the determination on merit:

    Principle A: Ministerial responsibility: 'The ultimate responsibility for appointments and thus the selection of those appointed rests with Ministers who are accountable to Parliament for their decisions and actions. Welsh Ministers are accountable to the National Assembly for Wales.'

    Para 5.5: '...It is then for Ministers to determine merit and make the final appointment.'

12. The evidence provided to OCPA shows that the first terms for two Board members lapsed 31 August 2021 and was formally raised within the Welsh Government in May 2021. The terms lapsed prior to the formal reappointment process commencing, leaving the status of the members unclear.

13. Subsequently, the Chair and Welsh Government officials corresponded at length regarding appraisals for both of these Board members. At the time, a formal appraisal process was not established for Board members of Public Body X. The Governance Code does not state who should appraise the performance of a member of a public body, only that an appraisal must be carried out before a reappointment is made. The

Code of Conduct for Board Members[2] published by the Cabinet Office also does not specify who should carry out appraisals.

14. The Chair's view is that contracts for board members specified that performance is assessed by the Chair. Welsh Government Officials agreed that the Chair conducts performance appraisals but that ministers would be provided with additional information to inform a final assessment to reappoint, and would also consider data for attendance at board meetings and views from stakeholders. Officials described this process as providing a 'more rounded consideration of members' performance'. The Chair disagreed, noting it potentially undermined his/her responsibility for the body's conduct and functions.

15. In the absence of an agreed process, the Chair and officials worked together to design an interim process to appraise performance. All members of the board were informed about this appraisal process in an email sent jointly from the Chair and the Welsh Government.

16. The Chair subsequently undertook an assessment of the performance of the Board members. This was incorporated into advice submitted to ministers in relation to the reappointments.

17. The advice noted that before the current Chair was appointed, the board had operated for 18 months without a chair. Under the previous chair, 'the Board has not had a formal performance assessment process in place, with the previous Chair conducting ad hoc conversations instead.' Further, there were no agreed objectives for Board members. The advice also stated that as the pandemic prevented in person board meetings taking place, 'the Chair was not able to meet the other Board members face to face and [sic], with all meetings and interactions taking place virtually. The Chair was afforded only very limited opportunity to get to know members and observe their performance'.

18. Officials supplemented the material from the Chair's appraisal with information about attendance and Board member contributions at meetings, the members' self-assessments and the fulfilment of contractual obligations in their respective roles. Advice from officials to ministers stressed that 'in the absence of agreed objectives against which to measure performance, or of consistent, documented performance discussions between Chair and Board members, it is difficult to arrive at an assessment which could be termed objective.' In later evidence supplied to the Commissioner, the Welsh Government noted that 'as Board Members did not have agreed performance objectives, [the assessment by the Chair] could not be considered to constitute a formal

[2] Welsh Government have confirmed the Code of Conduct applies to board members in Welsh Government ALBs. Cabinet Office (2019). *Code of conduct for board members of public bodies*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/809093/Code-of-Conduct-for-Board-Members-of-Public-Bodies-2019-WEB.PDF

assessment of performance, but it did offer an opportunity for members and the Chair to reflect on successes, as well as areas for development.'

19. There was a tension between the Chair and officials as they differed in their expectations about their respective roles vis a vis reappointment decisions. What followed was an interim system designed to inform the impending reappointment decisions. The complainant disagreed with the 'more rounded' approach and maintains that the reappointments were not made on merit.

20. The Commissioner recognises the challenges faced by the Chair and the board as a consequence of ways of working during the pandemic. However, the absence of a formal robust performance appraisal system exacerbated the challenges. It is not acceptable for public body boards to operate without setting objectives for its Board members and without a formal performance appraisal system. The Commissioner acknowledges that officials, once this gap was identified, designed an interim appraisal process and used supplementary evidence alongside the Chair's assessment to advise ministers, thereby fulfilling the requirements of the Governance Code.

21. The Governance Code sets out at Principle A and Paragraph 5.5 that ministers base the decision to reappoint on merit. Further, in Paragraph 5.4 of the Governance Code, ministers must consider 'a number of factors including, but not restricted to, the diversity of the current board and its balance of skills and experience'. It does not stipulate that the Chair's assessment of performance is the *only* information considered for a reappointment decision made by ministers. **The Commissioner therefore does not uphold this part of the complaint in relation to reappointment on merit.**

*Publication of the significant political activity of the reappointed members*

22. The complainant raised concerns with OCPA that the political activities of the reappointed members have not been published. The Commissioner considered Paragraph 9.2 of the Code which sets out the requirements to publish any significant political activity by appointees:

> Para 9.2 'Political activity should not affect any judgement of merit nor be a bar to appointment or being a member of an Advisory Assessment Panel, with the exception of Senior Independent Panel Members. It should be publicly disclosed however if a panel member, or a successful candidate, has, in the last five years, been employed by a political party, held a significant office in a party, has stood as a candidate for a party in an election, has publicly spoken on behalf of a political party, or has made significant donations or loans to a party.'

23. The Commissioner has not been provided with evidence that any public announcement of these reappointments has been made. The Commissioner notes that one of the reappointed members has undertaken significant political activity within the last five years which meets the definition in Paragraph 9.2 of the Code, but this was not publicly

disclosed at the point of reappointment. At the time of this investigation, the listing for Public Body X board members includes the names of the reappointees only.[3]

24. This same Board member declared political activity when appointed for their first term in 2018, which was published at the time the appointment was announced in accordance with Paragraph 9.2. At the time of writing, no further announcements since 2018 have been made about Board members. The Commissioner considers making a public announcement for all appointees to public bodies to be a basic administrative requirement. For an appointment to a second term, there must be a 'fresh' public disclosure of the member's significant political activity.

25. **The Commissioner finds a failure to publish the significant political activity of the reappointee is a breach of Paragraph 9.2 of the Governance Code and upholds this part of the complaint**.

*Publication and openness*

26. The Governance Code's Principle E: Openness, states that 'processes for making public appointments should be open and transparent'.

27. Para 8.1 states:

> 'Transparency is an important part of public appointments which departments should factor into the design and planning of their systems and processes. Publically [sic] available information on public appointments processes helps to provide assurance that Ministers and departments have complied with the Public Appointments Principles and this Governance Code.'

28. The complainant maintained that there was no public announcement of the reappointments. The reasons subsequently given to the Commissioner by the Welsh Government during the course of this investigation, to explain why the announcements were not made, were not communicated to the complainant in the initial response to the complaint. This element of his/her complaint was not addressed by the Welsh Government in its response to the complaint.

29. It was not clear to the Commissioner as he began this investigation as to what decision ministers had made regarding the two members. The Welsh Government provided further information about the ministerial decision making process to the Commissioner during his investigation to establish the status of the reappointments.

30. The Welsh Government confirmed that ministers decided to make the two reappointments in November 2021. At the time, officials were asked to draft a Decision Report ready for publication in due course.[4] The Chair was informed of this decision

[3] As of August 2022.
[4] Decision reports are short summaries of Welsh Government ministers' decisions published online.

shortly afterwards. At the time of writing this notice, no Decision Report on this matter had been published[5] and no announcement has been made.

31. **The Commissioner therefore finds the Welsh Government to have breached Paragraph 8.1 and the Principle of Openness, and upholds this part of the complaint**. He notes the Welsh Government gave a confusing account of the status of the reappointments during the course of his investigation. Welsh Government confirmed that the administrative processes in relation to the reappointments and the requirements of the Code were well understood, but an active decision was taken not to follow them.

32. The Commissioner understands that the Welsh Government's decision not to publish details for the reappointments was a known and predictable consequence of deciding not to issue appointment letters. The Welsh Government informed him that publication of the appointments and any political activity in relation to individual Board members would be 'triggered' by the receipt of signed reappointment letters and associated documentation from the successful reappointees. This decision not to issue reappointment letters to the Board members was due to resource constraints and plans to review Public Body X. Further, a separate decision was made to not undertake the usual conflicts of interest or due diligence checks in advance of the reappointments, due again to resource constraints. Further, it was assumed that a risk-based approach to determine conflicts would continue to be considered by the Board of Public Body X through its business as usual processes.

33. The Welsh Government considered this was a 'low risk' approach. The Commissioner disagrees, as the decision to not issue reappointment letters prevented the publication of the reappointments, and the publication of the significant political activity declared by one of the members. The failure to undertake these subsequent administrative steps are, in his view, clear breaches of the Governance Code. The Commissioner is concerned that the transparency aspects of the Governance Code were wilfully disregarded by the Welsh Government, with no action taken to avoid breaching the Code. This indicates a significant governance oversight issue within the Welsh Government's understanding of its obligations and its approach to risk and appropriate mitigations in a regulated environment.

34. Further, the Commissioner considers the opacity around these reappointments contributed to the Welsh Government failing to address the complainant's concerns in relation to transparency when responding to the original complaint in February 2022. In all likelihood, this is what led to the confusing information about the status of the reappointments and what happened during the process to reappoint being provided to the Commissioner during the course of this investigation. The Commissioner is particularly disappointed that the Welsh Government knew that not taking certain administrative steps would lead to breaching the Code, but failed to address this when responding to the complaint about its failure to publish the reappointments. If standard

[5] Welsh Government (2021). *Decision Reports 2021- 6th Government.* https://gov.wales/decision-reports-2021-6th-government. Accessed 25 August 2022.

governance processes had been followed - a established appraisal system in place, advice to ministers on the usual matters to inform their decision, reappointment letters sent and a public announcement issued - the status of the reappointments would more than likely have met the transparency requirements as set out in the Governance Code and a complaint may have been avoided.

35. Since 2017, the Code has required transparency by appointing departments in relation to the public appointments and reappointments process. This complaint has highlighted the need for the Welsh Government to ensure appointments from competitions, those from reappointments and exceptional provisions in the Code are publicised promptly. There are various options currently being used for public bodies of the Welsh Government which are proving to be effective - whether via ministerial Decision Reports, news releases or the information pages for each public body. The Commissioner welcomes the Welsh Government's new approach, as of 28 November 2022, to publish all appointment decisions on an announcements page[6] as a minimum standard. Standardising publication processes will help the Welsh Government support the culture of openness.'.

**Recommendations**

36. The Welsh Government must apologise in writing within ten working days of publication of this Decision Notice to the complainant for the lack of transparency in relation to the decision to reappoint two Board members to Public Body X and for its poor handling of this complaint.

37. The Commissioner recommends that the Welsh Government consider the lessons learned as set out (but not limited to) in this Decision Notice. There are lessons in this case that all Arm's Length Bodies (ALBs) will benefit including ensuring robust formal appraisal systems are in place for all appointees to Welsh Government ALB Boards. He urges all parties to consider how to build robust governance and constructive working relationships with each other and mitigate the risk of this case reoccurring.

## ANNEX

1. The Public Appointments Order in Council (OIC) November 2019 states that the Commissioner for Public Appointments 'may conduct an enquiry into the procedures and practices followed by an appointing authority in relation to any public appointment whether in response to a complaint or otherwise'.[7]

2. Under the Governance Code,[8] complaints should be raised with the appointing department in the first instance. Departments are responsible for having effective

[6] See *Welsh Government Announcements*, www.gov.wales/announcements.
[7] Order in Council (6 November 2019). https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/wp-content/uploads/2019/11/Public-Appointments-No.-2-Order-in-Council-2019.pdf
[8] Cabinet Office (December 2016). *Governance Code on Public Appointments*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578

complaints handling procedures, for making applicants aware of their right to complain and for referring them to the Commissioner's complaints procedures. If, after investigation by the department, the complainant remains dissatisfied, they may bring their complaint to the independent Commissioner for Public Appointments.[9]

3. The Chair first brought his/her complaint to the Welsh Government in December 2021 and the Welsh Government responded in February 2022. The response stated, in regards to two reappointments made to the board of Public Body X that Welsh ministers 'had made a reasonable decision… based on all the evidence', and it was not in breach of the provisions set out in the Governance Code.

4. The Chair remained dissatisfied. In line with the complaints process outlined in the Governance Code, he/she subsequently approached the Commissioner to make a complaint on 14 February 2022. The complainant brought several additional and related matters to the Commissioner's attention when making this complaint. Some of these, related to the Equality Act 2010 and standards in public life were not within the Commissioner's remit and therefore not investigated.

5. The Commissioner agreed to investigate elements of the complaint relating to reappointment on merit, publication of political activity and transparency. The Commissioner informed the complainant of his decision to investigate these matters only, on 23 February 2022 and invited the submission of evidence. The Commissioner and the complainant agreed that the findings from the Commissioner's investigation would be published but the complainant's anonymity would be protected by not naming the public body in the Decision Notice.

6. The complainant submitted evidence to OCPA on 24 February 2022 which included emails between him/her and Welsh Government officials, and the members in question. The complainant also shared a copy of the performance appraisals for the Board members.

7. The Commissioner informed the Welsh Government of his investigation on 23 February 2022 and requested information in line with his Regulatory Framework including:[10]

    a. submissions to Ministers at every stage of the reappointment process and documentation of all relevant internal discussions including transcripts of phone calls and copies of emails;
    b. declarations of political activity or conflicts of interests (for those considered for reappointment);
    c. due diligence checks (for those considered for reappointment);

498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

[9] Ibid.

[10] Office of the Commissioner for Public Appointments (2016). *Regulatory Framework: Regulating Public Appointments with the Governance Code 2016*. https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/publications/accessible-formats/office-of-the-commissioner-for-public-appointments-regulatory-framework/

d. a copy of the responses given to the complainant;
e. the minutes of a meeting attended by the complainant and the minister on 17 November 2021 at which reappointments were discussed; and
f. links to the public announcement of the two reappointed Board members.

8. The Welsh government provided the evidence in response on 9 March 2022.

9. Upon investigation of this evidence, the Commissioner requested additional information from the Welsh Government which was received on 6 April and 14 July 2022. This included one email omitted in the 6 April evidence bundle and answers to specific questions from the Commissioner on the status of the review of Public Body X, the reappointments and the reappointment process.

10. On receipt of the information requested from the Welsh Government and the complainant, the Commissioner investigated the ministerial decision making process for reappointments to the board of Public Body X. The Commissioner also considered the handling of this complaint and the overall reappointments process in Public Body X. The Commissioner considered each of these matters to be relevant to his investigation, as the overall purpose of OCPA investigations is to improve the quality of the process of public appointments.[11]

11. The Commissioner would like to thank the complainant and the Welsh Government for their cooperation with this investigation.

[11] Order in Council (6 November 2019). https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/wp-content/uploads/2019/11/Public-Appointments-No.-2-Order-in-Council-2019.pdf

# Eitem 4.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4.2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Penodiadau cyhoeddus yng Nghymru:

## Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mawrth 2023

# Cynnwys

**Cefndir** .......... **4**

Gwaith ymgysylltu .......... 4

Cyfranogwyr .......... 4

**Argymhellion** .......... **6**

**1. Y llwybr ar gyfer ymgeiswyr y dyfodol** .......... **8**

Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth .......... 8

Ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol .......... 9

Hyfforddiant a datblygiad .......... 10

Mentora .......... 11

**2. Recriwtio** .......... **13**

Hysbysebu .......... 13

Y cais .......... 14

Y feddalwedd ar gyfer gwneud cais .......... 14

Adborth adeiladol .......... 15

Cyfweliad .......... 16

Tryloywder: Cyfweliad a phenodiad .......... 17

**3. Cael Byrddau i ymuno** .......... **19**

Croesawu amrywiaeth .......... 19

Hygyrchedd .......... 21

Cefnogi aelodau newydd o Fwrdd .......... 22

Eiriolaeth ragweithiol .......... 22

**4. Tâl** .......... **23**

Rhwystrau o ran tâl ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. 23

Amseroldeb .......... 24

Tâl cystadleuol ..... 24
**5. Strategaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru ..... 25**
Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ..... 25
Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Anrhydeddau ..... 26
Amlygrwydd a mynediad at aelodau presennol Bwrdd ..... 27
Data ar aelodau presennol, posibl ac aflwyddiannus Bwrdd ..... 28
**Atodiad 1: Cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliad ..... 29**
**Atodiad 2: Demograffeg y cyfranogwyr ..... 30**

# Cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, cynigiodd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, yn cynnwys cyfres o gyfweliadau â phobl sydd wedi bod mewn swydd a oedd yn benodiad cyhoeddus, sydd mewn swydd sy'n benodiad cyhoeddus ar hyn o bryd, neu sydd wedi gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus. Mae'r papur hwn yn nodi canfyddiadau'r cyfweliadau hynny.

## Gwaith ymgysylltu

Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o **ddeg cyfweliad** rhwng 6 a 17 Chwefror 2023. Nod y cyfweliadau oedd deall yn well y rhwystrau real a chanfyddedig sy'n ei gwneud yn anodd cynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr am benodiadau cyhoeddus. Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i glywed sut y gellid gwella'r sefyllfa.

Comisiynodd y Pwyllgor Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd i gasglu safbwyntiau a phrofiadau bywyd gan bobl o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, sydd, yng nghyd-destun Cymru, wedi bod mewn swydd a oedd yn benodiad cyhoeddus, sydd mewn swydd sy'n benodiad cyhoeddus ar hyn o bryd, neu sydd wedi gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus.

Mae rhestr o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r cyfranogwyr ar gael yn **Atodiad 1.**

## Cyfranogwyr

Recriwtiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfranogwyr drwy arolwg sgrinio a rannwyd gyda dros 60 o gyrff a sefydliadau cyhoeddus.

Dewiswyd deg cyfranogwr ar gyfer cyfweliad. O'r deg cyfranogwr, nododd chwech eu bod yn perthyn i grŵp ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol,

mynychodd wyth ysgol wladol, gyda chwech wedi cael prydau ysgol am ddim, a dau wedi nodi eu bod yn anabl.

Mae dadansoddiad demograffig llawn o'r cyfranogwyr ar gael yn Atodiad 2.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

# Argymhellion

Mynegodd y cyfranogwyr eu safbwyntiau ar ba gamau y gallai Llywodraeth Cymru a byrddau cyhoeddus eu cymryd i ddileu rhwystrau a wynebir gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a gwella amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

**Argymhelliad 1.** Datblygu rhaglen fentora Cymru gyfan a gydgysylltir yn ganolog i ddarparu hyfforddiant ar ddod yn fentor effeithiol i aelodau presennol Bwrdd a chysylltu darpar fentoreion â mentoriaid. Dylai mentoriaid o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fod yn gysylltiedig â mentoreion o grwpiau tebyg sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Argymhelliad 2.** Dylid hysbysebu penodiadau cyhoeddus yn ehangach ac ystyried hysbysebu i grwpiau penodol.

**Argymhelliad 3.** Dylai ffurflenni cais penodiadau cyhoeddus ddefnyddio iaith syml ac amlinellu'n glir yr ymrwymiadau a'r cyfrifoldebau. Dylai'r ffurflen gais fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd.

**Argymhelliad 4.** Dylai pobl sy'n gwneud cais am benodiadau cyhoeddus allu cyflwyno cais fideo.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r feddalwedd a'r wefan gwneud cais am benodiadau cyhoeddus ganiatáu i ymgeiswyr lawrlwytho a lanlwytho gwybodaeth fel dogfennau Word; golygu ceisiadau am benodiadau dilynol; a mynnu bod data personol yn cael eu cyflwyno unwaith yn unig. Dylai unrhyw system newydd ar gyfer gwneud cais gael ei threialu gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau hygyrchedd.

**Argymhelliad 6.** Dylid rhoi adborth adeiladol, pwrpasol, penodol a datblygiadol i bob ymgeisydd aflwyddiannus. Dylai Byrddau ofyn am adborth gan yr ymgeiswyr i wella'r broses a'r profiad o ran penodi.

**Argymhelliad 7.** Er mwyn gwella tryloywder, dylid datblygu canllawiau gweinidogol penodol i amlinellu amseroldeb penodi, ymddygiad Gweinidogion, a chyfathrebu â phanelwyr recriwtio.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried modelau amgen i ddatblygu cynrychiolaeth amrywiol ar Fyrddau, fel yr un a ddefnyddir gan Senedd Ieuenctid Cymru.

**Argymhelliad 9.** Dylai Byrddau ddarparu'r dechnoleg angenrheidiol i aelodau gymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd hybrid.

**Argymhelliad 10.** Dylai byrddau cyhoeddus ystyried datblygu system gyfeillio lle mae aelodau profiadol o'r Bwrdd yn paru ag aelodau Bwrdd mwy newydd, i'w helpu i uwchsgilio ar faterion Bwrdd a materion strategol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arian ar gael ar unwaith i aelodau'r Bwrdd dalu am wasanaethau neu brynu nwyddau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru greu a chynnal gwefan sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n hawdd ei chyrchu, sy'n cynnwys aelodaeth a manylion cyswllt holl aelodau'r bwrdd.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chynnal data cynhwysfawr ar ymgeiswyr posibl ac aflwyddiannus i ddatblygu dulliau cyfathrebu a hyfforddiant parhaus gyda 'sêr y dyfodol' posibl.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chynnal data cynhwysfawr ar aelodau presennol Bwrdd i ddatblygu ac adolygu targedau ystyrlon i Gymru er mwyn gwella aelodaeth Bwrdd.

# Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

## 1. Y llwybr ar gyfer ymgeiswyr y dyfodol

Cytunodd y cyfranogwyr fod angen gwneud mwy i wella'r llwybr ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn y dyfodol. Teimlai cyfranogwyr y gellid gwneud mwy i ddileu rhwystrau i wybodaeth ac ymwybyddiaeth; ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; hyfforddiant; a mentora i ddatblygu ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

### Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth

**1.** Cytunodd y cyfranogwyr fod diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o ba gyrff cyhoeddus sy'n bodoli a'r hyn y maent yn ei wneud:

> *Tydy pobl ddim yn gwybod am benodiadau cyhoeddus na beth yw penodiad cyhoeddus. Mae rhagdybiaeth mai swydd arall ydyw.*
>
> *Dim ond ar ôl fy nghais cyntaf y gwelais yr holl wahanol benodiadau, doeddwn i ddim yn sylweddoli bod cymaint o gyfleoedd. Pan agorodd y drws sylweddolais fod yna fyd arall ar gael, ac yna rydych chi'n meddwl, sut mae pobl yn mynd i'r rolau hyn os nad ydyn nhw hyd yn oed yn gwybod amdanyn nhw?*

**2.** Cytunwyd bod y diffyg dealltwriaeth hwn o beth yw penodiad cyhoeddus a'r hyn y mae'n ei olygu yn rhwystr i lawer o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

> *Y rhan hanfodol imi yw'r rhwystr i bobl ddeall beth yw penodiad cyhoeddus. Os ydych chi'n ofalwr neu os oes gennych chi ofynion gofalu am blant, gall hyn ffitio i mewn i'ch bywyd o hyd a gallwch chi ddod o hyd i benodiad cyhoeddus a all ffitio o*

*amgylch eich bywyd. Felly, mae'n ymwneud â chael mynediad at y wybodaeth honno.*

## Ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

**3.** Teimlai'r cyfranogwyr fod angen gwneud mwy i ddarbwyllo pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol bod penodiadau cyhoeddus ar eu cyfer hwy. Rhwystr i hyn yw gweld byrddau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn amrywiol ('Byrddau' o hyn ymlaen):

> *Mae aelodau bwrdd yn dueddol o fod o ddemograffig a chefndir penodol. Mae hyn yn dueddol o fod yn bobl wyn, hŷn sydd wedi ymddeol, neu sydd eisoes mewn swyddi arwain uwch. Felly, os ydych chi'n berson ifanc efallai na fyddwch chi'n ystyried penodiad cyhoeddus fel rhywbeth y gallech chi fynd iddo.*

**4.** Cytunodd sawl cyfranogwr y gellid gwneud mwy i ymgysylltu â darpar ymgeiswyr ac annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais am swyddi Bwrdd:

> *Mae angen inni gysylltu pryderon neu angerdd pobl â dyletswydd gyhoeddus. Er enghraifft, mae trosedd a'r ffordd y mae'r heddlu yn ymddwyn yn broblem fawr i gymunedau ethnig. Mae hynny wedi gwthio pobl i wneud cais i fyrddau penodol gan eu bod nhw am wneud gwahaniaeth. Rwy'n clywed bod y mathau hyn o faterion yn cymell pobl iau i ystyried penodiadau cyhoeddus.*

> *Gellid gwneud rhaglen ddogfen fechan. Gallai ddilyn rhywun sydd â swydd sy'n benodiad cyhoeddus. Defnyddio ymgyrch hysbysebu fideo lle gallai pobl anabl fel fi gael eu dilyn ar WhatsApp neu Snapchat am ddiwrnod. Defnyddio'r math hwnnw o gyfryngau modern. Mae pobl yn cael cipolwg ar y tŵr ifori hwn o fywyd cyhoeddus fel y caiff ei alw.*

**5.** Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn glir na ddylai ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol fod yn symbolaidd ac y dylai ddigwydd yn rheolaidd:

> *Mae pobl yn dal i siarad am gymunedau y mae'n anodd ymgysylltu â nhw, oherwydd dyma'r naratif sydd wedi'i roi ond 'does neb byth yn trafod pam mae cymunedau fel fy un i wedi cau i lawr ac nad ydyn nhw eisiau ymgysylltu. Mae hyn*

*oherwydd ei fod yn symbolaidd. Mae pobl yn dod atom ni ar y funud olaf oherwydd bod ganddyn nhw flwch ticio, ac yna tydyn ni fyth yn clywed ganddyn nhw, nes bod angen iddyn nhw dicio blwch arall.*

*Ddylen ni ddim aros am Ramadan cyn mynd i mewn i gymuned Fwslimaidd, ond ymgysylltu â'r gymuned honno drwy'r flwyddyn. Yn yr un modd, gyda chymunedau Du, Affricanaidd a Charibïaidd.*

**6.** Rhoddodd rhai cyfranogwyr enghreifftiau o arfer da, lle mae Byrddau wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ag ymgeiswyr posib:.

*Ar ein gwefan, roedd gennym ni fodelau rôl y gallai pobl gysylltu â nhw am gyngor. Roedd gennym ni hefyd fenywod proffil uchel yn siaradwyr mewn digwyddiadau, ac roedd yn ffordd o ddweud wrth fenywod "iawn, felly rydych chi eisiau datblygu...dyma'r bobl sydd wedi llwyddo, ac maen nhw'n fodlon i chi gysylltu â nhw". Roedd hynny'n hynod lwyddiannus.*

*Fe wnaethon ni ddiwrnod galw heibio. Hysbysebodd Llywodraeth Cymru y swyddi, ac yna roedd diwrnod i'r ymgeiswyr ymweld a chwrdd â'r prif weithredwr a rhai pobl allweddol. Roedd amryw o aelodau Llywodraeth Cymru hefyd yn bresennol ac yn siarad yn y digwyddiad ac yn ymateb i gwestiynau.*

## Hyfforddiant a datblygiad

**7.** Disgrifiodd y cyfranogwyr yr angen i ddatblygu pobl sydd â diddordeb ac sydd â photensial ond nad ydynt yn barod i wneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus eto:

*Mewn ymarfer recriwtio diweddar roedd yn ymddangos ei bod yn bosibl nad oedd gan rai o'r ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yr arbenigedd na'r set sgiliau yr oedd ei hangen arnom ni ar gyfer y rôl. Tybed a ydyn nhw'n mynd o flaen eu tro?*

*Er mwyn cynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr mae angen inni ystyried mynd â rhywun o ddiddordeb sylfaenol i feddu ar y sgiliau.*

**8.** Roedd cyfranogwyr yn cydnabod y dylai hyfforddiant effeithiol gefnogi pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu eu potensial a dylent ddarparu canllawiau ar sut i lywio'r system recriwtio penodiadau cyhoeddus. Ond mynegwyd pryderon ynghylch yr angen i groesawu amrywiaeth yn hytrach na chymathu ymgeiswyr yn negyddol:

> *Rwy'n gweld rôl gweithdai fel ein cymathu ni i batrwm. Maen nhw'n cael eu gwneud yn wael iawn. Maen nhw'n cael eu gwneud yn aml gan bobl wyn a'r neges yw "rydyn ni'n gorfod eich dysgu chi". Rwy'n meddwl bod y gweithdai presennol yn wastraff arian ac amser. Rydyn ni angen gweithdai lle rydyn ni'n amlwg yn edrych ar ddatblygu meddwl strategol pobl a beth y gallan nhw gyfrannu at fwrdd. Mae'n dda iawn gweithio ar fwrdd a chael papurau bwrdd neu gynllun blynyddol yn cael eu cyflwyno, ond beth yw eich cyfraniad at y daith honno?*

## Mentora

**9.** Soniodd y cyfranogwyr am yr effaith gadarnhaol y gellid ei chael o fentora, nid yn unig i alluogi pobl i deimlo'n gredadwy fel aelodau Bwrdd ond i ddatblygu 'sêr posibl'. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy i hyfforddi aelodau presennol Bwrdd i ddod yn fentoriaid effeithiol a'u cysylltu â mentoreion:

> *Tydy pawb ddim yn briodol i fod yn fentor ond yn sicr, dylai fod disgwyliad a rhwymedigaeth ar bob un a gaiff ei benodi ar fwrdd y gellir galw arnyn nhw, eu cefnogi a'u hyfforddi i gynnig mentora.*

> *Os yw rhywun yn meddwl am benodiadau cyhoeddus byddai'n dda cynnig enwau a manylion cyswllt pobl sy'n hapus inni gysylltu â nhw i siarad am y broses. Efallai na fydd pobl sydd wedi mynd drwy'r broses yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru.*

**10.** Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yr angen am raglen fentora Cymru gyfan sy'n fwy effeithlon a chydgysylltiedig i gefnogi pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu eu potensial i sicrhau swydd ar Fwrdd yn y pen draw:

> *Dwi ddim yn teimlo bod cynlluniau mentora yn ddigon cysylltiedig. Mae angen i gyrff cyhoeddus redeg eu cynlluniau mentora eu hunain, a ddylai ymuno â'r holl gynlluniau mentora eraill fel eu bod nhw i gyd yn dweud yr un peth.*

**11.** Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y dylai fod gan fentoriaid ddealltwriaeth gyffredinol o'r anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, boed hynny oherwydd eu bod yn agos at y grŵp hwnnw neu eu profiad personol eu hunain.

# 2. Recriwtio

Cytunodd y cyfranogwyr nad yw'r broses recriwtio bresennol yn hysbysebu'n effeithiol a gall cyflwyno ceisiadau fod yn drafferthus. Teimlai'r cyfranogwyr fod angen gwneud mwy i wella'r system o wneud cais, y broses adborth, a thryloywder penodiadau i gynyddu ceisiadau Bwrdd gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Hysbysebu

**12.** Cytunodd y cyfranogwyr fod angen gwneud mwy i hysbysebu penodiadau Bwrdd yn ehangach er mwyn ehangu'r gronfa o ymgeiswyr a denu pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

> *Yn bendant dydyn ni ddim yn gwneud digon i gysylltu â grwpiau ffydd, pobl o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol, nac yn cael cyrhaeddiad ehangach drwy gyfryngau cymdeithasol i ddenu pobl iau. Mae unrhyw gystadleuaeth ond cystal â'r cystadleuwyr sy'n cymryd rhan.*

> *Os nad ydych chi'n fodlon gwario'r arian i hysbysebu yna rydych chi'n mynd i gael yr un grŵp o bobl yn gwneud cais dro ar ôl tro.*

**13.** Awgrymodd sawl cyfranogwr nad yw'r arddull a'r iaith a ddefnyddir wrth hysbysebu swyddi gwag ar Fwrdd yn estyn allan i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol nac yn dangos cynhwysiant:

> *Arddull yr iaith a gaiff ei defnyddio mewn hysbysebion, a yw'n cynnwys testun gwasanaeth sifil diflas neu'n cynnwys ychydig o luniau o'r hyn y gallai'r rôl honno ei gynnwys, y bobl ar y Bwrdd, neu'r bobl y gallai darpar aelod Bwrdd ddod i gysylltiad â nhw? Gallai hyn geisio cyfleu'r dimensiwn gweledol hwnnw i ddangos amrywiaeth a chynhwysiant - sut y gallech chi 'berthyn'.*

## Y cais

**14.** Disgrifiodd sawl cyfranogwr y broses ymgeisio fel ‘gêm’, lle mae'n hanfodol deall a defnyddio'r iaith ofynnol i fod yn llwyddiannus:

> *Rwy bob amser yn dweud wrth bobl bod gwneud cais yn sgil. Mae yna ffordd o ysgrifennu ceisiadau i fynd drwy'r cam sifftio. Mae eich dosbarth a'ch cefndir economaidd-gymdeithasol hefyd yn cael effaith; mae rhai pobl yn ysgrifennu cais ond ddim yn dweud y pethau iawn fel na all y rhai sy’n sifftio dicio eu blwch a’ch rhoi ar y rhestr fer.*

**15.** Teimlai’r cyfranogwyr fod ffurflenni cais yn hirwyntog ac yn aneglur. Dylai darpar ymgeiswyr allu deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt mewn iaith glir a syml a dylai ffurflenni cais fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd i annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais:

> *Os ydych chi wir eisiau ymgysylltu â chynulleidfa sy'n cael ei thangynrychioli, hyd yn oed o safbwynt economaidd-gymdeithasol, mae'n bwysig eich bod chi'n siarad eu hieithoedd. Nid oes angen i'r cais fod yn fwy nag un dudalen a dylai fod ag iaith safonol syml iawn. Dylai fod ar gael mewn ieithoedd gwahanol, ar gael mewn braille, ac yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg.*

**16.** Teimlai llawer o’r cyfranogwyr y byddai ceisiadau fideo yn adnodd effeithiol i alluogi pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gyflwyno ffurflenni cais:

> *Yn ddiweddar roedd y Comisiynydd Plant yn hysbysebu am grŵp cynghori, a gallech chi gyflwyno eich cais ar ffurf fideo. Tydy rhai pobl ddim yn dda am ysgrifennu pethau ond maen nhw’n gallu prosesu a chyflwyno gwybodaeth yn dda.*
>
> *Pe baech chi'n defnyddio cais ar ffurf fideo, gallai’r panel dethol weld sut fath o berson sy’n gwneud cais, nid dim ond darllen darn o bapur amdanyn nhw.*

## Y feddalwedd ar gyfer gwneud cais

**17.** Teimlai llawer o’r cyfranogwyr fod hygyrchedd a pha mor hawdd yw’r feddalwedd gyfredol ar gyfer gwneud cais yn rhwystr:

> *Tydy’r wefan ddim yn hygyrch. Mae popeth mewn dogfennau PDF, sy'n anodd os oes rhaid ichi ddefnyddio technoleg â*

*chymorth a gofyn i rywun helpu i deipio wrth wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Rhaid ichi allu defnyddio'r feddalwedd. Mae'r feddalwedd yn drwsgl iawn.*

**18.** Roedd y cyfranogwyr yn cytuno ei bod yn hanfodol bod pobl yn gallu lawrlwytho a lanlwytho dogfennau Word; yn gallu golygu ceisiadau am benodiadau dilynol; a dim ond unwaith y dylai orfod cyflwyno data personol:

*Tydy system Llywodraeth Cymru ddim yn erchyll ond yn wir, mi allan nhw wneud yn well o ran y gallu i addasu. Fel ymgeisydd, rydych chi wir eisiau gallu ailddefnyddio eich cais aflwyddiannus mewn ceisiadau eraill, nid gorfod nodi'r cyfan eto! Rydych chi eisiau gallu lawrlwytho fersiwn Word o'r hyn rydych chi wedi'i gyflwyno yn eich cais. Pethau syml iawn nad yw'r system bresennol yn eu caniatáu.*

*Rydych chi'n cael yr un cwestiynau, efallai deirgwaith drwy broses recriwtio, gan wahanol gyrff. Dewch 'mlaen, ceisiwch wneud y broses yn well!*

**19.** Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn deall y byddai unrhyw system newydd ar gyfer gwneud cais yn elwa o gael ei threialu gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau hygyrchedd:

*Mae sôn am system newydd, beth am inni beidio â gadael i'r gîcs ddyfeisio'r system ond yn hytrach i'r ymgeiswyr go iawn ei threialu'n drwyadl.*

## Adborth adeiladol

**20.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod adborth ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn wael. Eglurodd y cyfranogwyr mai anaml y rhoddir adborth, a phan ofynnwyd amdano, roedd yn cynnwys ychydig o frawddegau:

*Rwy wedi gwneud cais am bron i 30 o rolau a dim ond unwaith rwy wedi derbyn adborth, sef un frawddeg yn dweud nad oeddwn i'n bodloni'r meini prawf. Sut mae hynny'n fy helpu i wella? Ysgrifennais at aelod o Fwrdd Llywodraeth Cymru, yr oeddwn i wedi meithrin perthynas waith ag ef. Gofynnais i'r person ofyn i'r uned penodiadau cyhoeddus pam nad ydw i erioed wedi cael adborth, a'r ateb oedd "'does neb yn gallu dweud wrtha i pam nad wyt ti erioed wedi cael adborth!". Mae hynny'n eithaf brawychus, yndywe?*

**21.** Ystyriwyd naws yr adborth hefyd yn rhwystr a byddai iaith fwy calonogol gyda'i gilydd yn sicrhau bod ymgeiswyr yn parhau i wneud cais:

> *Rhaid inni geisio bod yn fwy croesawgar yn benodol i annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i barhau i wneud cais. Oherwydd bydd llawer o achosion o wrthod ynghyd â llwyddiannau.*

**22.** Disgrifiodd y cyfranogwyr effeithiolrwydd adborth pwrpasol, penodol y gellir ei weithredu, gan egluro ei fod yn adnodd hanfodol i wella a datblygu ymgeiswyr:

> *Os na allwch chi gael adborth sut ydych chi i fod i wella ar eich cyfweliad a'ch cais, neu roi cynllun hyfforddi ar waith ar gyfer eich penodiad nesaf. Os nad oes gennych chi y profiad hwnnw sut ydych chi i fod i ddysgu?*

> *Mae angen newid sut y caiff ymgeiswyr aflwyddiannus ond y gellir eu penodi eu trin. Mae angen inni wneud yn siŵr bod y bobl hynny sydd wedi gwneud cais yn cael adborth. Mae angen i'r llythyrau atyn nhw fod yn fwy eglur i'w cefnogi, eu meithrin a'u hannog.*

**23.** Cytunodd y cyfranogwyr fod adborth yn ddull dwy ffordd ac y dylai byrddau ystyried gofyn am adborth gan ymgeiswyr i wella'r profiad a'r broses benodi:

> *Dylen ni fod yn gofyn am adborth gan ymgeiswyr, gan ofyn dau beth iddyn nhw bob tro maen nhw wedi gwneud cais: Beth yw un peth y gallen ni fod wedi'i wneud yn well? Beth yw un peth a wnaethom yn dda? Gallai fod yn gyfle i gasglu rhywfaint o ddata defnyddiol?*

## Cyfweliad

**24.** Teimlai rhai cyfranogwyr ei bod yn bwysig cael grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar y panel cyfweld:

> *Rwy'n cofio gwneud cais am un bwrdd penodol. Roedd y bwrdd yn llawn dynion, yn siofinaidd, ac yn wyn. Dyna'r profiad gwaethaf imi ei gael. Byddai'n dda gen i pe na bawn i wedi gwneud cais, yn bennaf oherwydd bod y profiad mor ofnadwy fel ei fod wedi fy atal i rhag gwneud cais am unrhyw beth o gwbl oherwydd ces i brofiad mor wael.*

**25.** Roedd gan y cyfranogwyr amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch gwarantu cyfweliadau i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Teimlai rhai cyfranogwyr fod angen gwneud mwy i ddatblygu ymgeiswyr yn y dyfodol, ac awgrymodd eraill y dylid gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol:

> *Gwnaethom helpu un grŵp o fenywod Asiaidd gyda'r ffurflen gais ac awgrymiadau cyfweliad. Roedden ni'n gwybod nad oedd ganddyn nhw y gofynion angenrheidiol ond serch hynny, roedden ni'n meddwl ein bod ni'n rhan o arbrawf i annog pobl o leiafrifoedd ethnig yn gadarnhaol i wneud cais am benodiadau cyhoeddus a chael eu cyfweld. Ond ni chawsant gyfweliad hyd yn oed. Cododd Llywodraeth Cymru ddisgwyliadau'r bobl ac maen nhw wedi'u chwalu. Tydy hynny ddim yn anfon y signal cywir i'w cymuned. Roedd hynny'n drueni.*

## Tryloywder: Cyfweliad a phenodiad

**26.** Roedd rhai cyfranogwyr yn cwestiynu tryloywder a thegwch dewis ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad:

> *Rwy wedi gwneud cais am lawer o benodiadau cyhoeddus. Pan fydda i'n dweud bod gen i anabledd dydw i ddim yn cael fy ngwahodd i gyfweliad. Gwn am ddwy swydd sy'n benodiad cyhoeddus yr es i amdanyn nhw lle dangosais dystiolaeth ar gyfer yr holl feini prawf ac y dylwn i fod wedi cael cyfweliad o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, ond ches i ddim cyfweliad.*

> *I mi ystyried gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus eto, ar ôl fy mhrofiad i, rwy'n meddwl y byddai angen i'r system fod yn deg. Mae wedi'i anelu at fath arbennig o berson. Os ydych chi'n berson o liw tydy'r system ddim wir eich eisiau chi.*

**27.** Nodwyd oedi hir, heb eglurhad, rhwng cyfweliad a phenderfyniad fel rhwystr ynghyd â dewis gweinidogol o ymgeiswyr llwyddiannus:

> *Roedd fy mhrofiad cyntaf i o benodiad cyhoeddus yn dipyn o sioc. Roedd yn symud yn araf iawn o'i gymharu â'r diwydiant yr oeddwn i wedi gweithio ynddo, ac roedd yn fiwrocrataidd iawn.*

**28.** Y Gweinidogion sy'n bennaf gyfrifol am rhaibenodiadau. Gall Gweinidogion ofyn i baneli am flaenoriaethu. Teimlai rhai cyfranogwyr fod diffyg tryloywder yn y broses benodi a disgrifiwyd sut y gellir amau hygrededd y system benodi:

*Roeddwn i'n eithaf hyderus yn y broses hyd nes i un o'r gweinidogion benderfynu'n ddiweddar fod problem gyda llywodraethu gan osgoi'r broses yn llwyr a phenodi dau neu dri aelod i'r bwrdd. Beth am yr holl bobl oedd wedi gwneud cais? Yn sicr, y peth gorau fyddai tynnu sylw'r dynion a oedd yn cael eu penodi i'r hysbyseb am y swydd wag a'u hannog i wneud cais. Er ei fod o fewn gallu'r gweinidog i benodi, fe wnaeth hynny effeithio ar fy hyder i yn y broses.*

*Penderfynodd y gweinidog hwnnw benodi tri gŵr gwyn di-Gymraeg i gyd o dde Cymru. Roedd un ohonyn nhw'n arfer bod yn gynghorydd arbennig i'r gweinidog. Rwy'n gwerthfawrogi y gellir gwneud hyn am flwyddyn drwy ganiatâd arbennig gan y comisiynydd, ond gwnaed hyn yn wael, yn wael yn wir.*

*Rwy'n ei chael hi'n anhygoel bod rhai pobl yn cael eu penodi gan wybod eu cyfranogiad a'u cysylltiadau gwleidyddol. Rwy'n meddwl, sut wnaethoch chi ddod drwy'r cam sifftio? Rydych chi'n meddwl tybed sut y digwyddodd hynny ac a yw hwn yn benodiad gwleidyddol cudd? Mae hyn yn digwydd ond ydy hyn yn iawn ar gyfer penodiadau cyhoeddus?*

**29.** Awgrymwyd bod angen canllawiau gweinidogol mwy penodol i amlinellu prydlondeb, ymddygiad, a chyfathrebu â phanelwyr recriwtio:

*Os yw cyrff cyhoeddus yn mynd i ennyn hyder gyda system benodi gadarn, gredadwy, tryloyw a diduedd, rhaid iddi nid yn unig fod yn gadarn a thu hwnt i feirniadaeth, ond rhaid ei gweld felly.*

**30.** Awgrymodd un cyfranogwr y dylai'r system penodiadau cyhoeddus fabwysiadu fformat tebyg i'r un a ddefnyddir gan Senedd Ieuenctid Cymru. Caiff 20 o'r 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu hethol gan sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli:

*Rwy'n hoff iawn o'r trefniadau presennol sydd gan Senedd Ieuenctid Cymru ar waith lle mae rhai lleoedd yn cael eu clustnodi i gyrff penodol enwebu eu hymgeisydd. Rwy'n meddwl bod hynny'n dda iawn.*

# 3. Cael Byrddau i ymuno

Soniodd y cyfranogwyr am yr angen i Fyrddau ddatblygu mentrau i gadw pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Cytunodd y cyfranogwyr y gallai Byrddau wneud mwy i ddileu rhwystrau drwy groesawu amrywiaeth; gwella hygyrchedd; cefnogi aelodau newydd ar Fwrdd; ac eiriolaeth ragweithiol.

## Croesawu amrywiaeth

**31.** Cytunodd y cyfranogwyr fod croesawu amrywiaeth yn hanfodol er mwyn dileu rhwystrau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn cydnabod nad yw hon yn dasg hawdd:

> *Mae amrywiaeth yn gwneud pobl yn anghyfforddus. Os oes gennych chi ddiwylliant o bobl yn gweithredu o fewn eu math eu hunain, yna mae amrywiaeth yn golygu bod yn rhaid herio eu naratif.*

**32.** Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu ynghylch terminoleg, deall gwahaniaethau diwylliannol, a thramgwyddo rhywun yn anfwriadol:

> *Mewn cyfarfod a fynychais yn ddiweddar, soniodd rhywun y gwnaeth rhywun ofyn iddo o ble'r oedd yn dod. Pe bai rhywun yn gofyn y cwestiwn hwnnw imi fyddwn i ddim yn teimlo wedi fy nhramgwyddo am na chefais fy ngeni yma, byddwn i'n syml yn ateb y cwestiwn. Fyddwn i ddim yn gweld unrhyw broblem o gwbl gyda'r cwestiwn hwnnw. Ond roedd pobl yn y cyfarfod yn flin iawn bod rhywun wedi gofyn y cwestiwn penodol hwnnw. 'Doeddwn i ddim yn deall. Fyddwn i ddim yn meddwl bod rheswm arall y tu ôl i'r cwestiwn. Rhaid inni i gyd weithio gyda phobl, gan wneud i berthnasoedd gwaith weithio er lles pawb.*

**33.** Roedd y cyfranogwyr yn glir bod yn rhaid i Fyrddau fynd i'r afael â symboleiddiaeth er mwyn croesawu amrywiaeth:

*Mae'r tensiwn hwnnw rhwng sut y mae aelodau bwrdd yn meddwl y dylen ni ymddwyn a sut rydyn ni'n meddwl y dylen ni ymddwyn oherwydd bod cyfyngder diwylliannol.*

*Weithiau mae gennych chi grŵp o bobl sydd eisiau amrywiaeth, ond pan fydd y person amrywiol yn dod i mewn gyda'i holl syniadau mae'r grŵp yn dweud "na, nid ydym eisiau eich syniadau chi, rydyn ni eisiau edrych yn amrywiol, ond heb fod yn amrywiol mewn gwirionedd." Mae'n safbwynt symbolaidd ac mae'n anodd i leiafrifoedd ethnig pan mai nhw yw'r unig rai; pan mai nhw yw'r rhai 'arall'.*

**34.** Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gall cymathu negyddol rwystro unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag dod â'u diwylliant a'u profiad byw i'r Bwrdd, yn aml yn gorfod mabwysiadu'r agweddau a'r ymagwedd bresennol:

*Mae'n cymryd pob math o bobl ac mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd fod yn agored i gyfnewid gwybodaeth o wahanol gefndiroedd a phrofiadau, os ydym am annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â'r math traddodiadol o fyrddau.*

**35.** Soniodd y cyfranogwyr am yr effaith gadarnhaol y gall croesawu amrywiaeth ei chael ar effeithiolrwydd y Bwrdd:

*Rwy'n meddwl bod y gymuned LHDT+ yn enghraifft o sector heb gynrychiolaeth ddigonol sydd wedi cynyddu'n sylweddol ac yn llwyddiannus yn ei chynrychiolaeth. Ac unwaith y daw pobl o unrhyw grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol yn aelodau bwrdd, maen nhw'n dechrau mynegi eu hystod o brofiadau bywyd yn fwy rhydd.*

**36.** Fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir bod angen cydbwysedd er mwyn croesawu amrywiaeth a thangynrychiolaeth:

*Rhaid inni fod yn ofalus nad ydyn ni'n atal dynion a menywod gwyn, abl rhag gwneud cais am benodiadau cyhoeddus. Oherwydd os nad ydyn ni'n ofalus fe fydd yn cael ei weld bod y pendil yn siglo. Byddai'n anghywir, er enghraifft, cael bwrdd o fenywod yn unig - mae'n mynd yn rhy bell y ffordd arall. Felly mae'n ymwneud â chael cymysgedd o bobl o bob math o gefndiroedd, addysg a chymwysterau gwahanol.*

## Hygyrchedd

**37.** Teimlai'r cyfranogwyr y gallai'r newid i gyfarfodydd hybrid ddileu'r rhwystrau i bobl ag anableddau a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig:

> *Mae cael cyfarfodydd hybrid rhithwir yn help ac yn ased gwirioneddol i ddenu pobl. Yn hytrach na gorfod neidio yn eu car, efallai na fydd gan rai pobl gar nac yn gallu fforddio'r tanwydd. Os oes gennych chi anabledd corfforol, 'does dim rhaid ichi fynd i gyfarfod a gallwch chi ei wneud o'ch cartref.*

**38.** Awgrymwyd y dylai Byrddau ddarparu'r dechnoleg angenrheidiol i aelodau gymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd hybrid ac na ddylid disgwyl bod gan aelodau'r modd ariannol i brynu neu ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain:

> *Rydyn ni'n darparu gliniaduron a dyfeisiau atgyfnerthu cysylltedd i'n haelodau os oes angen a dylai cyrff cyhoeddus fod yn barod i gefnogi eu haelodau bwrdd yn y modd hwn.*

**39.** Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith i ddileu neu leihau anfantais sy'n gysylltiedig ag anabledd rhywun:

> *Cawsom ymweliadau safle i sicrhau bod gennym ni y math cywir o gludiant. Gwnaethom addasiadau i'r bwrdd cynhadledd fel eu bod yn gallu cyrchu'r bysellfyrddau ac ati. Gyda'u cymorth nhw, fe wnaethon ni sefydlu technoleg i alluogi meicroffon i weithio'n iawn. Fe wnaethom ni drefnu seibiannau rheolaidd i ystyried yr anabledd. Cafodd gofalwr ei groesawu. Roedd yr aelod bwrdd yn wych a chydag agwedd hollol wahanol tuag at bethau, gan gefnogi'n gryf y materion yn ymweud â hygyrchedd. Fe ddysgon nhw lawer iawn imi am y rhwystrau y mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu o ddydd i ddydd - mae codi yn y bore a mynd allan yn gallu cymryd oriau. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n brofiad diymhongar iawn.*

**40.** Fodd bynnag, disgrifiodd y cyfranogwyr hefyd y rhwystrau a wynebir gan aelodau'r Bwrdd sydd ag anableddau wrth geisio rhoi addasiadau rhesymol ar waith:

> *Roedd pobl yn cwestiynu'r angen sydd arna i am dechnoleg â chymorth, fe wnaeth imi feddwl a ddylwn i barhau. O fewn blwyddyn gyntaf fy mhenodiad cyhoeddus, ysgrifennais, yn*

*gyfrinachol, fy llythyr ymddiswyddiad ddwywaith. Achos roeddwn i'n amau a oeddwn i'n ddigon da. Dyna sut y gwnaeth y sefydliad imi deimlo. Wnes i ddim eu rhoi i mewn oherwydd doeddwn i ddim yn mynd i gael fy nghuro gan y system. Rwy'n credu os ydych chi am newid y system rhaid ichi ei wneud o'r tu mewn. Rhaid ichi roi'r clogyn hwnnw ymlaen a newid agweddau o'r tu mewn.*

## Cefnogi aelodau newydd o Fwrdd

**41.** Roedd y cyfranogwyr yn canmol system gyfeillio lle mae aelodau profiadol o Fwrdd yn paru ag aelodau Bwrdd mwy newydd, i'w helpu i uwchsgilio ar faterion Bwrdd a materion strategol:

*Mae'n ymwneud â phrofiad byw, y cyfnewid hwnnw o brofiad, a sut mae'n ymwneud â'ch bywyd gwaith. Gallai cynllun cyfeillio gynnig partneriaeth gyda rhywun sydd wedi bod ar y bwrdd ers rhai blynyddoedd gyda rhywun sydd newydd ddod i mewn. Mae creu hegemoni go iawn yn bwysig, fel creu ymdeimlad o berthyn. Bod profiad byw pobl a galluoedd proffesiynol yn cael eu clywed.*

**42.** Mynegwyd pryderon ynghylch y gefnogaeth a roddir i aelodau newydd o Fwrdd:

*Cysylltodd rhywun â mi gan ei bod wedi dod ar draws rhai mathau o ymddygiad yr oedd hi'n teimlo eu bod yn annerbyniol ac eisiau gwybod sut i ymdrin â nhw. Rhoddais fy nghyngor iddi ond chafodd hi ddim llwyddiant. Byddwn i'n dweud mai'r hyn sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar am URC yw'r union beth y daeth ar ei draws. Felly, ymddiswyddodd a dyna oedd ei chynnig olaf ar benodiadau cyhoeddus.*

## Eiriolaeth ragweithiol

**43.** Soniodd sawl cyfranogwr am bwysigrwydd eiriolaeth ragweithiol wrth feithrin cysylltiadau â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Cytunodd y cyfranogwyr fod y ffordd y maent yn ymddwyn ar y Byrddau a'r tu allan i'r ystafell fwrdd yn bwysig:

*Mae gennym ni i gyd lawer o rolau lle rydyn ni'n dod i gysylltiad â phobl nad ydyn nhw'n arferol; gallen ni – a dylen ni – fod yn fwy rhagweithiol yn ein heiriolaeth, a gallai Llywodraeth Cymru ofyn yn uniongyrchol ac yn benodol am hynny gennym ni.*

# 4. Tâl

Trafododd y cyfranogwyr y rhwystrau a wynebir gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran tâl. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod y gellid gwneud mwy i ddeall y rhwystrau a wynebir gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; gwella amseroldeb ad-daliadau; a gwella cystadleurwydd tâl Llywodraeth Cymru.

## Rhwystrau o ran tâl ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

**44.** Teimlai'r cyfranogwyr y byddai angen i bobl mewn cyflogaeth amser llawn leihau eu horiau gwaith neu gael caniatâd i fod yn absennol gan eu cyflogwr i gymryd rhan lawn ar Fwrdd:

> *Nid yw gwasanaeth bwrdd yn bensiynadwy ac nid oes unrhyw wyliau cysylltiedig. Mae rhai pobl yn fforffedu budd materol gwirioneddol. Os yw eich rôl bwrdd yn cymryd 40-45 diwrnod y flwyddyn, byddai eich caniatâd i fod yn absennol gan eich cyflogwr yn golygu eich bod yn colli eich buddion cyflogai. Mae hynny'n arwain at golled ddifrifol mewn gwasanaeth pensiynadwy, colli gwyliau, a buddion cyflogaeth pro-rata eraill. Os ydych chi'n rhywun ar gam cynnar yn eich gyrfa mae hynny'n arwyddocaol.*

**45.** Nodwyd cymhlethdodau i bobl sy'n hawlio budd-daliadau ac sy'n aelod o Fwrdd fel rhwystr hefyd:

> *Bydd rhai pobl ar fudd-daliadau, ac os byddan nhw'n dechrau swydd sy'n benodiad cyhoeddus allan nhw ddim parhau i hawlio budd-daliadau. Felly rhaid inni ymdrin â'r ffaith na fydd neb ar fudd-daliadau yn gallu gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus.*

## Amseroldeb

**46.** Disgrifiodd sawl cyfranogwr yr amser a gymerwyd i ad-dalu aelodau Bwrdd fel rhwystr sylweddol:

> *Es ati i gael cymorth addasu rhesymol fy hun a gofynnais iddyn nhw dalu'r anfoneb. Yr ymateb cychwynnol oedd imi ei dalu a'i hawlio'n ôl. Weithiau gall hynny fod yn rhwystr, 'does gennym ni i gyd ddim yr arian yn ein banciau, yn enwedig ar hyn o bryd. Beth am gael pot o arian a all helpu ar unwaith, yn hytrach nag aros i bethau gael eu cymeradwyo ac aros i'r person dalu'r bil cychwynnol a'i hawlio'n ôl.*

## Tâl cystadleuol

**47.** Teimlai rhai cyfranogwyr y bydd yn anodd denu talent o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol pan fo tâl Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn wael o gymharu â deddfwrfeydd eraill:

> *Gwn am enghreifftiau lle na fydd talent yn ystyried penodiadau Llywodraeth Cymru oherwydd nad yw lefelau'r tâl yn gymesur â'r hyn y mae'r llywodraeth ganolog yn ei gynnig. Mae pawb yn ysu am ymgeiswyr amrywiol ond pam y byddwn i'n cynnig fy hun i gorff Cymreig pan rwy'n cael cynnig mwy gan y llywodraeth ganolog?*

## 5. Strategaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru

Roedd gan y cyfranogwyr safbwyntiau gwahanol ar effeithiolrwydd strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cytunodd y cyfranogwyr fod angen i Lywodraeth Cymru a'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus wneud mwy i roi newid ar waith yn llwyddiannus, cefnogi Byrddau, a chasglu data.

### Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus

> *Rwy'n mynd i fod yn feiddgar a dweud bod angen diwygio gwraidd a changen, neu fel arall tydyn ni ddim yn mynd i allu cyflawni'r hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei gyflawni, sef system penodiadau cyhoeddus sy'n adlewyrchu pobl Cymru.*

**48.** Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn canmol Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.[1] Ond gofynnwyd cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd gweithredu'r polisi:

> *Rwy'n meddwl bod y strategaeth yn wych, ei nodau'n wych ac mae gweledigaeth 2030 yno. Beth am fod yn bositif, mae'n dda iawn. Fy nghwestiwn i fyddai sut y bydd yn cael yr adnoddau sydd eu hangen, ac o ystyried y pwysau ar adnoddau, pa mor dda y mae'n cael ei gefnogi a'i fonitro fel strategaeth.*

> *Dydw i ddim yn clywed y gweinidog yn dweud wrth y cadeiryddion, "sut ydych chi'n cyflawni o ran amrywiaeth, neu'r strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant?" Tydy'r gwaith craffu llym a dwys hwnnw ddim yn digwydd ar waith cadeiryddion.*

[1] https://www.llyw.cymru/strategaeth-amrywiaeth-chynhwysiant-ar-gyfer-penodiadau-cyhoeddus

*Rydyn ni'n siarad am sicrwydd, ond ddim yn ymchwilio'n ddyfnach i pam nad ydym ni'n gwneud cynnydd.*

**49.** Credwyd hefyd fod Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yn methu â chydnabod rhai grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, megis pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a phobl niwroamrywiol.

**50.** Awgrymwyd nid yn unig y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag aelodau Bwrdd o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gefnogi a gweithredu ei strategaeth, ond y dylai pobl sy'n arwain ac yn gweithredu'r strategaeth fod wedi cael profiad byw:

*Byddai'n syniad da iawn i Lywodraeth Cymru gwrdd ag aelodau bwrdd o gefndiroedd amrywiol a chlywed am eu profiad bwrdd.*

*Mae'n anodd iawn cael strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant nad yw'n cael ei harwain gan rywun sydd â'r profiad byw hwnnw. Gyda phob parch, pe bawn i'n sefyll i fyny a siarad am hawliau pobl anabl, dylai fod gen i anabledd, neu gysylltiad uniongyrchol neu agosrwydd at rywun ag anabledd, y byddwn i'n ei ddeall drwyddyn nhw.*

## Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Anrhydeddau

**51.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr, a siaradodd am Dîm Penodiadau Cyhoeddus ac Anrhydeddau Llywodraeth Cymru, y gallai wneud mwy i gefnogi ymgeiswyr:

*Mae'n teimlo fel bod yr uned penodiadau cyhoeddus yn islawr Llywodraeth Cymru a 'does neb am iddi gael ei chanfod. Os ydym ni am gael sefydliad mwy amrywiol ledled Cymru, sy'n gynrychioliadol, mae angen i'r uned penodiadau cyhoeddus honno fod yn fwy cyhoeddus.*

**52.** Siaradodd cyfranogwyr a oedd â diddordeb mewn gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus am y tro cyntaf am y diffyg hyfforddiant a chefnogaeth a gynigir gan y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Anrhydeddau:

*Cysylltais â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gael gwybod mwy am eu cyrsiau hyfforddi. Maen nhw'n sôn am y cyrsiau pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer eu Banc Talent. Cefais ateb un frawddeg, yn dweud wrtha i "Nid yw Penodiadau Cyhoeddus yn rhedeg unrhyw gwrs ond fe allech chi holi Academi Cymru".*

**53.** Mae cyfranogwyr sydd mewn swydd sy'n benodiad cyhoeddus neu sydd wedi bod mewn swydd a oedd yn benodiad cyhoeddus yn teimlo nad yw'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Anrhydeddau yn cefnogi aelodau Bwrdd yn effeithiol:

> *Pan fyddwch chi'n ffonio'r uned penodiadau cyhoeddus, nid ydych chi'n cael eich croesawu'n arbennig pan fyddwch chi'n gofyn cwestiynau iddyn nhw neu'n gofyn am bethau mewn fformat arall. Rydw i'n fwy na pharod i ofyn i bethau gael eu gwneud mewn ffyrdd penodol, felly fe wnaf i ffonio a gofyn am bethau mewn fformat Word. Ond ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn gwneud hynny, yn enwedig os ydyn nhw'n meddwl y bydd yn mynd yn eu herbyn wrth wneud cais am gyfweliad. Bydd pobl yn ymdopi.*

> *Pryd bynnag y byddwch chi'n ffonio'r uned penodiadau cyhoeddus efallai y byddwch chi'n ffodus i gael galwad ffôn yn ôl. Byddai'n dda pe baech yn cael pwynt cyswllt uniongyrchol, rhywun y gallech chi fynd ato, rhywun y gallech feithrin cydberthynas ag ef dros amser.*

## Amlygrwydd a mynediad at aelodau presennol Bwrdd

**54.** Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes gwefan hawdd ei chyrchu i'r cyhoedd sy'n cynnwys aelodaeth a manylion cyswllt yr holl Fyrddau. Cytunodd y cyfranogwyr fod diffyg cronfa ddata cysylltiadau hawdd ei chyrchu o aelodau'r Bwrdd yn ddiffyg mawr:

> *Mae mynediad at gronfa ddata o aelodau bwrdd yn faes arall y mae angen edrych arno. Rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf ohonom ni'n hapus i'n lluniau fod ar wefan, i roi golwg fwy cynrychioliadol, golwg fwy cyfeillgar i ymgeiswyr.*

> *'Does dim un gronfa ddata hygyrch o bawb sydd mewn swydd sy'n benodiad cyhoeddus, ac mae hynny'n frawychus.*

**55.** Ym mis Rhagfyr 2022, ysgrifennodd Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, at dros 60 o fyrddau a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y llythyr yn gwahodd pobl sydd wedi bod mewn swydd a oedd yn benodiad cyhoeddus, sydd mewn swydd sy'n benodiad cyhoeddus ar hyn o bryd, neu sydd wedi gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus ac wedi bod yn aflwyddiannus, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb mewn gwneud cais, i gymryd rhan yn yr ymchwiliad. Gofynnwyd i'r

derbynwyr rannu'r gwahoddiad â phobl a fyddai â diddordeb mewn cymryd rhan:

> *Roedd proses y Pwyllgor ar gyfer cysylltu â mi ar gyfer y cyfweliad hwn ond wedi fy nghyrraedd drwy ddigwyddiad drwy un o'r byrddau rwy arno. Pam na wnaeth y gwahoddiad fy nghyrraedd drwy fy holl fyrddau eraill? Diddorol! Ni chefais i hyd yn oed wybod amdano fel uwch-aelod annibynnol o'r panel.*

## Data ar aelodau presennol, posibl ac aflwyddiannus Bwrdd

**56.** Cytunodd y cyfranogwyr nad yw’n ymddangos bod data sylfaenol cynhwysfawr ar gael ar aelodau presennol, posibl ac aflwyddiannus Bwrdd:

> *Nid yw'n ymddangos bod rhestr o bobl sydd mewn swyddi penodiadau cyhoeddus, rhestr o ymgeiswyr posibl, na rhestr o ymgeiswyr aflwyddiannus. Nid yw'n ymddangos bod rhestr o benodiadau cyhoeddus hyd yn oed!*

**57.** Teimlai’r cyfranogwyr ei bod yn amhosibl datblygu targedau ystyrlon ar gyfer Cymru i wella aelodaeth Bwrdd heb y data hyn:

> *Mae angen inni hefyd nodi’r byrddau hynny sydd leiaf amrywiol a chanolbwyntio ymdrechion ar gynllun gweithredu. Rwy’n credu bod byrddau iechyd yn fwy amrywiol yn ôl pob tebyg. Ond nid ydym yn gwybod yn sicr. A yw byrddau cyhoeddus yn cyflwyno unrhyw ddata amrywiaeth? Mae'r holl ddata a gaiff eu casglu yn eithaf gwael yn feintiol ac yn ansoddol, a dweud y gwir.*

**58.** Roedd llawer o’r cyfranogwyr yn teimlo bod ‘sêr y dyfodol’ posibl yn cael eu colli oherwydd diffyg monitro a chasglu data am ddarpar ymgeiswyr:

> *Ydyn ni’n gwybod pwy sydd wedi gwneud cais am beth, cronfa ddata o ymgeiswyr posibl ond aflwyddiannus? Mewn byd delfrydol, byddai pawb sy'n gwneud cais yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata a phob tro y daw penodiad newydd i fyny bydden nhw i gyd yn cael eu hysbysu.*

# Atodiad 1: Cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliad

1. Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru?
2. Beth y gellir ei wneud i oresgyn y rhwystrau?
3. Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar hyn o bryd i annog a chynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr?
4. Sut y gall Llywodraeth Cymru greu proses penodiadau cyhoeddus fwy tryloyw ac agored?
5. A oes enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y dylai Cymru ddysgu oddi wrthynt?
6. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar sut y gellir gwella'r broses penodiadau cyhoeddus i sicrhau amrywiaeth?

# Atodiad 2: Demograffeg y cyfranogwyr

Dewiswyd deg cyfranogwr ar gyfer cyfweliad. Isod mae dadansoddiad demograffig o'r cyfranogwyr a ddewiswyd.

| Demograffig | Data |
|---|---|
| **Lleoliad** | Cafwyd cymysgedd o ardaloedd gwledig, trefol a maestrefol. Roedd y cyfranogwyr yn byw yn yr ardaloedd awdurdod lleol a ganlyn:<br>▪ Sir Gaerfyrddin<br>▪ Abertawe<br>▪ Bro Morgannwg<br>▪ Rhondda Cynon Taf<br>▪ Casnewydd |
| **Oedran** | ▪ Roedd pum cyfranogwr rhwng 26 a 45 oed.<br>▪ Roedd pum cyfranogwr rhwng 46 a 75 oed. |
| **Ethnigrwydd** | ▪ Roedd pedwar cyfranogwr yn nodi eu bod yn wyn.<br>▪ Roedd tri o'r cyfranogwyr yn nodi eu bod o gefndir Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd.<br>▪ Roedd dau o'r cyfranogwyr yn nodi eu bod o gefndir Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig.<br>▪ Nododd un cyfranogwr 'arall'. |
| **Rhywedd** | ▪ Roedd dau o'r cyfranogwyr yn ddynion.<br>▪ Roedd wyth o'r cyfranogwyr yn fenywod. |
| **Anabledd** | ▪ Nododd dau gyfranogwr eu bod yn anabl.<br>▪ Cafodd anableddau dysgu a chorfforol eu cynrychioli. |
| **Cymhwyster uchaf rhiant** | ▪ Nid oedd gan rieni tri o'r cyfranogwyr unrhyw gymwysterau.<br>▪ Roedd gan rieni dau o'r cyfranogwyr gymwysterau TGAU neu gyfwerth.<br>▪ Roedd gan rieni pump o'r cyfranogwyr gymwysterau gradd neu uwch. |

| Demograffig | Data |
| --- | --- |
| **Yr ysgol a fynychwyd** | ▪ Mynychodd dau gyfranogwr ysgol breifat neu ysgol ramadeg.<br>▪ Mynychodd wyth cyfranogwr ysgol wladol. |
| **Prydau ysgol am ddim** | ▪ Roedd chwech o'r cyfranogwyr yn derbyn prydau ysgol am ddim. |
| **Penodiadau cyhoeddus** | ▪ Mae chwe chyfranogwr naill ai wedi bod mewn swydd sy'n benodiad cyhoeddus, neu mewn swydd o'r fath ar hyn o bryd.<br>▪ Mae pedwar cyfranogwr naill ai wedi gwneud cais am swydd sy'n benodiad cyhoeddus ond wedi bod yn aflwyddiannus neu erioed wedi cael swydd sy'n benodiad cyhoeddus ond mae ganddynt ddiddordeb mewn gwneud cais. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3370A2023

Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 19 Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n darparu os wyf yn credu y byddai er budd y cyhoedd tynnu sylw'r cyhoedd at fater sy'n dod at fy sylw yn ystod archwiliad o gyfrifon archwiliadwy, gallaf baratoi adroddiad ar y mater hwnnw. Mae'n ofynnol i mi, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl paratoi adroddiad o'r fath gyflwyno'r adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gyflawni fy ngwaith archwilio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, nodais faterion penodol yr wyf yn credu sydd er budd y cyhoedd ac rwyf bellach yn tynnu sylw'r cyhoedd at y rhain drwy'r adroddiad hwn.

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Cydnabyddiaethau | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Casgliadau cyffredinol | 6 |
| Canfyddiadau | 7 |
| Sylwadau i gloi a meysydd ar gyfer gweithredu ar unwaith | 15 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Dull archwilio | 18 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Trwy gyflawni ein gwaith archwilio mater o drefn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) daethom yn ymwybodol o bryderon cynyddol ynghylch cydlyniant y bwrdd[1] a chysylltiadau gweithio ar lefel uwch. Mae natur a maint y pryderon wedi arwain i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad brys ac â phwyslais o effeithiolrwydd cyfunol y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2 Gwnaed y gwaith hwn yn ystod mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023, a manteisiodd yn briodol ar dystiolaeth a gasglwyd eisoes yn rhan o waith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn y Bwrdd Iechyd yn 2022. Gwnaed y gwaith i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswydd statudol o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i fodloni ei hun bod gan gyrff GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yn y defnydd o'u hadnoddau. Paratowyd yr adroddiad at y dibenion o gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol yn unig.

3 Pwyslais yr adolygiad oedd canfod i ba raddau y mae'r bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn gydlynol fel tîm i gyflawni ei swyddogaeth a'i weithredoedd, gan gynnwys darparu'r arweinyddiaeth gyfunol sy'n ofynnol i ymateb i'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

4 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'n hadolygiad ac yn nodi'r camau ar unwaith yr ydym o'r farn sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r pryderon y mae ein gwaith wedi eu nodi.

5 Mae'r adroddiad ar gyfer pawb sy'n gyfrifol am lywodraethu yn y Bwrdd Iechyd ond dylid hefyd ei ddefnyddio i hysbysu ymyriadau a chynorthwyo gwaith a drefnir gan Lywodraeth Cymru yn rhan o Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.

## Cydnabyddiaethau

6 Rydym yn ddiolchgar i'r Bwrdd Iechyd am gynorthwyo sefydliad cyflym yr adolygiad ac i'r unigolion sydd wedi gwneud eu hunain ar gael i siarad â'n hadolygwyr ar adeg yr ydym yn cydnabod sy'n heriol iawn i'r Bwrdd Iechyd.

[1] Mae'r term 'Aelodau'r Bwrdd' yn cynnwys aelodau Annibynnol, cyswllt a Thîm Gweithredol. Mae'r term 'Bwrdd' yn cynrychioli'r grŵp cyfunol o aelodau'r Bwrdd. Mae'r term 'Bwrdd Iechyd' yn ymwneud â'r sefydliad cyfan. Grŵp o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol uchaf yn y Bwrdd Iechyd yw'r 'Tîm Gweithredol'.

# Cefndir

7 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cael ei isgyfeirio o Fesurau Arbennig ym mis Tachwedd 2020, mae'n dal i fod yn destun Ymyriad wedi'i Dargedu[2] mewn pum maes:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl;
- Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad;
- Ysbyty Glan Clwyd;
- Arweinyddiaeth; ac
- Ymgysylltu.

8 Ychwanegwyd Ysbyty Glan Clwyd at y meysydd Ymyriad wedi'i Dargedu hyn ym mis Mehefin 2022 yn dilyn pryderon sylweddol ynghylch gwasanaethau Adran Achosion Brys a fasgwlaidd yr ysbyty. Yn fwy cyffredinol, mae gan y Bwrdd Iechyd heriau perfformiad sylweddol ynghylch agweddau ar berfformiad gofal a gynlluniwyd a gofal heb ei drefnu. Hefyd, mae'r gallu i lunio Cynllunio Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo a strategaeth gwasanaethau clinigol â chynlluniau clinigol manwl yn sail iddi yn dal i fod yn heriau hirhoedlog i'r Bwrdd Iechyd.

9 Ym mis Awst 2022, nododd archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o gyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd wallau sylweddol yn y cyfrifon hynny. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu tystiolaeth archwilio ddigonol i ddangos bodolaeth £72 miliwn o wariant y cofnodwyd y'i gwnaed yn y cyfrifon ond na dalwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd tystiolaeth annigonol hefyd i gadarnhau bod gwariant o £122 miliwn a gofnodwyd yn cyfrifon yn ymwneud â chyfnod cyfrifyddu 2021-22. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gosod amod "cyfyngiad ar gwmpas" ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd. Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol hefyd amodi ei farn rheoleidd-dra ar y cyfrifon o ganlyniad i anallu'r Bwrdd Iechyd i ddangos cydbwysedd ariannol dros gyfnod o dair blynedd, a gwariant a chyllid o ran rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr.

10 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gomisiynu Ernst and Young i gynnal adolygiad allanol er mwyn archwilio achos y gwallau a nodwyd yn yr archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, mae ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal bellach gan Wasanaeth Gwrth-dwyll GIG Cymru.

11 Gadawodd Prif Weithredwr parhaol y Bwrdd Iechyd y sefydliad ddiwedd mis Hydref 2022 gan greu rhai heriau ar unwaith i'r sefydliad o ran parhad a sefydlogrwydd arweinyddiaeth y Tîm Gweithredol. Rhoddwyd trefniadau Prif Weithredwr dros dro ar waith cyn proses i recriwtio rhywun i'r swydd yn barhaol.

[2] Mae Ymyriad wedi'i Dargedu yn rhan o Drefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru – Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd ar gyfer ymdrin â materion difrifol sy'n wynebu GIG Cymru (llyw.cymru)

12 Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, mae nifer sylweddol o ddatgeliadau wedi deillio o'r Bwrdd Iechyd yn codi pryderon amrywiol am y diwylliant ar frig y sefydliad a phrosesau busnes gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â defnyddio penodiadau uwch dros dro. Mae'r datgeliadau yn destun ymchwiliad annibynnol parhaus, wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru.

## Casgliadau cyffredinol

13 Ar y cyfan, mae ein gwaith wedi nodi nifer o bryderon sydd ar y cyd yn peryglu'n sylfaenol gallu'r bwrdd i weithio'n effeithiol ac mewn modd integredig i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

14 Yn ganolog i'n pryderon mae'r carfannau eglur a dwfn sy'n bodoli o fewn y Tîm Gweithredol, a'r bwrdd ehangach i raddau. Mae'r camweithrediad o fewn y Tîm Gweithredol yn gwbl amlwg i'r Aelodau Annibynnol ar y bwrdd. Mae hyn, ynghyd â phryderon am afael y Tîm Gweithredol ar heriau gweithredu ac ansawdd sicrwydd, wedi erydu ymddiriedaeth a hyder Aelodau Annibynnol yn y Tîm Gweithredol.

15 Yn wyneb pryderon cynyddol am yr anallu i fynd i'r afael â heriau perfformiad gwasanaethau, ansawdd a diogelwch hirhoedlog, cafwyd enghreifftiau o graffu cyhoeddus heriol iawn ar y weithrediaeth gan rai Aelodau Annibynnol. Mae'r rhain wedi cael effaith niweidiol ar gysylltiadau gwaith a gweithrediad o fewn y bwrdd, gan ymwreiddio holltau rhwng y weithrediaeth a'r Aelodau Annibynnol ymhellach. Mae gweithgareddau datblygu'r bwrdd wedi methu i raddau helaeth â datrys y rhain a thensiynau eraill a hwyluso gwaith bwrdd mwy integredig ac effeithiol.

16 Gwnaed datgeliadau gan aelodau staff yn cyflwyno pryderon amrywiol am brosesau busnes ac ymddygiadau rhai aelodau o'r bwrdd ar yr ochr weithredol ac ochr yr Aelodau Annibynnol. Mae'r rhain yn destun ymchwiliadau parhaus ar wahân y bydd angen eu dirwyn i ben yn gyflym ac yn eglur o ystyried yr effaith ddadsefydlogi y mae'r datgeliadau yn ei chael ar y Tîm Gweithredol a'r bwrdd ehangach.

17 Effeithiwyd parhad arweinyddiaeth a chyflymder newidiadau gan drosiant staff a newidiadau portffolio yn y Tîm Gweithredol. Mae'r sefydliad yn canfod ei hun heb Brif Weithredwr parhaol eto ac mae nifer o swyddi gweithredol eraill wedi'u llenwi ar sail dros dro hefyd. Mae dibyniaeth drom ar swyddi dros dro o fewn y strwythur uwch reolwyr ehangach yn dal yn amlwg ac yn dangos anawsterau parhaus yn sicrhau'r capasiti arweinyddiaeth uwch sydd ei angen ar y Bwrdd Iechyd.

18 Mae angen camau brys i fynd i'r afael â'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn ac i greu amgylchedd bwrdd a Thîm Gweithredol sy'n fwy cydlynol ac unedig o amgylch yr heriau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

19 Nodir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau uchod a negeseuon allweddol o dan y penawdau canlynol.

# Canfyddiadau

## Cysylltiadau gwaith o fewn y Tîm Gweithredol a'r bwrdd ehangach

**Canfuwyd holltau eglur a dwfn gennym o fewn y Tîm Gweithredol sy'n atal y tîm hwnnw rhag gweithio'n effeithiol. Mae pryderon ynghylch cyflymder gwelliant ac ansawdd sicrwydd gan swyddogion gweithredol hefyd wedi arwain i rai Aelodau Annibynnol graffu'n heriol iawn weithiau ar rai swyddogion gweithredol mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar gysylltiadau gwaith rhwng rhai Aelodau Annibynnol a rhywfaint o'r Tîm Gweithredol ac mae'n peryglu gallu'r bwrdd i weithio mewn modd cydlynol a chyfunol i fynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.**

**Mae angen cymryd camau brys i fynd i'r afael â yn a chreu diwylliant bwrdd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, gonestrwydd, a pherthynas o barch rhwng y weithrediaeth ac Aelodau Annibynnol.**

20 Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, derbyniodd Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a Llywodraeth Cymru gyfanswm o tua 20 o ddatgeliadau yn codi pryderon gweithle gan staff y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys rhai aelodau staff uwch. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar bryderon ynghylch rhai prosesau busnes ac ymddygiadau rhai arweinwyr uwch yn y Bwrdd Iechyd. Mae nifer a natur y datgeliadau yn awgrymu problemau sylweddol o ran cysylltiadau gwaith o fewn y Tîm Gweithredol a rhwng rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.

21 Gan fod y datgeliadau yn ymwneud ag ymddygiadau unigolion, nid yw'n briodol i'r Archwilydd Cyffredinol ymchwilio iddynt yn uniongyrchol. Sefydlwyd proses ar wahân i archwilio'r pryderon gyda chymorth Llywodraeth Cymru, sy'n parhau i fynd rhagddi.

22 Fodd bynnag, nododd ein cyfweliadau holltau eglur a dwfn o fewn Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn awgrymu camweithrediad a charfannau o fewn y tîm, ac nad yw'r tîm cyfan yn unedig o amgylch y Prif Weithredwr dros dro i fynd i'r afael yn gyfunol â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. O'r hyn a glywsom mewn cyfweliadau ac a welsom yng nghynnwys rhai o'r datgeliadau, mae gennym amheuon sylweddol ynghylch a oes modd trwsio cysylltiadau gwaith o fewn y tîm presennol.

23 Mae'r camweithrediad hwn wedi dod yn gynyddol amlwg yn y ffordd y mae cyfarfodydd wythnosol y Tîm Gweithredol yn gweithredu. Er bod gan y Bwrdd Iechyd nifer sylweddol a chynyddol o heriau i ymdrin â nhw, fe wnaeth cwmpas agendâu cyfarfodydd y Tîm Gweithredol leihau yn sylweddol rhwng mis Hydref 2022 a chanol mis Ionawr 2023, â lefelau amrywiol o ymgysylltiad gan aelodau'r Tîm Gweithredol. Mae agendâu cyfarfodydd wedi gwella ers hynny i adlewyrchu'n well yr heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, er bod lefelau presenoldeb yn dal i fod yn anghyson. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o gyfyngu gallu'r Tîm Gweithredol i

ddarparu cyfeiriad unedig a gytunir y mae ei angen ar gymaint o frys i ymateb i'r heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

24 Er bod cydnabyddiaeth eglur ymhlith y bwrdd yn ei gyfanrwydd bod angen cymryd camau brys i ddatrys yr heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, mae Aelodau Annibynnol yn arbennig wedi mynegi rhwystredigaeth bod cynnydd yn mynd i'r afael â'r rhain wedi bod yn araf, a hefyd gyda sicrwydd cadarnhaol camarweiniol y maent yn teimlo eu bod wedi ei dderbyn gan rai aelodau o'r Tîm Gweithredol mewn meysydd penodol.

25 Mae'r holltau o fewn y Tîm Gweithredol yn gwbl eglur i Aelodau Annibynnol ar y bwrdd, sy'n codi pryder am allu'r Tîm Gweithredol i gymryd gafael cyfunol o'r heriau dan sylw. Ar y llaw arall, nodwyd cydlyniant mwy amlwg gennym o fewn y corff o Aelodau Annibynnol ar y bwrdd.

26 Mae'r pryderon a'r rhwystredigaethau a gafwyd gan Aelodau Annibynnol wedi arwain at rywfaint o graffu cyhoeddus heriol iawn ar Gyfarwyddwyr Gweithredol gan Aelodau Annibynnol. Er bod rhai yn ystyried her o'r fath yn angenrheidiol, i eraill mae'n cynrychioli cam anghynorthwyol tuag at ddiwylliant bwrdd gelyniaethus a holgar â "chodi cywilydd cyhoeddus" ar unigolion mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor.

27 O ganlyniad i'r datgeliadau a wnaed o ran diwylliant ac ymddygiad, mae rhai Aelodau Annibynnol wedi'n hysbysu eu bod bellach yn teimlo'n wyliadwrus iawn o herio perfformiad gwael oherwydd y canlyniadau a allai ddilyn.

28 O ystyried maint y problemau, mae'n ddealladwy bod sawl aelod o'r bwrdd a gyfwelwyd gennym yn dangos arwyddion amlwg o drallod emosiynol, gan beri pryder i ni ynghylch eu llesiant. Mae angen cymryd camau brys i fynd i'r afael a'r sefyllfa hon.

## Cyflawni busnes mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor, ansawdd sicrwydd a chymorth ar gyfer trefniadau llywodraethu

**Er bod gweinyddiaeth barhaus resymol o gyfarfodydd, ceir angen brys i fynd i'r afael â rhai pryderon hirhoedlog ynghylch trefniadau sicrwydd mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor, gan gynnwys sicrhau safbwynt y cytunir arno ar lefel y risg y mae'r bwrdd yn barod i'w derbyn yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae angen cryfhau a sefydlogi trefniadau ynghylch Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd.**

29 Mae cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor y Bwrdd Iechyd fel rheol yn dangos "trefniadau gweinyddol" priodol. Caiff agendâu a phapurau eu cyhoeddi'n brydlon ar y cyfan, mae cyfarfodydd yn gwneud cworwm fel mater o drefn ac yn cynnwys tasgau gweinyddol allweddol fel adolygu a chymeradwyo cofnodion, adolygu a thrafod camau gweithredu a materion sy'n codi a cheir defnydd rhesymol o sesiynau cyhoeddus a phreifat y pwyllgorau a'r bwrdd.

30 Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailgyflwyno ei 'Grŵp y Cadeirydd', sy'n galluogi croesgyfeirio materion rhwng cymunedau ac yn osgoi ailadrodd gwaith. Er

bod cadeiryddion pwyllgorau yn darparu adroddiadau sicrwydd da i'r bwrdd, pan fydd pwyllgorau yn uwchgyfeirio materion i'r bwrdd, mae angen iddynt fod yn fwy eglur ynghylch y camau y maent yn disgwyl i'r bwrdd eu cymryd.

31 Tynnwyd sylw gennym yn yr adran flaenorol at rai pryderon sylweddol ynghylch y cysylltiadau gwaith o fewn y bwrdd gan gynnwys y rhai rhwng aelodau annibynnol a rhai aelodau o'r Tîm Gweithredol. Mae'n ymddangos bod nifer o ffactorau yn ysgogi ymddygiadau Aelodau Annibynnol a'u harddull o graffu a herio:

**Ansawdd papurau a gyflwynir i'r bwrdd a'i bwyllgorau**: Mae Aelodau Annibynnol wedi mynegi rhwystredigaeth yn gyhoeddus a thro ar ôl tro am ansawdd papurau a'r ffaith nad yw'r weithrediaeth wedi gallu datrys hyn. Rydym wedi gweld drwy ein gwaith bod papurau yn aml yn rhy hir, weithiau heb eu crynhoi'n dda, nad ydynt bob amser yn tynnu sylw at faterion yn ddigon eglur na'r hyn y mae angen iddo newid o ganlyniad. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi cyflwyno gweithdrefn weithredu safonol i gryfhau trefniadau ond mae angen iddo sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn briodol.

**Natur sicrwydd a roddwyd**: Fe'n gwnaed yn ymwybodol o sawl achos lle mae Aelodau Annibynnol yn teimlo bod ymatebion a sicrwydd a ddarparwyd gan y weithrediaeth naill ai wedi methu â chydnabod difrifoldeb y mater a oedd yn destun craffu, wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol yn anghywir, neu wedi methu â chyflawni camau y cytunwyd arnynt yn flaenorol mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor.

**Gwybodaeth swyddogion gweithredol am faterion sy'n cael ei harchwilio:** Dywedodd rhai Aelodau Annibynnol wrthym fod Cyfarwyddwyr Gweithredol weithiau wedi'u paratoi neu eu briffio'n annigonol ar gyfer cyfarfodydd a nodwyd eu bod yn cael mwy o sicrwydd pan fo cynrychiolwyr gwasanaethau hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd. Rydym yn nodi bod mwy o bresenoldeb uwch reolwyr lefel gwasanaeth mewn cyfarfodydd pwyllgor bellach, a ddylai helpu i roi sicrwydd uniongyrchol ac a fyddai hefyd, dros amser, yn galluogi'r uwch reolwyr sy'n paratoi adroddiadau i ddeall disgwyliadau aelodau pwyllgor yn well.

**Safbwynt wedi'i gytuno ar barodrwydd i dderbyn risg:** Mae ein gwaith maes wedi amlygu pryderon ynghylch gwahanol lefelau o barodrwydd i dderbyn risg sefydliadol rhwng rhywfaint o'r Tîm Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Mewn bwrdd unedig a chydlynol, byddai dull cyffredin ac wedi'i gytuno o'r parodrwydd i dderbyn risg a lefel y risgiau gwasanaeth a chlinigol y mae'r bwrdd yn barod i'w derbyn. Fodd bynnag, clywsom mewn cyfweliadau bod rhai rhannau o'r Weithrediaeth yn barod i fwrw ymlaen â lefelau uwch o risg gwasanaeth a chlinigol nag y mae Aelodau Annibynnol yn barod i'w derbyn.

32 Ar y cyd, mae'n ymddangos bod y materion hyn wedi erydu ymddiriedaeth a hyder Aelodau Annibynnol yng ngallu'r Tîm Gweithredol i ddangos y gafael gweithredol gofynnol ar yr heriau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae pryderon o'r fath yn ysgogi Aelodau Annibynnol i droi ar adegau at graffu heriol iawn ac uniongyrchol o aelodau'r Tîm Gweithredol a hefyd i ofyn am

wybodaeth gynyddol fanwl am faterion gweithredu ar draul neilltuo amser i drafodaethau mwy strategol.

33 Mae'r angen i Aelodau Annibynnol dderbyn y sicrwydd y maent yn ei geisio ar heriau gweithredu allweddol hefyd yn arwain at greu haenau ychwanegol o graffu yn achos pryderon yn ymwneud ag Ysbyty Glan Clwyd (YGC). Rhoddwyd trefniant "cabinet" ar waith i roi sicrwydd i'r bwrdd ar gynnydd y gwaith i fynd i'r afael â'r materion Ymyriad wedi'i Dargedu yn YGC. Mae hyn yn caniatáu her uniongyrchol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y problemau yn YGC gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd trwy gyfarfodydd cabinet rheolaidd. O ystyried natur y pryderon, mae'n amlwg bod angen craffu gofalus. Fodd bynnag, mae'r ffaith yr ystyriwyd bod angen haen ychwanegol o lywodraethu ar ben y trefniadau monitro Ymyriad wedi'i Dargedu presennol, a chyfarfodydd bwrdd a phwyllgor, yn dangos sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd o ran cael sicrwydd ar heriau gweithredu allweddol.

34 Ystyriaeth arall yw'r cyfrwng a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor ar hyn o bryd. Cynhaliwyd y rhain fel rhith-gyfarfodydd i raddau helaeth. Fodd bynnag, efallai nad dyma'r cyfrwng mwyaf ffafriol i fynd i'r afael â thrafodaethau anodd a heriol. Mae hefyd yn cyfyngu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a datblygu perthynas anffurfiol a fyddai fel arall yn digwydd mewn cyfarfodydd personol.

35 Yn gadarnhaol, mae'r bwrdd a'i bwyllgorau yn derbyn gwybodaeth fel mater o drefn am brofiadau cleifion a all helpu i ganolbwyntio neu ganoli'r drafodaeth ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd yn clywed straeon staff fel mater o drefn, a all gynnig adborth yr un mor rymus, yn enwedig pan fo straen mor sylweddol ar wasanaethau a staff ar hyn o bryd. Mae teithiau cerdded aelodau'r bwrdd wedi ailddechrau bellach a all fod yn ddull defnyddiol i ddeall pa mor dda mae gwasanaethau yn gweithredu a chanfod safbwyntiau staff. Canfu ein gwaith asesu strwythuredig bod aelodau annibynnol yn croesawu'r dull teithiau cerdded, ond mae ganddynt wahanol syniadau am eu diben, ac roedd rhai yn teimlo bod rhai ymweliadau wedi cael eu 'rheoli' i gynnig darlun mwy cadarnhaol o wasanaethau a safbwyntiau'r staff.

36 Mae gan Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd ran allweddol i'w chwarae o ran helpu'r aelodau gweithredol ac annibynnol i lywio eu ffordd drwy'r heriau a amlinellir uchod ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, bu cyfyngiadau capasiti yn y Swyddfa honno dros y flwyddyn ddiwethaf gyda swyddi gwag a dibyniaeth hirdymor ar drefniadau arweinyddiaeth dros dro. Mae angen datrys hyn fel mater o frys ac yn hynny o beth mae'n gadarnhaol nodi y cymeradwywyd papur yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2022.

## Y defnydd o weithgareddau datblygu'r bwrdd i gefnogi diwylliant bwrdd cadarnhaol a chydlynol.

**Nid yw'r bwrdd wedi gallu defnyddio'r rhaglen fwyaf diweddar o waith datblygu'r bwrdd yn llawn i ddatblygu'r dull mwy integredig ac effeithiol o weithio fel bwrdd sydd ei angen ar frys.**

37 Mae'n ymddangos bod y materion sy'n peri pryder y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn wedi bod ar eu ffordd ers amser maith ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio defnyddio gweithgareddau datblygu'r bwrdd i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau penodol y mae wedi eu hwynebu ar lefel y bwrdd. Yn y gwaith datblygu'r bwrdd diweddaraf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i'r King's Fund ddarparu rhaglen o waith yn cynnwys dau gontract yr ymgymerwyd â nhw rhwng 2019 a 2022[3]. Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaeth y King's Fund lunio adolygiad diwedd rhaglen o'r gwaith datblygu'r bwrdd yn cyflwyno ei fyfyrdodau ar y rhaglen ac i ba raddau yr oedd wedi bod yn llwyddiannus.

38 Mae'n ddiddorol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu'r King's Fund i gychwyn i gynnal ffrydiau gwaith ar wahân ar gyfer datblygiad Aelodau Annibynnol a'r Tîm Gweithredol. Nododd y King's Fund eu hunain bod hwn yn newid o ddulliau mwy traddodiadol o ddatblygu'r bwrdd sydd wedi'u seilio mwy ar ddull bwrdd cyfan, ac mae natur briff y King's Fund yn dangos yr heriau penodol sydd wedi bodoli yn y bwrdd.

39 Roedd ffrwd waith y Tîm Gweithredol yn canolbwyntio ar angen i greu tîm cydlynol a mynd i'r afael â charfannau sy'n dod i'r amlwg o fewn y tîm. I Aelodau Annibynnol, canolbwyntiodd y King's Fund ar archwilio'r cysylltiadau gwaith gyda'r Tîm Gweithredol, gan wella eu dulliau ar gyfer dwyn i gyfrif a chanolbwyntio ar ddatblygiad cyfunol ac unigol. Roedd pob cam o waith y King's Fund hefyd yn cynnwys sesiynau gweithdy bwrdd cyfan ochr yn ochr â'r ffrydiau gwaith ar wahân ar gyfer Aelodau Annibynnol a'r Tîm Gweithredol.

40 Fel asesiad cyffredinol, nododd y King's Fund bod y rhaglen datblygu'r bwrdd wedi bod yn rhannol lwyddiannus yn unig o ran hyrwyddo gweithio effeithiol ac integredig o fewn y bwrdd. Roedd y grŵp Aelodau Annibynnol yn ymddangos yn gydlynol, yn barod i ymgymryd â datblygiad ac yn agored i fyfyrio ar ymddygiadau a dulliau. Ar y llaw arall, dywedodd y King's Fund bod ymgysylltiad y Tîm Gweithredol yn fwy petrus, a bod y Tîm yn ymddangos yn gymharol ranedig a bod ymddiriedaeth yn y tîm yn gyffredinol isel.

41 Mae'n bwysig cydnabod bod gwaith y bwrdd gyda'r King's Fund wedi cyd-daro â'r heriau a'r pwysau sylweddol na ellid eu hosgoi a achoswyd gan bandemig COVID-19. Arweiniodd hyn at ohirio sesiynau datblygu'r Tîm Gweithredol yn angenrheidiol sawl gwaith. Fe wnaeth y newid i rith-weithio hefyd achosi heriau penodol ar gyfer gwaith datblygu'r bwrdd. Serch hynny, effeithiodd heriau eraill hefyd ar lwyddiant y

[3] Dechreuodd Contract 1 ym mis Gorffennaf 2019 a daeth i ben ym mis Rhagfyr 2020. Dechreuodd Contract 2 ym mis Gorffennaf 2021 a daeth i ben ym mis Gorffennaf 2022.

rhaglen fel trosiant staff a chysylltiadau gwaith wedi torri o fewn y Tîm Gweithredol a diffyg parhad yn swydd Ysgrifennydd y Bwrdd gyda'r olaf yn llesteirio gallu'r bwrdd i gydgrynhoi camau y cytunwyd arnynt ac alinio'r gwaith datblygu'r bwrdd gyda gweithgareddau gwella perthnasol eraill.

42 O ystyried y buddsoddiad yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi ei wneud yn natblygiad y bwrdd, mae'n peri pryder a siom nad yw'r nodau dymunol o weithio bwrdd mwy integredig ac effeithiol wedi cael ei bodloni. Dywedodd cyflogeion wrthym fod rhai agweddau ar y gwaith datblygu'r bwrdd yn gynorthwyol ac yn addysgiadol. Ond clywsom hefyd na wnaeth rhai sesiynau helpu'r bwrdd i symud ymlaen yn sylweddol. Hefyd, clywsom er y gwnaed ymrwymiadau da mewn rhai sesiynau, bod ymddygiadau yn dychwelyd i'r arfer rhwng sesiynau ac na symudwyd ymlaen â chamau y cytunwyd arnynt yn effeithiol y tu allan i'r sesiynau datblygu'r bwrdd.

43 Mae ein gwaith presennol wedi dangos bod llawer o'r pryderon a gymhellodd y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r King's Fund yn dal i'w gweld, ac wedi cael eu hymwreiddio ymhellach mewn rhai ffyrdd, gan nodi bod angen gwneud llawer o waith yn y gofod hwn o hyd. Er nad oeddent efallai'n adlewyrchu safbwyntiau pawb a gymerodd ran, mae myfyrdodau diwedd rhaglen y King's Fund yn gytbwys ac yn addysgiadol ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu defnyddio i lywio unrhyw waith datblygu'r bwrdd pellach a wneir.

## Capasiti'r Tîm Gweithredol ac uwch reolwyr

**Mae trosiant o fewn y Tîm Gweithredol wedi bod yn nodwedd gyson yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â gorddibyniaeth ar drefniadau dros dro ar gyfer swydd yn y strwythur rheoli uwch. Mae angen camau brys i symud i fodel staffio uwch mwy sefydlog a chynaliadwy, y mae'n rhaid iddynt gynnwys cyflymu cynlluniau i recriwtio Prif Weithredwr parhaol newydd a sicrhau bod y trefniadau ôl-lenwi angenrheidiol ar waith i gefnogi'r trefniadau dros dro presennol.**

44 Mae trosiant o fewn y Tîm Gweithredol wedi bod yn nodwedd yn y dirwedd arweinyddiaeth uwch yn y Bwrdd Iechyd ers cryn amser. Ers 2019, mae pedwar o wahanol unigolion wedi bod yn swydd y Prif Weithredwr naill ai ar sail barhaol neu dros dro, ac mae deiliad presennol y swydd yn ei gwneud ar sail dros dro am yr ail waith. Yn yr un cyfnod, bu pedwar o wahanol Gyfarwyddwyr Meddygol, pump newid arall i bersonél y Tîm Gweithredol, newidiadau i swyddogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd a newidiadau i bortffolios gweithredu Cyfarwyddwyr Gweithredol unigol. Hefyd, bu angen yn ddiweddar i'r Bwrdd Iechyd sicrhau gwasanaethau Cyfarwyddwr Cyllid dros dro ar ôl i ddeiliad parhaol y swydd gael caniatâd i fod yn absennol tra bod pryderon yn gysylltiedig â chyfrifon 2021-22 gael eu hymchwilio'n llawn.

45 Mae'r trosiant sylweddol a nodir uchod wedi creu heriau o ran capasiti a pharhad arweinyddiaeth weithredol a chyflymder newid. Mae hefyd wedi cyfrannu'n rhannol at ddibyniaeth barhaus y Bwrdd Iechyd ar benodiadau dros dro yn ei strwythur rheoli uwch. Er y codwyd hyn fel testun pryder yn flaenorol, mae defnydd y Bwrdd

Iechyd o benodiadau o'r fath wedi cynyddu, yn rhannol gysylltiedig â gweithrediad model gweithredu newydd y Bwrdd Iechyd. O ran yr olaf, clywsom bryderon am yr amser y mae wedi ei gymryd i symud i weithrediad a'r golled gysylltiedig o brofiad a gwybodaeth yn dilyn ymadawiadau staff drwy'r cynllun rhyddhad cynnar gwirfoddol ac ymddeoliad.

46 Mae ymadawiad y Prif Weithredwr parhaol, a'r penodiadau dros dro y mae hyn wedi eu gwneud yn angenrheidiol yn creu heriau uniongyrchol pellach o ran sefydlogrwydd a pharhad arweinyddiaeth. Mae rhai aelodau o'r Tîm Gweithredol sydd wedi camu i fyny i swyddi dros dro ochr yn ochr â'u swyddi parhaol hefyd yn meddu ar bortffolios cyfrifoldebau anghynaliadwy o fawr, sy'n creu risgiau o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

47 Ar hyn o bryd, mae swyddi'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol[4] a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd Gweithredol i gyd yn destun trefniadau dros dro. Hefyd, ceir defnydd sylweddol o weithwyr asiantaeth uwch dros dro yn bron i bob maes gwasanaeth lle ceir pryderon parhaus sylweddol gan gynnwys:

- Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol (y bu sawl penodiad dros dro ar ei gyfer dros y tair blynedd diwethaf)
- Gwella'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio
- Gwella'r rhaglen gofal heb ei drefnu
- Swyddi uwch yn y strwythur cymuned iechyd integredig newydd
- Gwasanaethau fasgwlaidd
- Gwasanaethau iechyd meddwl.

48 Ar gyfer rhai o'r swyddi uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio denu arbenigedd o fath ymgynghorydd rheoli penodol i ddarparu set wybodaeth a sgiliau y gallai gael trafferth yn ei ddenu fel arall trwy ymarferion recriwtio parhaol. Mae dod ag arbenigedd arbenigol dros dro i mewn i feysydd fel gwasanaethau fasgwlaidd yn amlwg yn rhan o raglen angenrheidiol o ymyriad wedi'i dargedu ac adfer gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd symud ar frys i sefyllfa lle mae'n llai dibynnol ar benodiadau dros dro mewn swyddi arweinyddiaeth sefydliadol allweddol. Clywsom yn ystod ein gwaith maes bryderon nad yw recriwtio yn ddigon prydlon ac nad yw cynllunio olyniaeth a datblygu arweinyddiaeth yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol o'r tu mewn.

49 Roedd hefyd yn peri pryder i ni glywed nad yw'r broses benodi ar gyfer rhai penodiadau dros dro uchel iawn wedi cydymffurfio'n llawn â pholisi'r Bwrdd Iechyd. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn i archwilio'r pryderon hyn yn fanwl, bydd y bwrdd angen sicrwydd bod trefniadau ar gyfer penodi i swyddi dros dro yn

[4] Penododd y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr Cyllid Gweithredol dros dro ym mis Rhagfyr 2022.

cydymffurfio'n llawn â'r gofynion polisi a chaffael angenrheidiol a bod swyddogaethau, cyfrifoldebau ac awdurdodau deiliaid swyddi o'r fath wedi'u deall yn eglur gan bob parti.

50 Mae recriwtio Prif Weithredwr parhaol â'r set sgiliau briodol i helpu i weddnewid y sefydliad yn amlwg yn hollbwysig nawr. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf i drefnu'r broses recriwtio. Er bod y Prif Weithredwr parhaol blaenorol wedi cyhoeddi ei bwriad i adael y sefydliad ar ddechrau mis Medi 2022. Dim ond ym mis Rhagfyr 2022 y lluniwyd y rhestr fer derfynol ar gyfer contractio partner recriwtio, ac ni fydd y broses recriwtio ei hun yn dechrau o ddifrif tan fis Chwefror 2023. Hyd yn oed o gymryd cyfnod y Nadolig i ystyriaeth, mae'n syndod nad oedd mwy o frys yn trefnu'r broses recriwtio o ystyried bod proses ragarweiniol hirfaith yn nodweddiadol wrth benodi Prif Weithredwr newydd. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflymu cynlluniau nawr i recriwtio Prif Weithredwr parhaol fel mater o frys ac rydym yn deall bod cynnydd yn cael ei wneud yn hynny o beth.

51 Rydym hefyd yn bryderus ynghylch y sefydlogrwydd yn y Gyfarwyddiaeth Gyllid. O ganlyniad i'n harchwiliad ariannol a'r adolygiad dilynol gan Ernst Young, mae nifer o staff uwch yn y Gyfarwyddiaeth Gyllid wedi cael caniataid i fod yn absennol. Mae gwaith pellach ar y gweill ar hyn o bryd gan Wasanaeth Gwrth-dwyll y GIG Cymru, a gallai hwn gymryd amser i'w gwblhau, gan adael yr arweinyddiaeth uwch yn y tîm cyllid wedi'i gwanhau yn sylweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro yn ddiweddar. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd weithredu ar frys i atgyfnerthu capasiti staff uwch eraill yn y Tîm Cyllid i liniaru'r effaith ar barhad busnes. Hefyd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn ymateb yn effeithiol i'r materion sy'n codi yn ein hadroddiad Archwiliad o Gyfrifon ar gyfer 2021-22 yn rhan o baratoi cyfrifon 2022-23, y canfyddiadau o adolygiad Ernst Young, a chanfyddiadau o unrhyw adrodd gwrth-dwyll cysylltiedig.

## Trefniadau atebolrwydd am berfformiad

**Mae angen cymryd camau parhaus i sicrhau bod trefniadau atebolrwydd yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau a threfniadau corfforaethol**

52 Canfu ein hadolygiad bod Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd wedi codi pryderon ynghylch pennu amcanion ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol, gan nodi fod anghydbwysedd o ran amcanion ar draws y tîm, pwyslais annigonol ar ganlyniadau a chysylltiadau annigonol rhwng amcanion Gweithredol a blaenoriaethau corfforaethol. Roedd pryder hefyd ynghylch a ellid defnyddio'r amcanion yn effeithiol i reoli perfformiad o ran tanddarpariaeth.

53 Rydym yn deall bod cynnydd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Er gwaethaf hynny, mae hwn yn faes y bydd angen cadw llygad agos arno o gofio y bu gwaethygiad i'r sefyllfa ariannol, gwaethygiad i berfformiad sefydliadol a phryderon parhaus ynghylch ansawdd gwasanaethau mewn rhai meysydd penodol

yn ystod y flwyddyn ddiwethaf[5]. Gan dderbyn y bydd llawer o ffactorau yn cyfrannu at yr heriau hyn, mae angen i'r bwrdd gael sicrwydd bod dulliau atebolrwydd am berfformiad ar lefel weithredol, yn gyfunol ac yn unigol, yn ysgogi'r gwelliannau sydd eu hangen yn effeithiol.

54 Yn fwy eang, mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi dynodi bod angen cryfhau trefniadau atebolrwydd am berfformiad sefydliadol hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio cyfarfodydd atebolrwydd yn rhan o'i drefniadau rheoli perfformiad i oruchwylio cynnydd a darparu her o ran perfformiad. Bu anghysondeb o ran dull ac amlder y cyfarfodydd hyn dros y 18 mis diwethaf a gohiriwyd cyfarfodydd atebolrwydd o fis Tachwedd 2021 ac, rydym yn deall, ni chawsant eu hailgyflwyno tan fis Mehefin 2022.

## Sylwadau i gloi a meysydd ar gyfer gweithredu ar unwaith

55 Mae'r adroddiad lefel uchel hwn yn disgrifio lefel o gamweithrediad o fewn y Bwrdd ac uwch arweinyddiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n peri pryder mawr. Daw ar adeg pan fo'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau digynsail o ran y gofynion ar ei wasanaethau ar yr un pryder â phryderon hirhoedlog am berfformiad, ansawdd a diogelwch nifer o wasanaethau penodol.

56 Yng nghyd-destun heriau o'r fath, mae'r Bwrdd Iechyd angen i arweinwyr uwch ar ei ffwrdd ac aelodau ei Dîm Gweithredol yn arbennig, ddangos dull unedig a chydlynol sy'n ysgogi'r camau gweithredu ar unwaith a thymor hwy sy'n angenrheidiol. Bydd hyn yn hanfodol os yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd i wneud defnydd effeithiol o'r symiau sylweddol o gymorth cyllid strategol y mae wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru yn rhan o fframwaith Ymyriad wedi'i Dargedu. Mae angen adeiladu cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau Annibynnol a'r Tîm Gweithredol ar barch, ymddiriedaeth, gonestrwydd, atebolrwydd eglur a her adeiladol. Mae angen hefyd iddynt gael eu gwreiddio mewn cytundeb eglur ar lefel y risg y mae'r bwrdd yn barod i'w dderbyn o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

57 Ar hyn o bryd, mae gan y bwrdd lawer i'w wneud cyn y gall ddangos y priodoleddau a amlinellir uchod. Mae angen datrys holltau dwf o fewn y Tîm Gweithredol ac ail-adeiladu ymddiriedaeth rhwng yr Aelodau Annibynnol a'r Tîm Gweithredol. Mae recriwtio Prif Weithredwr parhaol â'r set sgiliau a'r profiad cywir yn mynd i fod yn hollbwysig ac mae angen cyflymu hyn ynghyd â dull o gynllunio'r gweithlu uwch sy'n rhoi llai i ddibyniaeth ar benodiadau dros dro.

58 Mae'n amheus y gall y Bwrdd Iechyd wneud y gwelliannau angenrheidiol heb ymyrraeth allanol a bydd angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd presennol i gefnogi'r gwelliannau brys sydd eu hangen.

[5] Gan nodi bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn dyraniad ychwanegol o £82 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd yn rhan o gyllid ymyriad wedi'i dargedu.

Wrth wneud hynny, bydd angen ystyried y canfyddiadau o’r adolygiad hwn ochr yn ochr â rhai adolygiadau eraill mewn ymateb i bryderon difrifol, ac a allai arwain at gamau penodol ynddynt eu hunain.

59 Rydym yn nodi yn yr adran isod y meysydd allweddol lle mae angen cymryd camau brys i fynd i’r afael â rhai o’r heriau sylfaenol y mae ein gwaith wedi eu nodi.

## Meysydd ar gyfer gweithredu ar unwaith

60 Nodir nifer o feysydd ar gyfer gweithredu ar unwaith isod yn **Arddangosyn 1**. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i’r rhain wedi’i gynnwys yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: meysydd ar gyfer gweithredu ar unwaith**

**Ymateb i adolygiadau ac ymchwiliadau annibynnol**

- Cymryd y camau angenrheidiol mewn ymateb i’r canfyddiadau o’r ymchwiliadau i ddatgeliadau chwythu’r chwiban sy’n ymwneud â Chyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch reolwyr (gan nodi y byddai unrhyw gamau o ran pryderon am Aelodau Annibynnol yn faterion i’r Gweinidog).
- Datrys yn gyflym unrhyw faterion sy’n deillio o adolygiad Ernst Young.
- Cefnogi’n llawn unrhyw ymchwiliadau y mae angen i’r Gwasanaeth Gwrth-dwyll Cenedlaethol eu cynnal mewn ymateb i archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o gyfrifon 2021/22 ac adolygiad dilynol Ernst Young.

**Ail-adeiladu a chryfhau capasiti arweinyddiaeth uwch**

- Cyflymu cynlluniau i recriwtio Prif Swyddog Gweithredol parhaol fel mater o frys.
- Adolygu’n feirniadol y defnydd o benodiadau uwch dros dro ac ymgynghorwyr rheoli gyda’r nod o leihau dibyniaeth ar benodiadau o’r fath o fewn y strwythurau arweinyddiaeth uwch.
- Gweithredu ar frys i atgyfnerthu capasiti staff uwch yn y Tîm Cyllid i liniaru’r effaith ar barhad busnes.

**Creu bwrdd a Thîm Gweithredol mwy cydlynol ac effeithiol**

Cymryd camau brys i greu dull mwy colegol ac unedig o arwain y sefydliad, sy’n cynnwys:

- Trwsio / mynd i’r afael â’r cysylltiadau gwaith o fewn y Tîm Gweithredol.
- Sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn deall y pryderon sydd gan Aelodau Annibynnol ynghylch perfformiad a sicrwydd a dderbyniwyd, gan gynnwys materion yn ymwneud ag ansawdd papurau a gyflwynwyd i’r bwrdd a’i bwyllgorau.
- Sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn deall pryderon y tîm Gweithredol am effaith herio rhy gryf, gyda’r nod o symud i ddull arweinyddiaeth ‘cefnogaeth uchel a her uchel’.

- Sefydlu lefel a gytunwyd o barodrwydd i dderbyn risg rhwng Swyddogion Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.
- Sefydlu amgylchedd a diwylliant gwaith yn y Bwrdd a'i bwyllgorau sy'n hybu tryloywder ac yn cynnal y cydbwysedd cywir rhwng craffu, her a chefnogaeth, gan adlewyrchu gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig y sefydliad.
- Defnyddio hwyluswyr a chyfryngwyr allanol priodol i weithio drwy'r materion uchod yn rhan o raglen datblygu'r bwrdd ehangach wedi'i hysbysu gan fyfyrdodau'r King's Fund ar y rhaglen datblygu'r bwrdd flaenorol.
- Alinio portffolios Aelodau Annibynnol â phortffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol i gynorthwyo rhannu gwybodaeth.

# Atodiad 1

## Dull archwilio

Mae **Arddangosyn 2** yn cyflwyno'r dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer cyflawni ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd yn y Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 2: dull archwilio**

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Arsylwyd cyfarfodydd y canlynol gennym:<br>• Y Bwrdd, Awst 2022, Tachwedd 2022, Ionawr 2023.<br>• Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, Rhagfyr 2022, Ionawr 2023.<br>• Y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth, Ionawr 2023.<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, Ionawr 2023.<br>• Y Pwyllgor Archwilio, Ionawr 2023. |
| Dogfennau | Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau gennym, gan gynnwys:<br>• Agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau.<br>• Agendâu'r Tîm Rheoli Gweithredol.<br>• Adolygiad diwedd rhaglen y King's Fund.<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Cyfwelwyd pob aelod o'r Bwrdd gennym yn unigol. Roedd hyn yn cynnwys pob Aelod Annibynnol a Swyddog Gweithredol.<br>Hefyd, cyfwelwyd y Cyfarwyddwyr y Cymunedau Iechyd Integredig ar gyfer y tri rhanbarth: dwyrain, canol a gorllewin. |
| Asesiad strwythuredig 2022 | Manteisiwyd yn briodol gennym ar waith a wnaed eisoes yn rhan o asesiad strwythuredig 2022 yr Archwilydd Cyffredinol yn y Bwrdd Iechyd. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynhwysiant digidol yng Nghymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mawrth 2023



Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ei gyflwyno i'r Senedd dan Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cefndir | 6 |
| Pam fod cynhwysiant digidol yn bwysig | 8 |
| Data ar gynhwysiant digidol – bylchau a heriau | 11 |
| Data ar gynhwysiant digidol – beth mae’r data’n ei ddangos? | 13 |
| Profiadau pobl o gynhwysiant ac allgau digidol | 17 |
| Y strategaeth genedlaethol ar gynhwysiant digidol | 18 |
| Gwella seilwaith digidol | 23 |
| Atodiad 1 – Am ein gwaith | 28 |
| Atodiad 2 – Beth ddywedodd pobl wrthym am eu profiadau o gynhwysiant a gwaharddiad digidol | 30 |

# Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg lefel-uchel o faterion sy'n berthnasol i gynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae cynhwysiant digidol yn gymhleth, ac nid yw ein hadroddiad wedi'i fwriadu i fod yn gynhwysfawr. Rydym yn crynhoi terminoleg, data allweddol ac ymyriadau yng Nghymru. Mae **Atodiad 1** yn rhoi mwy o wybodaeth am ein gwaith. Rydym hefyd wedi cyhoeddi dogfen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn sy'n nodi cwestiynau i gyrff cyhoeddus eu gofyn iddynt hwy eu hunain wrth iddynt ystyried eu hymagwedd at gynhwysiant digidol.

2 Yn gryno, mae ein hadroddiad yn amlygu'r canlynol:

- **Mae 7% o oedolion yng Nghymru 'wedi'u hallgau'n ddigidol'**, sy'n golygu nad ydynt hwy'n bersonol wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis blaenorol.[1]
- Mae canran yr aelwydydd â **mynediad at y rhyngrwyd wedi cynyddu'n gyson ers 2012** ond mae rhai grwpiau mewn cymdeithas yn fwy tebygol o fod wedi'u hallgau.
- Er bod digon o ddata i awgrymu tueddiadau lefel-uchel, **ceir bylchau yn y data** sy'n ei gwneud yn anodd rhoi darlun cyflawn a chael dealltwriaeth am 'brofiad personol' pobl sydd wedi'u hallgau.
- Mae cynhwysiant digidol yn **gymhleth ac nid dim ond mater o fynediad at dechnoleg ydyw**. Nid dim ond mater sy'n ymwneud â natur wledig ac nid dim ond mater i bobl hŷn ydyw. Hyd yn oed pan fo gan bobl fynediad a sgiliau digidol, efallai y bydd hi'n dal yn well gan rai pobl gael mynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb.
- Ceir tuedd o ran cyrff cyhoeddus yn symud rhai o'u gwasanaethau ar-lein, sy'n cynnig nifer o fanteision posibl ond sydd hefyd yn dwyn **risg y bydd pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol dan anfantais**.
- Er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am seilwaith digidol ledled y DU, **mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mewn seilwaith band eang**.
- **Mae gan Lywodraeth Cymru genhadaeth benodol mewn perthynas â chynhwysiant digidol** ac mae'n buddsoddi mewn prosiectau cynhwysiant digidol.

1 Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021-22. Diffinnir oedolion fel pobl 16 oed a throsodd.

> Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n helaeth mewn gwella seilwaith band eang ac mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos pa mor ddibynnol yw nifer ohonom bellach ar fynediad o ansawdd da at y rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae angen taro cydbwysedd rhwng gwariant ar seilwaith ar y naill law a gwaith i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol allgau digidol ar y llaw arall i reoli'r risg o greu cymdeithas ac iddi ddwy haen lle mae mynediad at wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau eraill yn y cwestiwn.
>
> Rydym wedi cyhoeddi dogfen cwestiynau allweddol ochr yn ochr â'r adroddiad hwn i helpu cyrff cyhoeddus i fyfyrio ynghylch ei hymagwedd at gynhwysiant digidol.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cefndir

3 Mae **Arddangosyn 1** yn diffinio termau a ddefnyddir yn ein hadroddiad. Mae ein gwaith yn dilyn nifer o adroddiadau eraill a oedd yn gysylltiedig â chynhwysiant, seilwaith a chysylltedd digidol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, ein hadroddiad yn 2015 ar gytundeb Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru gyda BT[2], adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn 2020 ar strategaeth seilwaith digidol[3], ac adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar gysylltedd digidol yn 2022.[4]

**Arddangosyn 1: diffiniadau o dermau allweddol**



Mae **'digidol'** yn derm sy'n disgrifio gweithgareddau ar y rhyngrwyd neu gan ddefnyddio technoleg er enghraifft e-bostio, siopa ar y we neu drefnu apwyntiad ar-lein.



Mae **allgau digidol** yn disgrifio'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu pan nad oes ganddynt fynediad, sgiliau neu hyder i ddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Cynhwysiant digidol** yw'r gwrthwyneb i allgau digidol. Mae cael eich cynnwys yn ddigidol yn golygu bod yn fodlon defnyddio a gallu defnyddio offer neu wasanaethau digidol yn annibynnol.



Mae **cyflymder rhyngrwyd** yn un o'r mesurau allweddol wrth ystyried pa mor effeithiol ac addas yw mynediad at y rhyngrwyd i ddefnyddwyr. Po fwyaf fo'r cyflymder, po fwyaf o ddefnyddwyr a gweithgareddau all ddefnyddio'r cysylltiad hwnnw â'r rhyngrwyd ar yr un pryd.

**Cyflymder lanlwytho:** Pa mor gyflym y mae gwybodaeth yn symud o'ch dyfais (ffôn neu gyfrifiadur) i'r rhyngrwyd. Er enghraifft, lanlwytho dogfen i'w hanfon mewn neges e-bost.

**Cyflymder lawrlwytho**: Pa mor gyflym y mae gwybodaeth yn symud o'r rhyngrwyd i'ch dyfais. Er enghraifft, llwytho tudalen siopa ar y we neu wylio ffilm ar eich llechen neu gyfrifiadur.


**Megabits per second (Mbps):** Caiff cyflymder cysylltiad â'r rhyngrwyd ei fesur mewn megadid yr eiliad. Hwn yw'r mesur safonol ar gyfer pa mor gyflym mae gwybodaeth yn symud dros y rhyngrwyd i'ch dyfa**is.**

2 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, Mai 2015

3 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru, Rhagfyr 2020

4 Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, Cysylltedd digidol – band eang, Awst 2022

## Arddangosyn 1: diffiniadau o dermau allweddol



Ffordd o gysylltu â'r rhyngrwyd yw **band eang**, yr ystyrir ei bod yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy ar y cyfan na chysylltiadau hŷn â'r rhyngrwyd. Mae'r canlynol yn disgrifio mathau o fand eang:

- **Llinell Danysgrifio Ddigidol Anghymesur (ADSL).** Fe'i defnyddiwyd gan mwyaf yn nyddiau cynharach y rhyngrwyd. Mae'n defnyddio llinellau ffôn copr. Gan ddibynnu ar y llinell, gall cyflymderau ADSL fod oddeutu 1-8 Mbps.
- **Cysylltiadau band eang trwy linellau ffeibr optig**. Gall ffeibr gael ei ddefnyddio ar gyfer y llinell gyfan (ffeibr llawn) neu ran o'r llinell ochr yn ochr â chopr. Mae'n gyflymach ac yn fwy dibynadwy nag ADSL.
- Nid oes un dehongliad o **fand eang cyflym iawn** ond mae'n awgrymu mynediad cyflymach at y rhyngrwyd nag ADSL. Gall olygu ffeibr llawn neu ffeibr rhannol trwy geblau ffeibr. Mae corff rheoleiddio telathrebu'r DU, Ofcom, a Llywodraeth Cymru'n diffinio band eang cyflym iawn fel band eang â chyflymder o 30 Mbps o leiaf.
- Mae Ofcom yn diffinio **gwibgyswllt** fel band eang â chyflymderau lawrlwytho sy'n fwy na 300 Mbps.
- Mae band eang **gigadid** yn disgrifio cysylltiad â'r rhyngrwyd rhyngrwyd sy'n gallu darparu cyflymderau o 1 gigadid yr eiliad (Gbps). Mae 1 Gbps yn hafal i 1,000 Mbps.



Mae **mynediad symudol at y rhyngrwyd** yn ffordd arall y gall pobl gael mynediad at y rhyngrwyd. Gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â band eang neu fel dewis yn lle band eang. Enghraifft o fynediad symudol at y rhyngrwyd yw defnyddio ffôn clyfar 4G.

**2G/3G/4G/5G**: Mae'r termau hyn sydd wedi'u rhifo'n disgrifio 'cenedlaethau' datblygol o dechnoleg cyfathrebu symudol. 2G oedd y dechnoleg wreiddiol ar gyfer ffonau symudol i alluogi pobl i wneud galwadau ac anfon negeseuon testun. Fe wnaeth 3G ychwanegu'r opsiwn i gael mynediad at y rhyngrwyd. Mae 4G a 5G yn defnyddio technoleg signal radio debyg, ond gall y cenedlaethau mwy newydd hyn ddarparu cysylltiadau cyflymach â'r rhyngrwyd.



Mae **technoleg** lloeren yn ffordd arall y gall pobl gael mynediad at y rhyngrwyd. Gall mynediad band eang sy'n gysylltiedig â lloeren gael ei ddefnyddio gan fusnesau neu unigolion, a gall fod yn addas yn arbennig ar gyfer lleoliadau mwy pellennig.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Pam fod cynhwysiant digidol yn bwysig

4 Mae’r rhyngrwyd wedi newid llawer o’n tasgau beunyddiol. Cafodd manteision defnyddio’r rhyngrwyd eu hamlygu pan oedd pandemig Covid-19 ar ei anterth gyda llawer o bobl yn dibynnu’n helaeth ar wasanaethau a oedd yn seiliedig ar y rhyngrwyd. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos sut y gall pobl gael budd.

**Arddangosyn 2: manteision defnyddio’r rhyngrwyd**

‘Rwy’n gallu cysylltu â theulu, ffrindiau a chymunedau’

‘Rwy’n gallu gweithio gartref’

‘Rwy’n gallu defnyddio’r rhyngrwyd i gael mynediad at gyfleoedd ymchwil, dysgu neu addysg’

‘Rwy’n gallu cael mynediad at fusnesau ar-lein a/neu mae fy musnes i’n gallu cyrraedd mwy o bobl’

‘Mae gwasanaeth-au a sefydliadau cyhoeddus yn gallu rhannu a/neu gasglu gwybodaeth ar-lein’

‘Rwy’n gallu archebu gwasanaeth-au neu dalu amdanynt ar-lein’

‘Rwy’n gallu ceisio dod o hyd i’r cynnig gorau neu gael mynediad at ystod ehangach o ddewisiadau’

‘Rwy’n gallu cael mynediad at ddiddordebau, a gweithgar-eddau diwylliannol a hamdden’


Ffynhonnell: Archwilio Cymru

5 Mae cynhwysiant digidol yn bwysig yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus yn ‘digideiddio’. Mae hyn yn golygu symud gwasanaethau ar-lein a/neu ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau. Mae enghreifftiau’n cynnwys ystafelloedd dosbarth rhithwir, cadw cofnodion ar-lein a ffurflenni ar-lein i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. I’r holl sefydliadau a sectorau sy’n ‘digideiddio’ gwasanaethau, mae risg gynhenid y gallai anghenion pobl sydd wedi’u hallgau’n ddigidol gael eu hanwybyddu.

6 Fe amlygodd ein hadroddiad diweddar ar Dlodi yng Nghymru fod symud gwasanaethau ar-lein yn dal i dyfu mewn pwysigrwydd i gynghorau, ond bod allgau digidol yn dal i fod yn her fawr, yn enwedig i bobl sy’n profi neu’n byw mewn tlodi.[5] Canfuom fod y rhan fwyaf o gynghorau Cymru’n cydnabod problem allgau digidol, gydag 14 o’r 22 wedi mabwysiadu strategaeth ddigidol a llawer o’r rhain yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â chynhwysiant digidol. Fodd bynnag, dim ond 12 cyngor oedd yn rhoi mynediad i bobl at raglen cynhwysiant sgiliau digidol.

7 Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi’r prif resymau pam fod pobl wedi’u hallgau’n ddigidol. Gall allgau digidol fod yn broblem go iawn, i unigolion ac i gyrff cyhoeddus. Gall ei gwneud yn anos cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, teulu a sefydliadau. Gall olygu bod pobl yn peidio â chael gwybodaeth allweddol gan gyrff cyhoeddus. A gall olygu bod pobl yn colli’r cyfle i fanteisio ar nwyddau a gwasanaethau rhatach a gynigir ar-lein.[6]

**Arddangosyn 3: y prif resymau dros allgau digidol**



**Seilwaith digidol ddim ar gael**

- I fynd ar-lein a chael mynediad at y rhyngrwyd, mae ar bobl angen i seilwaith band eang neu symudol fod ar gael.
- Mae angen i’r seilwaith ddarparu cyflymderau rhyngrwyd digonol ar gyfer defnydd pob dydd.




**Methu â fforddio bod yn ddigidol**

- Ceir pobl nad ydynt yn gallu fforddio dyfeisiau electronig, digon o ddata a/neu gontractau band eang/symudol.
- Mae costau byw cynyddol yn creu risg o allgau mwy o bobl sy’n methu â fforddio dyfeisiau digidol neu gostau rhyngrwyd parhaus.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Amser am newid – Tlodi yng Nghymru, Tachwedd 2022

6 Good Things Foundation, The economic impact of digital inclusion in the UK, Gorffennaf 2022. Elusen cynhwysiant digidol yn y DU yw Good Things Foundation.

### Arddangosyn 3: y prif resymau dros allgau digidol




#### Diffyg sgiliau digidol sylfaenol

- Mae gan rai pobl ddiffyg sgiliau, cymhelliant a hyder i ddefnyddio’r rhyngrwyd.
- Mae ar bobl angen gwybod sut i ddod o hyd i gymorth, hyfforddiant neu gyfleoedd dysgu i ddatblygu eu sgiliau digidol.



#### Hygyrchedd, defnyddiadwyedd ac iaith

- Mae rhai pobl wedi’u hallgau am bod arnynt angen cymorth ychwanegol neu ddatrysiadau gwahanol i’w helpu i ddefnyddio technoleg a chael mynediad ati.
- Mae angen i bobl allu cael mynediad at dechnoleg gan ddefnyddio’u dewis iaith, gan gynnwys y Gymraeg.
- Mae enghreifftiau o offer i gefnogi hygyrchedd yn cynnwys darllenyddion testun-i-lais, gwasanaethau cyfieithu, ffontiau mwy a thechnolegau cynorthwyol eraill.



#### Mae rhai pobl yn dewis peidio â defnyddio gwasanaethau digidol

- Efallai y bydd gan rai pobl y mynediad a’r sgiliau ond y byddant o bryd i’w gilydd yn dewis peidio â defnyddio gwasanaethau digidol ac yn dewis cael mynediad at wasanaethau yn y cnawd.
- Bydd wastad rai pobl y mae’n well ganddynt beidio â chael eu cynnwys yn ddigidol, a’u dewis hwy yw hynny wrth gwrs. Nid yw hyn yn golygu eu bod wedi’u hallgau’n ddigidol o anghenraid, ond o ddewis nid ydynt wedi’u cynnwys yn ddigidol.



#### Gall diogelwch ar-lein fod yn rhwystr

- Gallai rhai pobl fod wedi’u hallgau am nad ydynt yn teimlo’u bod yn gallu neu’n hyderus i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein oherwydd gofidiau ynghylch materion diogelwch personol a diogelwch eiddo ar-lein.
- Gallai diogelwch ar-lein fel rhwystr fod yn gysylltiedig â fforddiadwyedd technoleg ddiogel.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Data ar gynhwysiant digidol – bylchau a heriau

8 Mae **Arddangosion 4**, **5**, **6** a **7** yn crynhoi data allweddol am gynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae peth o'r data'n canolbwyntio ar fynediad at seilwaith digidol a thelathrebu, tra bo Arolwg Cenedlaethol Cymru'n darparu data ynghylch pa un a yw pobl yn bersonol wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis blaenorol.[7] Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau gyda'r data hwn. Er enghraifft, mae'r data'n dibynnu ar hunanasesiad a diffiniad amherffaith o rywun yr ystyrir eu bod wedi'u cynnwys yn ddigidol os ydynt hwy'n bersonol wedi defnyddio'r rhyngrwyd unwaith yn y tri mis diwethaf. Serch hynny, gyda'r un cwestiwn yn cael ei ofyn dros amser, mae'r data'n dal i fod yn ddefnyddiol o ran dangos tueddiadau

9 Mae Ofcom[8] yn adrodd ar ddata a gwybodaeth am safleoedd sy'n gallu cael mynediad at rwydwaith band eang neu symudol yn ogystal â pheth data am gyfraddau defnyddio band eang ffeibr llawn a chyflym iawn.[9] Mae'r data yma'n helpu i ddarparu gwybodaeth allweddol am safleoedd yn y wlad sy'n gallu cael mynediad at wasanaethau rhyngrwyd a chwmpas rhwydweithiau band eang. Fodd bynnag, nid yw'r data yma ar ei ben ei hun yn darparu darlun cyflawn i ddynodi pa un a yw safleoedd ac unigolion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd o'r seilwaith digidol sydd ar gael.

10 Er bod y data'n awgrymu bod gan y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru fynediad at y rhyngrwyd, gall y realiti ar lawr gwlad i bobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd fod yn amrywiol tu hwnt. Gall fod terfynau data ar becynnau ffôn, terfynau lawrlwytho ar rai contractau band eang neu gysylltiadau ansefydlog. Gall pwysau costau byw fod yn gorfodi pobl hefyd i fyfyrio ynghylch fforddiadwyedd eu trefniadau cyfredol ar gyfer cael mynediad at y rhyngrwyd. Mae adborth a goladwyd gennym ni am brofiadau pobl o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn amlygu materion cysylltedd hyd yn oed pan fo gan gartrefi fynediad. Er enghraifft, disgrifiodd un unigolyn sefyllfa sy'n golygu 'pan ydym yn defnyddio'r rhyngrwyd mae'n colli cysylltiad yn gyson ... Gall hyn beri rhwystredigaeth gan y gall gymryd sawl awr i ddatrys y mater'. Meddai unigolyn arall: 'Rwy'n gweithio gartref gryn dipyn ac ar oriau brig yn ystod y dydd mae effaith ar gyflymder fy nghysylltiad â'r rhyngrwyd'.

7 Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021-22. Er nad yw heb ei gyfyngiadau, mae data ynghylch pa un a yw pobl wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf yn ddangosydd a ddefnyddir yn eang ledled y DU a'r tu hwnt. Mae'n ddangosydd a ddefnyddir er enghraifft gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a Phrifysgol Rhydychen

8 Ofcom yw corff rheoleiddio telathrebu'r DU ac mae'n gyfrifol ynghyd â Llywodraeth y DU am y rhan fwyaf o bolisi telathrebu yng Nghymru. Mae Ofcom yn amcanu at sicrhau bod pobl yn cael y gorau o'u band eang, eu ffôn cartref a gwasanaethau symudol.

9 Mae adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd Ofcom yn cynnwys data ar seilwaith cyfathrebu megis perfformiad rhwydweithiau band eang a symudol. Mae'r data yr adroddir arno'n cwmpasu'r DU ac mae Ofcom hefyd yn llunio Adroddiad Cymru bob blwyddyn. Mae Ofcom yn rhyddhau adroddiadau blynyddol a dau ddiweddariad pellach bob blwyddyn.

11 Mae natur wledig wedi bod yn thema hirsefydlog mewn perthynas â heriau cysylltedd digidol yng Nghymru.[10] Mae adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom 2021 (gweler **troednodyn 9**) yn amlygu gwahaniaethau allweddol ym mherfformiad ac argaeledd cysylltiadau rhyngrwyd mewn safleoedd gwledig a threfol. Gall setiau data anwybyddu heriau a chostau ychwanegol trawsnewid y seilwaith o fewn tirwedd Cymru. Gall setiau data hefyd anwybyddu cymhlethdod heriau mewn ardaloedd gwledig. Yn 2020, lluniodd British Telecommunications plc (BT) adroddiad am gysylltedd digidol yng Nghymru wledig. Amlygodd yr adroddiad dystiolaeth mai dim ond rhan o'r darlun yw seilwaith a'i bod yn bwysig deall y rhwystrau ehangach i wneud mwy o ddefnydd o'r seilwaith digidol sydd ar gael yn fwyfwy mewn ardaloedd gwledig.[11]


10 Gwefan Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru, Diffyg digidol ac anghydraddoldeb yng nghefn gwlad, Hydref 2020 a Phrosiect Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn i Fusnesau gan Brifysgol Caerdydd, Digital technologies and future opportunities for rural businesses and areas in Wales, Ionawr 2019.

11 BT, Ardaloedd gwledig clyfar – Defnydd o seilwaith digidol gan y sectorau amaeth a thwristiaeth yng Nghymru wledig, Medi 2020

# Data ar gynhwysiant digidol – beth mae'r data'n ei ddangos?

**Arddangosyn 4: data ar bwy sydd wedi'u hallgau'n ddigidol yng Nghymru yn 2021-22**

Yn **Arolwg Cenedlaethol Cymru** gan Lywodraeth Cymru, gofynnwyd i bobl am eu **defnydd personol o'r rhyngrwyd** a pha un a ydynt wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf



Mae **7%** o'r oedolion a arolygwyd wedi'u hallgau'n ddigidol

Mae **32%** o bobl 75+ oed wedi'u hallgau

Mae **14%** o breswylwyr tai cymdeithasol wedi'u hallgau


Mae **12%** o'r rhai ag afiechyd hirdymor cyfyngol wedi'u hallgau

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru, 2021-22.

**Arddangosyn 5: data ar sgiliau digidol yng Nghymru yn 2021-22**

Yn **Arolwg Cenedlaethol Cymru** gan Lywodraeth Cymru, gofynnwyd i bobl a oeddent wedi cwblhau gweithgareddau ar y rhyngrwyd. Wedyn cafodd y gweithgareddau hyn eu grwpio'n bum categori sgiliau digidol isod:


1. Trin gwybodaeth a chynnwys
2. Cyfathrebu
3. Cyflawni trafodion
4. Datrys problemau
5. Bod yn ddiogel ac yn gyfreithlon ar-lein



Roedd **78%** o'r oedolion a arolygwyd wedi cwblhau **pum sgil digidol** yn y tri mis blaenorol

Roedd gan **41%** o ddefnyddwyr y rhyngrwyd **dros 75** bob un o'r pum sgil digidol o'i gymharu ag **89%** o ddefnyddwyr y rhyngrwyd a oedd **yn 16-49 oed**

Canran y bobl a arolygwyd a oedd wedi cwblhau **5 sgil digidol** yn y 3 mis diwethaf yn ôl categori oedran





Nodyn: Caiff y pum sgil digidol eu cydnabod yn eang ledled y DU ac maent yn seiliedig ar y fframwaith sgiliau digidol hanfodol a ddatblygwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r fframwaith wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sy'n rhan o gynorthwyo oedolion i wella'u sgiliau digidol hanfodol.


Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru, 2021-22

**Arddangosyn 6: data ar seilwaith digidol yng Nghymru**

Mae canran yr aelwydydd sydd â mynediad at y rhyngrwyd **wedi cynyddu'n gyson** ers 2012-13




Tenantiaid a oedd yn **rhentu'n breifat** a **pherchentywyr** oedd fwyaf tebygol o fod â mynediad at y rhyngrwyd o'i gymharu â thenantiaid **tai cymdeithasol** yn 2021-22





Nodyn: Nid oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer 2015-16 mewn perthynas â chanran yr aelwydydd sydd â mynediad at y rhyngrwyd. Y diffiniad o fynediad yw lle mae gan bobl y cysylltedd angenrheidiol â'r rhyngrwyd a'u bod yn dewis ei ddefnyddio.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru, 2021-22

**Arddangosyn 7: Data Ofcom am safleoedd yng Nghymru lle mae cysylltiad â'r rhyngrwyd ar gael**

Mae ychydig o dan **10,000** o safleoedd yn methu â chael gwasanaeth band eang digonol o 10 Mbps o leiaf



Mae **95%** o safleoedd yn gallu cael band eang cyflym iawn



Mae **52%** o safleoedd yn gallu cael mynediad at fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid



Mae **40%** o safleoedd yn gallu cael band eang ffeibr llawn



Mae **33%** o safleoedd gwledig yn gallu cael band eang ffeibr llawn. Mae hyn yn cymharu â **41%** o safleoedd trefol

Nodyn: Diffiniad Ofcom o ddigonol yw gwasanaethau band eang â chyflymder lawrlwytho o 10 Mbps a chyflymder lanlwytho o 1 Mbps o leiaf naill ai o rwydweithiau sefydlog neu o rwydweithiau di-wifr sefydlog. Er ein bod wedi defnyddio data a adroddir gan Ofcom ar draws y mesurau yn yr Arddangosyn, mae data modelu byw eraill ar y ddarpariaeth band eang i Gymru, a gyfrifir gan ddefnyddio methodoleg wahanol, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Gwybodaeth Band Eang Lleol. Ar 2 Mawrth 2023, roedd y data byw hwnnw'n dangos darpariaeth band eang cyflym iawn yng Nghymru o 97%.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o, Cysylltu'r Gwledydd 2022 Adroddiad Cymru gan Ofcom, Rhagfyr 2022

# Profiadau pobl o gynhwysiant ac allgau digidol

12 Mae a wnelo cynhwysiant digidol yn ei hanfod â phobl a phrofiadau pobl. Fel rhan o'r prosiect hwn, fe apeliom ni ar bobl yng Nghymru i ddweud wrthym am eu profiadau o allgau digidol. Mae **Arddangosyn 8** yn nodi rhai o'r storïau a phrofiadau a rannwyd gan bobl. Rydym wedi cynnwys rhagor o ddetholiadau a gwybodaeth yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 8: sampl o brofiadau a rannodd pobl gyda ni**

“Mae [fforddiadwyedd y rhyngrwyd] yn broblem fawr. Roedd adeg sawl blwyddyn yn ôl nawr pan oeddwn dan bwysau'n ariannol ac fe gollais i fynediad at y rhyngrwyd pan nad oeddwn yn gallu talu'r bil. Yn ffodus, roeddwn yn gallu cywiro hyn o fewn ychydig wythnosau ond roedd yr effaith ar y pryd yn ddwfn.”

**“Does gen i ddim diddordeb bob amser mewn cael mynediad at wasanaethau ar-lein. Mae'n well gen i wneud hynny wyneb yn wyneb neu siarad gyda rhywun ar y ffôn.”**

“Mae [y rhyngrwyd] wedi dod yn rhan o fywyd ac yn anghenraid braidd mae disgwyl i bobl wneud popeth ar-lein. Mae pob galwad ffôn yn gysylltiedig â gwefan a bydd y gwasanaeth awtomatig yn eich tywys at dudalen we yn y pen draw oni bai bod arnoch eisiau aros am awr ar y ffôn neu fynd dros wasanaeth awtomatig sy'n colli cysylltiad neu'n peidio â mynd â chi i'r lle yr oedd angen i chi fynd. Mae teuluoedd yn ei chael yn anodd darparu ffonau ar gyfer eu plant. Rhaid bod llinell ffôn gennych i fod â theledu y dyddiau hyn ac yn yr hinsawdd bresennol mae pobl yn siarad am beidio â rhedeg llinellau ffôn felly ni fydd gan blant fynediad at y rhyngrwyd gartref oni bai bod ganddynt fynediad at ffôn.”

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ymatebion y cyhoedd i'n galwad am astudiaethau achos, a gyhoeddwyd trwy Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a gydlynir gan Cymunedau Digidol Cymru

# Y strategaeth genedlaethol ar gynhwysiant digidol

13 Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru[12] gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys cenhadaeth ar 'gynhwysiant digidol' i 'roi'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion'. Mae Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru'n disodli ei Rhagolwg Cynhwysiant Digidol,[13] a ddisgrifiodd nodau i helpu pobl i ddod yn fwy hyderus yn y byd digidol. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cynnydd ar gynhwysiant digidol, a oedd yn crynhoi ei gwaith hyd yma i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Rhagolwg Cynhwysiant Digidol i fynd i'r afael ag allgau digidol.[14]

14 Yn ogystal â'r Strategaeth Ddigidol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod cymhlethdod cynhwysiant digidol a'r angen am ragor o ymchwil i'r pwnc. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu prosiect i fwrw golwg ar Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. Fe gyhoeddodd tîm y prosiect adroddiad interim, a oedd yn crynhoi'r gwaith a wnaed ers mis Chwefror 2022, gydag adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023. Mae'r prosiect wedi ystyried y nodweddion gofynnol y mae eu hangen ar bobl i fod wedi'u cynnwys yn ddigidol yng Nghymru gan gynnwys, er enghraifft, y math o ddyfais, mynediad at y rhyngrwyd (band eang na/neu symudol) a lefel sgiliau digidol.[15]

15 Tîm Cynhwysiant Ariannol a Digidol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi cynhwysiant digidol. Mae'r tîm yma'n cadeirio Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant a Sgiliau Digidol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar draws Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol, i drafod polisïau a materion cynhwysiant digidol. Er bod gan gyrff cyhoeddus unigol eu rolau eu hunain o ran hybu cynhwysiant digidol, gan gynnwys er enghraifft Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i roi cymorth i gyflawni ei strategaeth ddigidol trwy waith y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) a'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru (DCW): Hyder Digidol, Iechyd a Lles. Gall mesurau polisi eraill ar draws Llywodraeth Cymru neu gamau a gymerwyd gan gyrff cyhoeddus eraill gyfrannu at gynhwysiant digidol hefyd. Er enghraifft, mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n cynnwys digidol fel set o sgiliau trawsgwricwlaidd.[16]

12 Llywodraeth Cymru, Strategaeth Ddigidol i Gymru, Mawrth 2021

13 Llywodraeth Cymru, Rhagolwg Cynhwysiant Digidol, Rhagfyr 2020

14 Llywodraeth Cymru, Adroddiad cynnydd ar gynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus, Mawrth 2022

15 Yates et al. (i Lywodraeth Cymru), Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: Adroddiad Interim, Gorffennaf 2022

16 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Cwricwlwm newydd i Gymru, Mai 2022

16 Mae’r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yn rhaglen allweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mynd i’r afael â chynhwysiant digidol. Mae Cwmpas, Canolfan Cydweithredol Cymru gynt, yn cyflawni’r rhaglen mewn partneriaeth gyda’r Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe. Mae Cymunedau Digidol Cymru yn cael £2 filiwn yn flynyddol gan dimau cynhwysiant digidol ac iechyd Llywodraeth Cymru. Roedd y cyllid hwn yn ei le yn wreiddiol o ddechrau’r rhaglen ym mis Gorffennaf 2019 tan fis Mehefin 2022 ac mae estyniad arno wedi cael ei gadarnhau bellach tan 2025. Mae Cymunedau Digidol Cymru’n cynorthwyo sefydliadau i ddatblygu prosiectau cynhwysiant digidol ac i gynyddu sgiliau a hyder digidol y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae Cymunedau Digidol Cymru’n cydlynu Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW), sy’n cynnwys grŵp aml-sector o sefydliadau. Nod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yw cydlynu, hybu a newid yr agenda o ran gweithgareddau cynhwysiant digidol.

17 Mae **Arddangosyn 9** yn nodi pedwar dangosydd perfformiad allweddol (DPA) Cymunedau Digidol Cymru a gwybodaeth am berfformiad. Yn dilyn y cytundeb i roi estyniad ar y rhaglen, fe gytunodd Llywodraeth Cymru a Cymunedau Digidol Cymru ar ddangosyddion perfformiad allweddol diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2025, gan ystyried perfformiad blaenorol a ffactorau eraill. Mae **Arddangosyn 9** hefyd yn nodi’r targedau diwygiedig a bennwyd ar gyfer y cyfnod 2022-2025.

**Arddangosyn 9: crynodeb o berfformiad Cymunedau Digidol Cymru ers mis Ebrill 2021**

| | Targed<br>Ebrill 2021 – Mehefin 2022 | Perfformiad gwirioneddol<br>Ebrill 2021 – Mehefin 2022 | Targed<br>Gorffennaf 2022 – Mehefin 2025 | Perfformiad gwirioneddol<br>Gorffennaf 2022 – Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 1**<br>Pobl a gynorthwywyd i ddod yn hyderus yn ddigidol (cymhelliant, sgiliau sylfaenol a hyder) | 32,500 | 45,872 | 102,000 | 3,709 |
| **DPA 2**<br>Gwirfoddolwyr sy'n rhoi cymorth i ddinasyddion | 1,250 | 1,193 | 3,000 | 67 |
| **DPA 3**<br>Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori fel rhan o strategaeth a chyflawni gan sefydliadau | 35 | 44 | 55 | 2 |
| **DPA 4**<br>Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector a gynorthwywyd i ddod yn hyderus yn ddigidol | 1,750 | 1,870 | 4,050 | 555 |

Nodyn: cafodd y man cychwyn ar gyfer perfformiad yn erbyn targedau yn y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2025 ei newid yn ôl i sero ac nid yw'n cynnwys gweithgarwch blaenorol. Pan ddechreuodd y contract gyda Cymunedau Digidol Cymru gyntaf ym mis Gorffennaf 2019 roedd naw DPA. Yn dilyn gwerthusiad annibynnol, fe gytunodd y ddwy ochr i ddiwygio pedwar DPA. Adroddwyd ar y naw DPA gwreiddiol rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2021. Mae'r pedwar DPA newydd wedi bod ar waith rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2022.

Ffynhonnell: Cymunedau Digidol Cymru, Adroddiad Chwarterol – Dangosyddion Perfformiad Allweddol, Ebrill – Mehefin 2022 a Gorffennaf – Medi 2022

18 Lansiodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ym mis Mehefin 2020, gyda Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i roi £4.9 miliwn bob blwyddyn rhwng 2020 a 2025 i ariannu ei gweithgareddau. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn gweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru ac yn amcanu at roi anogaeth i drawsnewid a darparu gwasanaethau'n ddigidol mewn perthynas ag anghenion y bobl sy'n eu defnyddio. Nododd Llywodraeth Cymru yn llythyr cylch gorchwyl y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ar gyfer tymor y Senedd (2022 – 2026) ei bod yn disgwyl y byddai'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn canolbwyntio ar themâu gan gynnwys arweinyddiaeth a diwylliant mewn perthynas â pholisi digidol, digideiddio gwasanaethau cyhoeddus, cydweithio a thrawsnewid digidol.

19 Mae **Arddangosyn 10** yn dangos amcanion y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ac enghreifftiau o weithgareddau i'w cyflawni. Un enghraifft o weithgareddau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yw adolygiad o'r dirwedd, y gwnaeth rhan ohono ystyried beth y mae sefydliadau ledled Cymru'n ei wneud i gynorthwyo pobl i fynd ar-lein. Roedd y sail dystiolaeth yn cynnwys arolwg o gyrff cyhoeddus ac unrhyw sefydliad arall sy'n cyflawni neu'n gysylltiedig â gweithgareddau cynhwysiant digidol. Fe gasglodd yr adolygiad wybodaeth a data gan Lywodraeth Cymru a Cymunedau Digidol Cymru hefyd. Roedd allbwn y prosiect yn crynhoi rhai cymariaethau rhwng gweithgareddau cynhwysiant digidol ledled gwledydd y DU a'r tu hwnt. Nid yw allbwn yr arolwg o weithgareddau cynhwysiant digidol ar gael yn gyhoeddus eto, ond mae Llywodraeth Cymru'n amcanu at adeiladu arno a chasglu rhagor o wybodaeth i'w rhyddhau yn ystod 2023. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu map rhyngweithiol a fydd yn cael ei letya ar ei gwefan. Mae'r map rhyngweithiol wedi'i fwriadu ar gyfer sefydliadau a phobl ddibynadwy i helpu'r rhai sydd wedi'u hallgau'n ddigidol i ddod o hyd i leoedd lle gallant gael help; er enghraifft, i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol, defnyddio dyfais neu gael mynediad at y rhyngrwyd.

**Arddangosyn 10: amcanion ac enghreifftiau o weithgareddau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol**

| | Enghreiffti-au o weithgar-eddau yn 2021-22 i gyflawni'r amcanion |
|---|---|
| **Amcan 1** Helpu pobl yng Nghymru i ddefnyddio gwasanaethau digidol modern | • Wedi defnyddio timau o arbenigwyr digidol i weithio mewn partneriaeth gydag eraill, er enghraifft trwy ddangos arfer gorau a rhoi cymorth i drosglwyddo sgiliau wrth ddatblygu gwasanaethau digidol y sector cyhoeddus.<br>• Wedi datblygu a hyrwyddo Safonau Gwasanaethau Digidol i Gymru, gan helpu sefydliadau i gyrraedd y safonau a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr. |
| **Amcan 2** Paratoi arweinwyr ar gyfer trawsnewid digidol | • Wedi datblygu a darparu hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer uwch arweinwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision gwasanaethau digidol i ddefnyddwyr terfynol.<br>• Wedi cynnal gweminarau a sefydlu rhwydweithiau 'Cymunedau Ymarfer', sy'n amcanu at gysylltu arbenigedd digidol a helpu i gefnogi pobl sy'n gweithio mewn perthynas â thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus. |
| **Amcan 3** Ysgogi arloesi yn ein heconomi | • Wedi dylunio templedi caffael mewn iaith glir i helpu sector cyhoeddus Cymru pan fo'n prynu contractau neu wasanaethau digidol.<br>• Wedi dangos i gyflenwyr Cymru beth yw dull y sector cyhoeddus o 'gaffael digidol' gyda'r nod y bydd mwy o gyflenwyr yng Nghymru'n ennill contractau sector cyhoeddus Cymru. |
| **Amcan 4** Meithrin sgiliau ar gyfer ymgysylltu digidol | • Wedi datblygu adolygiad o'r dirwedd o weithgareddau cynhwysiant digidol yng Nghymru (**gweler paragraff 19**).<br>• Wedi defnyddio dylunwyr cynnwys arbenigol sy'n arbenigo mewn creu cynnwys hygyrch, i ddangos enghreifftiau i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. |

Ffynhonnell: Amcanion y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol fel a nodwyd yn eu hadolygiad blynyddol Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, Edrych yn ôl: Adolygiad blwyddyn CDPS 2021-22.

# Gwella seilwaith digidol

20 Mae seilwaith telathrebu a band eang yn faterion a gadwyd yn ôl ac felly'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU ac Ofcom. Gan hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cymryd camau tuag at ariannu seilwaith yng Nghymru, er enghraifft trwy 'Project Gigabit'.[17]

21 Er nad yw seilwaith telathrebu'n faes sydd wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis buddsoddi mewn seilwaith band eang dros y degawd diwethaf fwy neu lai. Un o'r enghreifftiau o hynny yw'r rhaglen Cyflymu Cymru a archwiliwyd gennym yn 2015.[18] Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i helpu i ariannu neu ddarparu cymhorthdal ar gyfer costau seilwaith band eang, er enghraifft trwy'r estyniad ar y rhaglen Cyflymu Cymru a phrosiectau eraill megis Allwedd Band Eang Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiadau o'r fath trwy bwerau datblygu economaidd, gan amcanu at lenwi bylchau lle mae'n ystyried y bu bylchau mewn buddsoddiadau gan naill ai Llywodraeth y DU neu'r sector preifat.

22 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal sawl adolygiad o'r farchnad i gofnodi a dadansoddi'r safleoedd yng Nghymru a fyddai'n elwa o weithgarwch masnachol presennol i gyflwyno buddsoddiad mewn seilwaith band eang. Ceir ardaloedd a lleoliadau yng Nghymru lle mae'r sector preifat wedi barnu nad yw'n hyfyw yn fasnachol ei fod yn buddsoddi, ac felly bu angen buddsoddiad cyhoeddus i ariannu prosiectau'n llawn, neu yn rhannol, ochr yn ochr â buddsoddiad preifat. Roedd y cytundeb Cyflymu Cymru rhwng Llywodraeth Cymru a BT yr ymrwymwyd iddo yn 2012 yn cynnwys dros £200 miliwn mewn buddsoddiad gan y sector cyhoeddus. Mae enghreifftiau eraill o fuddsoddi mewn seilwaith band eang yn cynnwys gwaith rhwng busnesau telathrebu llai ac awdurdodau lleol i wella cysylltedd yng Nghymru. Mae **Arddangosyn 11** yn darparu trosolwg o brosiectau seilwaith band eang allweddol yng Nghymru lle mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu cyllid cyfalaf.

17 Llywodraeth y DU, Project Gigabit, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Ebrill 2022. Mae'r prosiect hwn yn ariannu band eang a all drosglwyddo data

18 Gweler troednodyn 2.

**Arddangosyn 11: enghreifftiau allweddol o fuddsoddi cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn prosiectau band eang ers 2012**

| Prosiect | Cyllid cyhoeddus | Amcanion | Deilliannau |
|---|---|---|---|
| **Cyflymu Cymru**<br>**2012 - 2018**<br>Cyhoeddwyd y cytundeb Cyflymu Cymru gwreiddiol rhwng Llywodraeth Cymru a BT yn 2012. Bu camau pellach i'r gwaith ers hynny gan gynnwys Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru, gweler isod. | **£213.7 miliwn** (gwirioneddol) ac o hwnnw:<br>• roedd £93.3 miliwn yn gyllid yr UE<br>• roedd £67 miliwn yn gyllid Llywodraeth y DU<br>• roedd £53.5 miliwn yn gyllid Llywodraeth Cymru | Nod y prosiect oedd darparu band eang cyflym iawn i 95% (oddeutu 700,000) o safleoedd o fewn yr ardal ymyrryd erbyn 2015. Estynnnwyd nifer y safleoedd a'r ffrâm amser i 726,000 o safleoedd erbyn 2018. | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2014, roedd 47% (346,000 o safleoedd) o fewn yr ardal ymyrryd a gwmpaswyd gan y cytundeb yn gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn. Roedd hyn wedi cynyddu i dros 730,000 o safleoedd yng Nghymru erbyn mis Rhagfyr 2018. |
| **Allwedd Band Eang Cymru (ABC)**<br>**2016 - 2023**<br>Mae'r grant yma gan Lywodraeth Cymru'n helpu i ariannu neu ran-ariannu datrysiadau band eang amgen ar gyfer safleoedd. Mae'r cyllid yn seiliedig ar feini prawf cymhwystra.<br>Rhaid i gysylltiadau newydd gyflawni newid sylweddol mewn cyflymder (o leiaf ddwywaith y cyflymder lawrlwytho cyfredol), gyda'r cyswllt newydd yn darparu isafswm cyflymder lawrlwytho o 10 Mbps. | **£10.5 miliwn** (gyllidebwyd) – Llywodraeth Cymru | Mae cyllid ABC yn canolbwyntio'n benodol ar helpu safleoedd na fyddent yn elwa fel arall o'r seilwaith band eang presennol sydd ar gael trwy ddarparwyr band eang y sector preifat. | Fe wnaeth ein hadroddiad yn 2015 nodi defnydd cymharol isel o'r grant yma. Roedd adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) yn cynnwys argymhelliad ar gyfer adolygu'r cynllun hwn (gweler **troednodyn 3**). Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn.<br>Bydd adolygiad o'r dull o ddarparu cyllid yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr holl gynlluniau, gan gynnwys ABC, yn ateb gofynion cartrefi a busnesau ledled Cymru. |

| Prosiect | Cyllid cyhoeddus | Amcanion | Deilliannau |
|---|---|---|---|
| **Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru**<br>**2018 – 2023**<br>Enghraifft bellach o grant a ddyfarnwyd i BT yn dilyn proses gaffael. Mae'n amcanu at ddod â band eang ffeibr i safleoedd yn ychwanegol at y rhai a dargedwyd yng nghytundeb Cyflymu Cymru. | **£57.0 miliwn** (gyllidebwyd) ac o hwnnw:<br>• roedd £36.2 miliwn yn gyllid yr UE<br>• roedd £18.8 miliwn yn gyllid Llywodraeth Cymru<br>• roedd £2.0 filiwn yn gyllid Llywodraeth y DU | Mae'r prosiect hwn yn amcanu at alluogi safleoedd i gael mynediad at fand eang ffeibr llawn neu 'ffeibr i'r adeilad'. Roedd y prosiect yn amcanu at helpu 39,000 o safleoedd i gael mynediad at fand eang ffeibr llawn erbyn mis Mawrth 2022 (estyniad erbyn hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2023). | Mae'r prosiect wedi darparu mynediad at fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid ar gyfer 29,959 o safleoedd (y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2022).<br>Roedd datganiad y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2022 yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y prosiect hyd yma wedi cyflawni llai na'r nifer ddisgwyliedig o safleoedd. Nododd y Gweinidog fod rhai safleoedd wedi'u tynnu allan o gwmpas y prosiect, er enghraifft y rhai a gafodd fynediad at fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid dan gynlluniau eraill a gyflwynwyd.<br>Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd cyfanswm y safleoedd sydd wedi cael eu gwella'n fwy na'r targed o 39,000 pan fydd y prosiect yn cau ym mis Mawrth 2023. |

| Prosiect | Cyllid cyhoeddus | Amcanion | Deilliannau |
|---|---|---|---|
| **Y Gronfa Band Eang Lleol (LBF)**<br>**2019 - 2025**<br>Wedi'i bwriadu ar gyfer awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i helpu cymunedau lleol i gael mynediad at wasanaethau band eang cyflymach. Mae'r pwyslais ar gefnogi datrysiadau ac arloesi lleol neu ddatrysiadau creadigol i heriau cysylltedd. Anogir awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i gydweithio ar geisiadau ond gallant gyflwyno'u ceisiadau eu hunain hefyd. Gofynnir am geisiadau bob chwe mis. | **£20.0 miliwn** (gyllidebwyd) – Llywodraeth Cymru | Mae'n amcanu at ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau lleol i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy ar gyfer ardaloedd yng Nghymru sydd heb fynediad at 30 Mbps ar hyn o bryd. | Mae 11 prosiect wedi cael eu hariannu gan y Gronfa Band Eang Lleol. Cafodd y mwyafrif o brosiectau gyllid yn y 12 mis blaenorol. Mae gan yr holl brosiectau wahanol raddfeydd amser, sy'n amrywio o 12 mis i raddfeydd amser tymor hwy a fydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2025.<br>Mae'r gwariant ar gyfer y prosiect hwn a'r broses o'i roi ar waith hyd yma wedi bod yn arafach na'r disgwyl yn ôl Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pandemig COVID-19 ar ffaith bod ymgeiswyr yn wynebu heriau gyda chontractau fel yr achosion dros oedi. |

Nodyn: Mae **Atodiad 1** yn egluro ein sail resymegol dros gwmpas y prosiectau seilwaith band eang yr ydym wedi'u cynnwys. Mae'r ffigyrau'n cwmpasu buddsoddiadau cyfalaf ac nid ydynt yn cynnwys cyllid refeniw. Gwerthoedd a gyllidebwyd yw'r ffigyrau (gan bod prosiectau'n fyw), oni nodir yn wahanol. Mae'r ffigyrau ar gyfer Cyflymu Cymru'n seiliedig ar gostau gwirioneddol yr adroddwyd arnynt rhwng 2012 a 2018. Mae ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r pwynt degol agosaf. Roedd cytundeb Cyflymu Cymru hefyd yn cynnwys cyfraniad gan BT, ac fe gyfrannodd Llywodraeth Cymru £1.7 miliwn arall tuag at gyfathrebiadau Cyflymu Cymru. Mae Openreach yn is-gwmni y mae BT Group yn gyfan gwbl berchen arno ac yn fusnes sydd ar wahân yn gyfreithiol.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru o wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid ydym wedi archwilio'r wybodaeth hon. Fe wnaeth y Datganiad Ysgrifenedig ar Cyflymu Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018 ddarparu diweddariad am nifer y safleoedd sydd wedi cael budd o Cyflymu Cymru. Mae gwefan Llywodraeth Cymru'n nodi'r Meini Prawf Cymhwystra llawn ar gyfer Allwedd Band Eang Cymru a rhagor o fanylion am y Gronfa Band Eang Lleol. Mae gwybodaeth am yr adolygiad o'r cynllun ABC wedi'i nodi yn ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar seilwaith digidol, Medi 2022. Mae data yr adroddwyd arno ar safleoedd Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf wedi'i nodi yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Gysylltedd Digidol yng Nghymru, Gorffennaf 2022.

23 Fe ganolbwyntiodd ein hadroddiad yn 2015 ar Cyflymu Cymru. Roedd y cytundeb gwreiddiol ar gyfer yr ardal ymyrryd yn cynnwys cyfraniad gan y sector cyhoeddus a oedd wedi'i gapio ar £205 miliwn, a £26 miliwn gan BT (cyfanswm cyfraniad cyfalaf o £231 miliwn). Y tu allan i'r cytundeb, fe ymrwymodd BT hefyd i fuddsoddi oddeutu £19 miliwn o wariant cyfalaf ac £82 miliwn hyd at 2023 yn ystod y cam gweithredol i gefnogi, gweithredu a chynnal a chadw'r rhwydwaith. Mae amrywiadau yn y cyfraniadau cyfalaf a ddangosir yn **Arddangosyn 11** o'i gymharu ag adroddiad 2015 yn adlewyrchu'r estyniad ar y cytundeb Cyflymu Cymru a'r ffaith ein bod bellach wedi gallu cynnwys costau gwirioneddol yr adroddwyd arnynt.

24 Un o elfennau'r cytundeb Cyflymu Cymru rhwng BT a Llywodraeth Cymru oedd trefniant 'adfachu'. Mae telerau'r 'adfachiad' yn nodi, pe bai'r defnydd yn fwy na 21% yn y cyfnod hyd at ddiwedd 2023, yna byddai BT yn dosbarthu 50% o faint ei elw ar ei wasanaethau cyfanwerth yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae peth cyllid adfachu eisoes wedi cael ei ddefnyddio i helpu i ariannu camau pellach o Cyflymu Cymru.[19] Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl adfachu oddeutu £80 miliwn ar y cyfan.

25 Nid yw'r seilwaith rhyngrwyd sy'n seiliedig ar ddyfeisiau symudol wedi'i ddatganoli ychwaith. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu ffonau symudol ar gyfer ei gwaith mewn perthynas â phwnc seilwaith rhyngrwyd dyfeisiau symudol gyda'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom.[20] Mae Llywodraeth y DU yn ariannu rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir ledled y DU sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau 4G. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyllid ychwanegol yn benodol i wella gwasanaethau ffôn symudol hyd yma.

19 Llywodraeth y DU, Superfast Broadband Programme evaluation, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Hydref 2021

20 Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol, Hydref 2017

# Atodiad 1 – Am ein gwaith

## Cwestiwn yr Archwiliad a'i gwmpas

Gofynnodd ein hadolygiad lefel-uchel, 'Beth yw maint cynhwysiant digidol yng Nghymru ar hyn o bryd?' Fel rhan o'r prosiect, fe wnaethom fwrw golwg ar ddarlun cyffredinol cysylltedd digidol yng Nghymru gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith band eang a phrosiectau cynhwysiant digidol gan Lywodraeth Cymru.

Nid ydym wedi cynnal archwiliad manwl wedi'i ddiweddaru o Cyflymu Cymru ers ein hadroddiad yn 2015, am bod nifer o adroddiadau eraill wedi bwrw golwg ar y prosiect hwnnw ers hynny. Rydym wedi cynnwys crynodeb lefel-uchel o fuddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn rhai prosiectau seilwaith band eang allweddol, er enghraifft Cyflymu Cymru a Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru. Y sail resymegol dros y prosiectau a gynhwyswyd gennym oedd er mwyn canolbwyntio ar rôl Llywodraeth Cymru o ran ariannu buddsoddiadau cyfalaf yn seilwaith band eang Cymru fel elfen allweddol o gysylltu Cymru â'r rhyngrwyd i gefnogi cynhwysiant digidol. Nid ydym wedi ystyried agweddau eraill ar fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â seilwaith digidol ehangach na chyllid refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau llai yng Nghymru gan nad oedd y rhain yn uniongyrchol gysylltiedig â chynhwysiant digidol. Er enghraifft, nid ydym wedi bwrw golwg fanwl ar gyfraniad Llywodraeth Cymru at brosiectau fel Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus[21] na chymorth i fusnesau fanteisio ar fand eang cyflym iawn.[22]

Nid ydym wedi archwilio buddsoddiad masnachol mewn band eang, rôl y corff rheoleiddio cyfathrebu, Ofcom, na rhinweddau technolegol gwahanol gysylltiadau â'r rhyngrwyd, gan na fyddai'r rhain yn perthyn i gylch gorchwyl Archwilio Cymru. Ceir prosiectau eraill yn y DU mewn perthynas â seilwaith digidol a chynhwysiant digidol, er enghraifft Project Gigabit. Nid ydym wedi ystyried y prosiectau hyn gan nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd ein hadroddiad yn goleuo digwyddiad dysgu-ar-y-cyd ar thema digidol yn nes ymlaen yn 2023. Yn ystod y flwyddyn hon sydd i ddod, mae ein cydweithwyr yn y tîm Llywodraeth Leol yn gwneud gwaith archwilio sy'n bwrw golwg ar strategaethau a gweledigaeth Llywodraeth Leol ar gyfer technoleg ddigidol. Fel rhan o'n proses barhaus i gynllunio gwaith archwilio, rydym yn ystyried yr opsiwn i wneud gwaith pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol i fwrw golwg ar roi Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ar waith.

21 Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu cyllid refeniw tuag at rwydwaith cwmwl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r contract ar gyfer rheoli a rhedeg Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) gan BT ar hyn o bryd.

22 Llywodraeth Cymru, Cyflymu Cymru i Fusnesau. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth a chyngor i fusnesau geisio defnyddio cyfleoedd ar gyfer cysylltedd digidol.

# Dulliau

- **Adolygu dogfennau**: Fe wnaethom adolygu dogfennau ac erthyglau ymchwil ar gynhwysiant digidol. Roedd y rhain yn cynnwys strategaeth, cynlluniau a dogfennau cyflawni Llywodraeth Cymru mewn perthynas â seilwaith digidol a chynhwysiant digidol. Fe wnaethom ystyried tystiolaeth, adroddiadau ac argymhellion amryw bwyllgorau'r Senedd ar ac mewn perthynas â phwnc seilwaith digidol a chynhwysiant digidol, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Pedwaredd Senedd)[23] a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (Pumed Senedd),[24] yn ogystal â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith presennol.[25] Fe wnaethom hefyd ystyried adroddiadau eraill am gynhwysiant digidol, technoleg ddigidol a digideiddio gwasanaethau gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru,[26] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,[27] Nesta / Y Lab,[28] a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (gweler **troednodyn 3**).
- **Cyfweliadau**: Fe wnaethom gyfweld â swyddogion o nifer o adrannau yn Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom hefyd gyfweld â chynrychiolwyr Cymunedau Digidol Cymru, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Data Cymru, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ac Ofcom.
- **Dadansoddi data**: Fe wnaethom adolygu data o ffynonellau agored gan gynnwys Ofcom ac Arolwg Cenedlaethol Cymru. Arolwg gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys oddeutu 12,000 o bobl bob blwyddyn yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r cwestiynau'n cwmpasu amryw bynciau, gan gynnwys y rhyngrwyd, sgiliau a'r cyfryngau. Rhyddhaodd Archwilio Cymru offeryn data'n ddiweddar, sy'n darparu gwybodaeth am y cyd-destun a'r heriau mewn perthynas â thlodi yng Nghymru, ac sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau o ran defnyddio'r rhyngrwyd ledled Cymru.[29]
- **Profiadau pobl**: Gyda diolch i Cymunedau Digidol Cymru am ddosbarthu ein galwad am dystiolaeth i Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru. Roedd ein galwad am dystiolaeth ar agor rhwng 14 Hydref 2022 ac 14 Tachwedd 2022. Cawsom 51 o ymatebion dienw.

23 Senedd Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn isadeiledd band eang y genhedlaeth nesaf – Y Pedwerydd Cynulliad, Mawrth 2016

24 Senedd Cymru, Seilwaith Digidol yng Nghymru, Chwefror 2021

25 Senedd Cymru, Cysylltedd Digidol – adroddiad band eang, Awst 2022. Cafodd yr adroddiad ei drafod a'i nodi yn un o Sesiynau Llawn y Senedd, 17/11/2022. Roedd y ddadl yn cynnwys ymateb gan Lywodraeth Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r holl argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor.

26 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, Medi 2022

27 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Beth mae darpariaeth 'gyfunol' ddigidol ac wyneb yn wyneb yn ei olygu ar gyfer mynediad at wasanaethau yn ystod yr argyfwng costau byw?, Tachwedd 2022

28 Nesta, Tlodi Data yng Nghymru a'r Alban, Ebrill 2021

29 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Offeryn data Trechu Tlodi yng Nghymru, Tachwedd 2022

# Atodiad 2 – Beth ddywedodd pobl wrthym am eu profiadau o gynhwysiant a gwaharddiad digidol

## Cyflwyniad

Roedd ein galwad am dystiolaeth (gweler **Atodiad 1**) wedi'i bwriadu i gasglu barn, profiadau a storïau am brofiadau pobl o ddefnyddio'r rhyngrwyd. Cyfrifon dienw gan bobl yng Nghymru yw'r rhain.

Fe ofynnom ni'r cwestiynau canlynol i bobl am eu profiadau o ddefnyddio'r rhyngrwyd:

- Ydych chi'n teimlo bod gennych gysylltiad da â'r rhyngrwyd sy'n diwallu eich anghenion?
- Ydych chi'n teimlo bod gennych y sgiliau iawn a'r hyder i wneud popeth yr hoffech ei wneud ar-lein?
- Ydych chi erioed wedi cael help i fynd ar-lein neu ddefnyddio'r rhyngrwyd? Ydych chi erioed wedi helpu rhywun arall?
- Ydych chi'n defnyddio neu'n cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau'r Cyngor ar-lein?
- Ydych chi'n teimlo bod cost y rhyngrwyd a/neu ddata ffôn symudol yn ddichonadwy i gyllideb eich aelwyd?

# Ydych chi'n teimlo bod gennych gysylltiad da â'r rhyngrwyd sy'n diwallu eich anghenion?

Nododd y rhan fwyaf o bobl fod ganddynt **fynediad cyflym a dibynadwy at y rhyngrwyd** ond hyd yn oed pan fo gan bobl fynediad at y rhyngrwyd **nid yw mynediad at y rhyngrwyd wastad yn sefydlog**

Amlygodd rhai pobl **heriau penodol** o ganlyniad i **fyw mewn ardal wledig**

Nododd llawer **bwysigrwydd cysylltiad da â'r rhyngrwyd i weithio gartref**




"Rwy'n byw mewn ardal wledig ac **roedd fy nghysylltiad â'r rhyngrwyd yn wael** heb ryw lawer o opsiynau i wella'r cyflymder trwy ddarparwr gwasanaeth rhyngrwyd am nad oedd y seilwaith (ffeibr) modern yn ei le ac nad oedd yn debygol o fod yn ei le am 4-6 blynedd arall. **Wedyn fe gymerais i faterion i'm dwylo fy hun a phrynu gwasanaeth lloeren**. Mae'n ddyfais gwbl wyrthiol. Fe aethom ni o 2Mbps i 200Mbps ar unwaith. Mae'n wasanaeth drud ond yn werth ei ystyried os ydych wedi dioddef cysylltedd gwael am amser hir. Rydym wedi rhoi'r gorau i wasanaethau eraill i helpu i gyllidebu ar gyfer y gost fisol"

"Yn rhannol, er bod y ffaith ein bod yng nghefn gwlad yn gallu golygu ei bod yn **anodd cynnal cysylltiad** a dydych chi byth yn gwybod pryd y gallai ballu sy'n ei gwneud **yn anodd gweithio ar adegau**"


# Ydych chi'n teimlo bod gennych y sgiliau iawn a'r hyder i wneud popeth yr hoffech ei wneud ar-lein?

**Roedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r hyder**, ond nododd llawer ohonynt feysydd lle gallent gael budd o **ddatblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach**

"Ydw. Er fy mod yn teimlo wrth i'm mab fynd yn hŷn ac yn nes at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol ei hun efallai na fydd gen i'r wybodaeth angenrheidiol i'w gadw'n ddiogel"



Mynegodd rhai eu hymwybyddiaeth o **newidiadau a datblygiadau mewn technoleg yn y dyfodol a'r angen i aros gyfuwch â hynny**




**"Ydw a nac ydw. Does gen i ddim digon o hyder i roi cynnig ar bethau newydd"**



"Ydw, fwy neu lai. **Ac rwy'n gwybod sut i gael gwybodaeth os oes arnaf angen gwneud unrhyw beth newydd**. Fodd bynnag, mae gennyf orbryder bod **pethau'n symud yn gyflym iawn ac mai buan y byddant yn symud yn rhy gyflym i ffwrdd oddi wrth y sgiliau a'r wybodaeth sydd gen i ar hyn o bryd**"

# Ydych chi erioed wedi cael help i fynd ar-lein neu ddefnyddio'r rhyngrwyd? Ydych chi erioed wedi helpu rhywun arall?

Mae'r rhan fwyaf o bobl **yn cael mynediad at y rhyngrwyd heb unrhyw help**, ond mae gan lawer o bobl **rolau allweddol o ran helpu ffrindiau, teulu a chydweithwyr i ddefnyddio'r rhyngrwyd a chael eu cynnwys yn ddigidol**



"Y ddau.
Roedd angen help arnaf i ddatrys problemau nad oeddwn yn gallu eu datrys. Rwyf hefyd wedi helpu eraill i gael mynediad at y rhyngrwyd, mynd ar-lein, sefydlu llwybrydd, mewngofnodi, sefydlu cyfrifon, lawrlwytho apiau, ayb."

"Yn ddiweddar cafodd fy nghymydog oedrannus drws nesaf ei derbyn i'r ysbyty lle treuliodd 6 wythnos yn yr ysbyty ar ôl cwympo a thorri ei glun. Yn sgîl y cyfyngiadau (COVID-19) parhaus ychydig iawn o ymweliadau yr oeddent yn eu caniatáu ar y ward.

Roedd y teledu ar y ward yn rhy bell i ffwrdd iddo allu ei weld yn iawn a doedd ganddo ddim diddordeb mewn gwylio'r sianeli a oedd yn cael eu rhoi ar deledu prif ffrwd.

Does ganddo ddim cysylltiad â'r rhyngrwyd gartref, dim ffôn symudol ac ati ac mae'n gyndyn o ddefnyddio / dysgu unrhyw beth digidol gan 'nad yw'n ymddiried ynddo'. O ganlyniad, ychydig iawn o gyswllt yr oedd yn ei gael â'r byd y tu allan yn ystod ei arhosiad.

Roedd arnaf eisiau ceisio helpu. Mae'n ddilynwr criced brwd fe sefydlais i ap chwaraeon ac fe ysgrifennais gyfarwyddiadau fesul cam a rhoi clustffonau iddo'u plygio i mewn fel nad oedd y sain yn tarfu ar eraill. Mae'n weddol fyddar ac mae arno angen y sain yn uchel i glywed. Yr adborth oedd bod hwn 'wedi bod yn fendith' ac wedi helpu i leddfu ei ddiflastod, wedi ei gysylltu â'r hyn a oedd yn digwydd ac wedi rhoi rhywbeth iddo siarad amdano gydag eraill"

# Ydych chi'n defnyddio neu'n cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau'r Cyngor ar-lein?

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl **eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein**; fodd bynnag, amlygodd rhai **heriau yn gyffredinol gyda defnyddio gwefannau**

Dynododd rhai ymatebwyr **eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein, ond bod rhaid iddynt neu eu bod yn dewis siarad gyda rhywun yn lle hynny**

**“Rwy'n defnyddio gwefan y Cyngor lleol i drefnu ymweliadau â'r ganolfan ailgylchu”**



“Ydw. **Rwy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein yn gyntaf fel rheol**. Mae gan fy meddygfa deulu gyfleuster ymgynghori ar-lein felly rwy'n cwblhau arolwg ac mae meddyg yn fy ffonio nôl. Mae'r profiad wedi bod yn gadarnhaol”



“Rwyf wastad yn ceisio **cael gwybodaeth neu gysylltu â gwasanaethau ar-lein** yn gyntaf. Fodd bynnag, mae eu gwefannau'n aml yn dda i ddim a'r unig ffordd o gael atebion neu wasanaethau yw eu ffonio.”

**“Prin iawn, eto mae'n well gen i siarad gyda rhywun am unrhyw faterion”**

# Ydych chi'n teimlo bod cost y rhyngrwyd a/neu ddata ffôn symudol yn ddichonadwy i gyllideb eich aelwyd?

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn teimlo **bod y gost yn ddichonadwy; fodd bynnag fe amlygodd llawer ohonynt bryderon** ac anawsterau gyda fforddio'r gost

"Mae'n wasanaeth hanfodol yn union fel un o'ch cyfleustodau (dŵr, nwy neu drydan) ac mae'n rhaid i chi reoli cyllidebau yn unol â hynny. Os yw cyllidebau'n dynn yna rhaid i ni flaenoriaethu'r pethau pwysig yn gyntaf. Cyswllt â'r rhyngrwyd i ni mewn lleoliad gwledig yw ein ffenestr allan ar y byd; dyma yw ein llyfrgell, ein hysgol, ein diddordebau, ein hadloniant a'n canolfan iechyd"

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod **y rhyngrwyd yn hanfodol**




**"Mae'n beth hanfodol i mi felly mae angen i mi wneud yn siŵr fy mod yn cyllidebu ar ei gyfer"**

**"Cael a chael o ran bod yn ddichonadwy. Rydym yn ystyried newid i 'sim yn unig'"**

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon